

ADOLYGIAD LAMMY

Adolygiad annibynnol o'r driniaeth a gaiff unigolion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y System Cyfiawnder Troseddol, a'u canlyniadau

Penodau

Rhagarweiniad	5
Pennod 1: Deall sefyllfa anghyfartal BAME	14
Pennod 2: Gwasanaeth Eryl y Goron (GEG)	20
Pennod 3: Penderfyniadau pledio	29
Pennod 4: Y Llysoedd.....	36
Pennod 5 Y Carchardai.....	54
Pennod 6: Adsefydlu.....	70
Casgliad.....	83
Atodiad A – Cylch Gorchwyl.....	86
Atodiad B – Cais am Dystiolaeth.....	87
Atodiad C – Rhestr Termau.....	88
Atodiad D – Panel Cyngori Arbenigol Adolygiad Lammy.....	90
Atodiad E – Ymweliadau Canfod Ffeithiau.....	91
Atodiad F – Diolchiadau.....	93
Cyfeiriadau	

Rhagarweiniad

Ledled Cymru a Lloegr, mae pobl sy'n dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn chwalu rhwystrau. Mae mwy o fyfyrwyr o gefndir pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn llwyddo yn yr ysgol ac yn mynd yn eu blaen i'r brifysgol.ⁱ Mae yna ddosbarth canol BAME sy'n tyfu.ⁱⁱ Mae sefydliadau pwerus, amlwg, megis Tŷ'r Cyffredin, yn araf ddod yn fwy amrywiol.ⁱⁱⁱ Eto i gyd, mae ein system cyfiawnder yn mynd yn groes i'r duedd hon. Mae'r sawl sy'n cael eu cyhuddo, yn cael eu rhoi ar brawf ac yn cael eu cosbi'n dal yn fwy tebygol o ddod o gymunedau lleiafrifol nag y mae eu cymheiriaid.

Er mai dim ond 14% o'r boblogaeth yw dynion a menywod BAME, maent yn 25% o'r carcharorion,^{iv} ac mae dros 40% o'r bobl ifanc sydd dan glo'n dod o gefndir BAME. Petai poblogaeth ein carchardai'n adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth Cymru a Lloegr, byddai gennym dros 9,000 yn llai o bobl yn y carchar^v - sef yr hyn sy'n cyfateb i 12 carchar o faint cyffredin.^{vi} O'u cymharu â gweddill y boblogaeth, mae cyfran fwy o bobl Dduon yn y carchar yma nag sydd yn yr Unol Daleithiau.^{vii}

Mae'r diffyg tegwch a adlewyrchir yn y ffigurau hyn yn golygu bod pobl yn gwastraffu eu bywydau. Mae'n creu dicter a diffyg ymddiriedaeth, ac mae'n hynod o gostus i'r trethdalwr. Yn ôl yr amcangyfrifon, o safbwynt economaidd, mae'r ffaith bod cyfran fwy o bobl BAME nag o'r boblogaeth gyffredinol yn mynd drwy ein llysoedd, ein carchardai a'n Gwasanaeth Prawf yn costio £309m y flwyddyn.^{viii}

Cynnyrch adolygiad annibynnol, a gomisiynwyd gan ddau Brif Weinidog yw'r adroddiad hwn.^{ix} Sefydlwyd yr adolygiad i argymhell gwelliannau gyda'r nod yn y pen draw o ostwng y gyfran o droseddwr o gefndir BAME sydd yn y system cyfiawnder troseddol.^x Mae'n adlewyrchu ymdeimlad cynyddol o frys, ar draws y pleidiau gwleidyddol, i ddod o hyd i atebion i'r diffyg tegwch hwn.

Yr adolygiad

Mae dwy nodwedd amlwg i'r adolygiad hwn, a'r gyntaf o'r rheini yw ei ehangder. Mae'r cylch gorchwyl yn rhychwantu maes oedolion a phlant, menywod a dynion. Mae'n cynnwys rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG), system y llysoedd, ein carchardai a'n sefydliadau troseddwr ifanc, y Bwrdd Parôl, y Gwasanaeth Prawf a'r Timau Troseddau Ieuenctid (TTI). Roedd yn hen bryd edrych mewn ffordd gynhwysfawr ar y system cyfiawnder i oedolion ac i bobl ifanc.

Yn ail, er ei fod yn annibynnol ar y llywodraeth, mae'r adolygiad wedi gallu manteisio ar adnoddau, data a gwybodaeth a gedwir gan y system cyfiawnder troseddol (SCT) ei hun. Yn y gorffennol, mae gormod o'r wybodaeth hon wedi'i chadw yn ôl rhag i bobl allanol graffu arni a'i dadansoddi. O ganlyniad, mae'r dadansoddi yn yr adolygiad hwn yn torri tir newydd ym maes hil a chyfiawnder troseddol yn y wlad hon.^{xi}

Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar bobl BAME, ond rwy'n sylweddoli pa mor gymhleth yw'r term hwnnw. Mae cyfran fwy o lawer o rai grwpiau yn y carchar - er enghraifft rhyw 3% o'r boblogaeth gyffredinol yw pobl Dduon, ond pobl Dduon oedd 12% o'r oedolion yn y carchar yn 2015/16; a phlant duon oedd mwy nag 20% o'r plant a gedwid dan glo.^{xii xiii xiv} Mae cyfran fwy hefyd o blith grwpiau eraill megis oedolion sy'n dod o gefndir ethnig Cymysg yn y carchar, er i raddau llai.^{xv} Mae cyfran is o garcharorion Asiaidd nag sydd o'r boblogaeth gyffredinol, ond o fewn categorïau megis 'Asiaidd' neu 'Ddu', gwelir amrywiaeth fawr, ac mae rhai grwpiau'n ffynnu tra bo eraill yn straffaglu.

Mae'r cymhlethdod hwn yn adlewyrchu'r stori mewn meysydd eraill o fywyd cyhoeddus. Mewn ysgolion, er enghraifft, mae pobl BAME yn cyflawni'n well nag yr oeddent ond nid yw'r patrwm yn unffurf. Mae disgyblion Tsieineaidd ac Indiaidd yn gwneud yn well na bron pob grŵp arall, ond mae plant Pacistanaidd yn fwy tebygol o straffaglu. Mae canlyniadau arholiadau plant o gefndir Du Affricanaidd, ar gyfartaledd, yn well na chanlyniadau plant Du Caribiaidd.^{xvi} Lle bynnag y bo modd, bydd yr adroddiad hwn yn ceisio cyfeirio at amrywiadau tebyg yn y system cyfiawnder.

Mae'r adolygiad hefyd yn rhoi sylw i sefyllfa lleiafrifoedd eraill sy'n cael eu hanwybyddu'n rhy aml. Er enghraifft, yn aml iawn, ni fydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu cynnwys mewn ystadegau a gyhoeddir am blant yn y System Cyfiawnder Troseddol, ond, yn ôl amcangyfrifon answyddogol, mae cyfran sylweddol fwy ohonynt na'r boblogaeth yn gyffredinol mewn sefydliadau lle cedwir pobl ifanc dan glo, er enghraifft mae 12% o'r plant sydd mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel yn dod o'r cefndir hwn.^{xvii} Yn yr un modd, nid yw Mwslimiaid yn perthyn i un categori ethnig penodol, ond mae nifer y carcharorion sy'n Fwslimiaid wedi cynyddu o oddeutu 8,900 i 13,200 dros y degawd diwethaf.^{xviii} Mae'r ddau grŵp hyn cael eu hystyried o fewn cwmpas yr adolygiad hwn.

Rwy'n gobeithio ac yn disgwyl y bydd llawer o'm hargymhellion o fudd i ddynion, menywod, bechgyn a merched Gwyn dosbarth gweithiol hefyd. Mae cymunedau BAME yn wynebu anawsterau penodol, gan gynnwys camwahaniaethu mewn sawl maes mewn bywyd. Ond mae gan rai o'r cymunedau BAME sydd wedi'u gwrthio bellaf i'r cyrion lawer iawn yn gyffredin â'r dosbarth gweithiol Gwyn. Bydd system cyfiawnder sy'n gweithio'n well i bobl BAME a thlawd yn gweithio'n well i'r rheini sy'n Brydeinwyr Gwyn ac yn dlawd hefyd.

Yn gyffredinol, mae'r meysydd hynny yn y system cyfiawnder troseddol y rhoddwyd sylw iddynt yn fy adroddiad yn cynnwys Cymru a Lloegr. Mae'r cyfreithiau sy'n ymwneud â charchardai a rheoli troseddwyd wedi'u cadw yn ôl i San Steffan, a hefyd yr awdurdodaeth gyfreithiol unigol dros y llysoedd, barnwyr, a'r weithdrefn sifil, gan gynnwys dedfrydu. Serch hynny, yng nghyd-destun carchardai a rheoli troseddwyd, mae ambell eithriad sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y darpariaethau cyfreithiol ar gyfer gofal iechyd mewn carchardai, gofal cymdeithasol ac addysg; hyfforddiant a llyfrgelloedd mewn carchardai; a llety awdurdodau lleol lle y cedwir plant a phobl ifanc dan glo.

Cyn belled ag sy'n bosibl, rwyf wedi ceisio argymhell camau a fyddai yn fy marn i o fudd i'r system cyfiawnder troseddol drwyddi draw. Nid wyf wedi sôn yn benodol am awdurdodaeth nac ychwaith am y sbardunau ar gyfer gweithredu, ac eithrio wrth gyfeirio at ba ran o'r system cyfiawnder neu ba asiantaeth a ddylai neu a allai eu perchnogi a'u datblygu. Bydd angen i'r gwaith a wneir i weithredu fy argymhellion gadw mewn cof y gwahaniaethau yn y ffordd y caiff y System Cyfiawnder Troseddol ei gweinyddu yng Nghymru.

Y cyd-destun rhyngwladol

Nid problem sy'n unigryw i Gymru a Lloegr yw hon. Yn ystod yr adolygiad hwn, ymwelais â chwe gwlad a 12 o ddinasoedd o amgylch y byd. Ym mhob awdurdodaeth, gwelais lywodraethau a chyrrff y gymdeithas sifil yn ceisio mynd i'r afael â sut orau i gau'r bwlch gwahaniaeth rhwng yr hiliau yn eu systemau cyfiawnder hwy eu hunain. Yn Ffrainc, tua 8% o'r boblogaeth sy'n Fwslimiaid ond Mwslimiaid yw rhwng chwarter a hanner poblogaeth y carchardai.^{xix} Yn America, carcherir un o bob 35 dyn Affricanaidd-Americanidd o'i gymharu ag un o bob 214 dyn Gwyn.^{xx} Yng Nghanada, rhyw 3% o'r boblogaeth yw oedolion brodorol, ond maent yn 25% o boblogaeth y carchardai.^{xxi} Yn Awstralia, 2% o'r boblogaeth yw'r Aborigini ac Ynyswyr Culfor Torres ond maent yn 27% o boblogaeth y carchardai.^{xxii} Yn Seland Newydd, 15% o'r boblogaeth yw'r Maori ond maent yn fwy na 50% o boblogaeth y carchardai.^{xxiii}

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ynghyd y syniadau mwyaf addawol o'r awdurdodaethau eraill hynny; o ymdrechion i sicrhau barnwriaethau mwy amrywiol i ffyrdd newydd o gynnwys cymunedau wrth geisio adsefydlu troseddwyd. Yn y penodau a ganlyn, byddaf yn ystyried sut y gellir rhoi'r rhain ar waith yn ein cyd-destun ni ein hunain. Byddaf hefyd yn defnyddio syniadau sy'n nes gartref, a gasglwyd drwy ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus, cais agored am dystiolaeth a ddenodd dros 300 o ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau, arbenigwyr, ac unigolion preifat; seminarau bwrdd crwn; a rhaglen ddwys o ymweliadau â llysoedd, carchardai, gwasanaethau prawf a chynlluniau yn y gymuned ledled Cymru a Lloegr. Rwyf wedi siarad â'r rheini sy'n gweithio yn y system, o swyddogion carchardai i lywodraethwyr carchardai, o glercod y llysoedd i'n barnwyr uchaf. Rwyf wedi clywed gan ddiodefwyr a throseddwyd, gan grwpiau ffydd a chyrrff elusenol, ymgyrchwyr ac arbenigwyr academiaidd. Mae pob un o'r safbwyntiau hyn wedi dylanwadu ar fy nghasgliadau.

Rwy'n cyflwyno fy nghanfyddiadau a'm hargymhellion gydag un rhagamod mawr: mae llawer o'r pethau sy'n achosi i gyfran fwy o bobl BAME ddod drwy'r system cyfiawnder troseddol yn digwydd y tu allan iddi, ac yno hefyd y mae'r atebion. Mae pobl o gefndir du fwy na dwywaith mor debygol o fyw mewn tldi na'r rheini o gefndir gwyn.^{xxiv} Mae plant duon ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu magu mewn teulu un riant.^{xxv} Mae bechgyn Duon ac ethnig Cymysg yn fwy tebygol na bechgyn Gwyn o gael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol a chael eu harestio yn ystod eu glaslencyndod.^{xxvi xxvii} Mae'r problemau hyn yn dechrau ymhell cyn i ddyn neu fenyw ifanc gofnodi ple, mynd gerbron ynad neu fwrw dedfryd yn y carchar. Er ei bod yn rhaid mynd i'r afael â'r problemau hyn, nid oes modd gwneud hynny drwy'r system cyfiawnder yn unig. Er bod muriau'n gwahanu carchardai oddi wrth y gymdeithas, cynnyrch y gymdeithas honno ydynt.


Serch hynny, mae ein system cyfiawnder yn system rymus a phellgyrhaeddol. Mae'n gwneud miliynau o benderfyniadau bob blwyddyn sy'n dylanwadu ar ffawd dioddefwyr, y rhai sydd dan amheuaeth, diffynyddion a throseddwyr. Derbyniwyd 1.6 miliwn o achosion gan ein llysoedd y llynedd, ac fe werir biliynau ar oruchwyllo troseddwyr a'u hadsefydlu.^{xxviii xxix} Gellir gwneud rhagor i wireddu nodau craidd yr adolygiad hwn: i leihau cyfran yr unigolion o gefndir BAME yn y System Cyfiawnder Troseddol ac i sicrhau bod pob diffynnydd a throseddwr yn cael ei drin yn gydradd, o ba gefndir ethnig bynnag y daw.

Canfyddiadau

Yr hyn sy'n fy mhoeni i fwyaf yw'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae hon yn cael ei hystyried yn un o hanesion llwyddiant y System Cyfiawnder Troseddol, ac mae'r ffigurau sydd wedi'u cyhoeddi'n dangos, o gymharu'r sefyllfa â degawd yn ôl, fod llai o bobl ifanc o lawer yn troseddu, yn aildroseddu ac yn cael eu cadw dan glo.^{xxx} Sefydlwyd Timau Troseddau Ieuenctid (TTI) o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, gyda golwg ar leihau troseddu ac aildroseddu ymhlith pobl ifanc ac maent wedi bod yn gymharol lwyddiannus yn gwireddu'r cylch gwaith hwnnw. Ond, er gwaethaf y gostyngiad hwn yn y niferoedd yn gyffredinol, mae'r gyfran o bobl o gefndir BAME wedi bod yn codi'n sylweddol yng nghyswllt pob un o'r mesurau hyn.^{xxxi} Dros y deng mlynedd diwethaf:

- Gwelwyd y gyfran o bobl ifanc BAME a oedd yn troseddu am y tro cyntaf yn codi o 11% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2006 i 19% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016.^{xxxii}
- Gwelwyd y gyfran o bobl ifanc BAME a oedd yn aildroseddu yn codi o 11% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2006 i 19% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016.^{xxxiii}
- Mae'r gyfran o garcharorion ifanc BAME wedi codi o 25% i 41% yn ystod degawd 2006-2016.^{xxxiv} (gweler ffigur 1 isod yn dangos cyfansoddiad y bobl ifanc a gedwir dan glo).^{xxxv}

Ffigur 1: Y boblogaeth o dan 18 oed mewn canolfannau diogel yn ôl ethnigrwydd 2005/05 – 2017/18*



Mae'r system wedi bod yn rhy araf o lawer yn sylwi ar y broblem, heb sôn am ymateb iddi. Mae enghreifftiau ynysig o arferion da i'w gweld, gan gynnwys mewn ambell TTI³⁶ ond dim byd digon difrifol neu gynhwysfawr i wneud gwahaniaeth sy'n para. Oni wnaiff rhywbeth newid, y garfan hon fydd y genhedlaeth nesaf o oedolion sy'n troseddu.

Yn y system ieuenctid a'r system i oedolion, nid oes un esboniad unigol sy'n egluro bod cyfran fwy o grwpiau BAME i'w gweld nag o grwpiau eraill. Er enghraifft, wrth ddadansoddi data 2014/15, gwelir bod cyfraddau arestio yn gyffredinol yn uwch ym mhob grŵp ethnig, o'u cymharu ag yn y grŵp Gwyn - ddwywaith gyfuwch ar gyfer menywod Duon ac ethnig Cymysg a theirgwaith gyfuwch ar gyfer dynion Duon.³⁷ Er bod mwy o'r grwpiau hyn yn cael eu harestio, nid yw hyn yn esbonio'n llwyr gyfansoddiad y boblogaeth o bobl ifanc a gedwir dan glo.

Mae penderfyniadau eraill yn arwain at ganlyniadau pwysig. Er enghraifft, wrth ddadansoddi'r un data yn 2014/15, gwelir bod diffynyddion BAME yn gyson fwy tebygol na diffynyddion Gwyn o bledio'n ddiuog yn y llys.³⁸ Gall cyfaddef eich bod yn euog arwain at gosb yn y gymuned yn hytrach na chyfnod dan glo, neu fe all olygu bod dedfrydau dan glo'n cael eu cwtogi hyd at draean.³⁹ Mae penderfyniadau pledio'n ffactor pwysig yng nghyfansoddiad system y carchardai sy'n cynnwys mwy o bobl BAME na phobl o grwpiau eraill.

Problem sydd yr un mor ddyrys yw'r dystiolaeth sy'n dangos bod pobl yn cael eu trin yn wahanol i'w gilydd. Er enghraifft, wrth ddadansoddi data dedfrydu 2015, gwelir bod diffynyddion BAME yn Llys y Goron yn fwy tebygol na diffynyddion Gwyn o gael eu dedfrydu i garchar am droseddau cyffuriau, hyd yn oed pan fyddai ffactorau megis euogfarnau blaenorol yn cael eu hystyried.⁴⁰ Er bod angen astudio rhai meysydd eto, er enghraifft rôl ffactorau gwaethybol a lliniarol, nid oes modd esbonio'r gwahaniaethau hyn ar hyn o bryd drwy gyfeirio at dystiolaeth.

Mewn llawer o garchardai, mae'r berthynas rhwng staff a charcharorion BAME yn wael. Mae llawer o garcharorion BAME yn credu eu bod yn dioddef camwahaniaethu amlwg ac mae hyn yn cyfrannu at awydd i wrthryfela yn hytrach nag ymddiwylgio. Yn y system ieuenctid, mae charcharorion BAME ifanc yn llai tebygol o gael eu cofnodi'n rhai sydd â phroblemau megis iechyd meddwl, anawsterau dysgu a chysylltiadau trwblus yn y teulu, sy'n awgrymu y gall fod anghenion llawer ohonynt heb eu diwallu. Mae hyn oll yn rhwystro ymdrechion i fynd i'r afael ag achosion gwraidd troseddu ac aildroseddu ymhlith charcharorion BAME, sy'n golygu bod y gwahaniaethau'n bwrw gwreiddiau dyfnach.⁴¹

Cyfrifoldeb y gwasanaethau prawf a'r TTI yw rheoli troseddwr yn y gymuned a'u helpu i ddechrau bywyd newydd. Serch hynny, mae ein trefn cofnodion troseddol yn gwneud y gwrthwyneb yn llwyr. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae 22,000 o blant BAME wedi cael ychwanegu eu henwau at Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu.⁴² Mae hyn yn cynnwys ar gyfer mân droseddau, sydd wedi arwain at gerydd gan yr heddlu. Yn sgil hyn, pan fyddant yn oedolion, gallai eu henwau godi wrth archwilio cofnodion troseddol pan fyddant yn gwneud cais am swydd mewn meysydd sy'n amrywio o gyfrifyddiaeth a gwasanaethau ariannol i blymio, glanhau ffenestri a gyrru tacsis.⁴³

Y prif egwyddorion

Dylid seilio'r ymateb i'r gyfran fwy o garcharorion BAME sy'n dod drwy'r system ar dair prif egwyddor:

- Yn gyntaf, rhaid rhoi systemau cadarn ar waith i sicrhau **triniaeth deg** ym mhob rhan o'r SCT. Y brif wers yw mai gwneud y broses benderfynu'n agored er mwyn gallu craffu arni yw'r ffordd orau o sicrhau triniaeth deg. Er enghraifft, bydd rheithgorau'n trafod fel grŵp drwy drafodaeth agored. Mae hyn yn atal rhagfarn neu duedd anfwriadol ac yn eu gwneud yn amlwg: rhaid i bobl gyfiawnhau eu barn i bobl eraill. Mae sawl astudiaeth wedi dangos bod rheithgorau'n arwain at ganlyniadau teg, ni waeth beth yw cyfansoddiad ethnig y rheithgor, na beth yw cefndir y diffynnydd dan sylw.⁴⁴

Mae'r pwyslais hwn ar sicrhau bod y broses benderfynu'n agored er mwyn gallu craffu arni'n gallu golygu gwahanol bethau mewn gwahanol rannau o'r system. Er enghraifft, mae gan GEG system o adolygu ffeiliau achosion ar hap, a dyma un model y gellid ei efelychu. Enghreifftiau eraill yw cyhoeddi data llawer mwy manwl, gan alluogi pobl o'r tu allan i sylwi ar driniaeth annheg a chraffu arni.

- Yn ail, mae **ymdiriedaeth** yn y SCT yn hollbwysig. Y rheswm pam mae cynifer o ddiffynnyddion BAME yn pledio'n ddiueg, gan ildio'r cyfle i gwtogi eu dedfryd hyd at draean, yw eu bod yn gweld y system yn system 'nhw a ni'. Bydd llawer yn amharod i ymdiried yn yr addewidion a wneir iddynt gan eu cyfreithwyr eu hunain, heb sôn am gan y swyddogion mewn gorsaf heddlu sy'n eu rhybuddio i gyfaddef eu bod yn euog. Mae'r hyn sy'n dechrau fel cyfweiliad 'dim sylw' yn gallu troi'n dreial yn Llys y Goron yn gyflym iawn. Mae ymdiriedaeth yn bwysig ar bwyntiau allweddol eraill yn y SCT hefyd. Mae sylfaen dystiolaeth ryngwladol gynyddol yn dangos, pan fydd carcharorion yn credu eu bod yn cael eu trin yn deg, eu bod yn fwy tebygol o barchu'r rheolau pan fyddant dan glo ac yn llai tebygol o aildroseddu ar ôl eu rhyddhau.⁴⁵

Nid dim ond ymhlith diffynnyddion a throseddwr y mae ymdiriedaeth yn wan, ond ymhlith y boblogaeth BAME drwyddi draw. Wrth baratoi dadansoddiad arbennig ar gyfer yr adolygiad hwn gan ddefnyddio Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr 2015, gwelwyd bod 51% o'r bobl a holwyd o gefndir BAME ac a anwyd yng Nghymru a Lloegr yn credu bod y system cyfiawnder troseddol yn camwahaniaethu yn erbyn grwpiau ac unigolion penodol.⁴⁶ Yr ateb i hyn yw cael gwared ar un o symbolau cryfaf y diwylliant 'ni a nhw' - sef y diffyg amrywiaeth ymhlith y rheini sy'n gwneud penderfyniadau pwysig yn y SCT: o swyddogion a llywodraethwyr y carchardai, i'r ynadon a'r farnwriaeth. Ochr yn ochr â hyn, mae angen gwneud llawer mwy i chwalu dirgelion y drefn benderfynu ar bob pwynt yn y system. Rhaid i benderfyniadau fod yn deg, ond rhaid iddynt hefyd gael eu gweld yn benderfyniadau teg, er mwyn meithrin parch at ddeddf gwlad.

- Yn drydydd, rhaid i'r System Cyfiawnder Troseddol ddadansoddi'n gryfach ymhle mae'r **cyfrifoldeb** y tu hwnt i'w ffiniau ei hun. Mae'r gwasanaethau statudol yn hanfodol ac nid oes modd eu disodli, ond ni allant wneud popeth ar eu pen eu hunain. Rhaid i'r system wneud rhagor i gydweithio â chymunedau lleol i ddal troseddwr yn atebol a mynnu eu bod yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros eu bywydau eu hunain. Mae heddluoedd lleol, er enghraifft wedi treulio blynyddoedd yn gweithio drwy'r ffyrdd gorau o greu deialog a phartneriaeth â chymunedau lleol drwy ddulliau plismona yn y gymdogaeth a Byrddau Cymdogaethau mwy Diogel ym mhob bwrdeistref yn Llundain. Nid yw'r rhain yn berffaith ym mhob achos, ond maent yn dangos cynnydd. Mae'n bryd i rannau eraill o'r SCT wneud yr un peth. Er enghraifft, dylai'r system cyfiawnder ieuencid fwrw gwreiddiau dyfnach o lawer mewn cymunedau lleol, ac fe ddylid cynnal gwrandawriadau yn y gymdogaeth, gan ddefnyddio adeiladau gwahanol i'r arfer megis llyfrgelloedd neu ganolfannau cymuned. Dim ond drwy

sicrhau gwell partneriaeth â'r cymunedau eu hunain y gellir mynd i'r afael a chyfraddau uchel o aildroseddu ymhlith rhai grwpiau BAME.

Mae i gyfrifoldeb ei agwedd galed hefyd. Y tu ôl i lawer o droseddwyd ifanc, mae oedolion sydd naill ai'n eu hesgeuluso neu'n camfanteisio arnynt. Mae'r system cyfiawnder ieuenctid i bob golwg wedi rhoi'r gorau i boeni am rianta. Y llynedd, cafwyd 55,000 o droseddwyd ifanc yn euog yn y llysoedd⁴⁷ ond dim ond 189 o orchmynion rianta a roddwyd gan y system cyfiawnder ieuenctid. Dim ond 60 o'r rhain a oedd yn berthnasol i bobl ifanc BAME. Mae angen cymorth ar rieni, ochr yn ochr â derbyn atebolrwydd.

Mae llawer yn teimlo'n ddiymadferth yn wyneb camfanteisio ar eu plant a'r ffaith eu bod yn cael eu rhwydo i fyd troseddu. Mae naratif wedi bwrw gwreiddiau am bobl ifanc BAME yn cyfeillachu mewn gangiau, ond nid oes hanner digon o sylw'n cael ei roi i'r troseddwyd sy'n darparu arfau ar eu cyfer ac yn eu defnyddio i werthu cyffuriau.⁴⁸ Byddai mynd i'r afael yn gadarn â'r materion hyn yn canolbwyntio mwy o sylw a gorfodaeth ar yr oedolion pwerus hyn sy'n uwch o lawer ar yr ysgol droseddol. Rhaid defnyddio dulliau newydd megis y ddeddfwriaeth Caethwasiaeth Fodern i ddal yr oedolion hyn yn atebol am gamfanteisio ar ein pobl ifanc.

Penodau

Byddaf yn esbonio'r canfyddiadau hyn a'r egwyddorion ar gyfer diwygio'n fwy manwl yn y penodau a ganlyn:

- Bydd Pennod 1 yn sôn am sut mae'r SCT yn monitro 'sefyllfaoedd anghyfartal' a'r pethau sy'n gorfod newid yn y dyfodol.
- Bydd Pennod 2 yn archwilio cyfraddau arestio a phenderfyniadau cyhuddo GEG.
- Bydd Pennod 3 yn edrych ar benderfyniadau pledio.
- Bydd Pennod 4 yn canolbwyntio ar y llysoedd.
- Bydd Pennod 5 yn trafod y carchardai
- Bydd Pennod 6 yn mynd i'r afael ag adsefydlu yn y gymuned

Dyma fy argymhellion yn llawn:

Argymhelliad 1: Dylid cytuno ar ddull ar draws y SCT i gofnodi data am ethnigrwydd. Dylai hyn olygu bod modd craffu rhagor yn y dyfodol, gan leihau ar yr un pryd yr aneffeithlonrwydd sy'n gallu deillio o gasglu'r un data ddwywaith. Dylai'r dull mwy cyson hwn olygu bod GEG a'r llysoedd yn casglu data am grefydd, er mwyn gallu archwilio'n fanylach y driniaeth a gaiff gwahanol grwpiau crefyddol, a'u canlyniadau yn y dyfodol.

Argymhelliad 2: Dylai'r llywodraeth ddilyn yr un safonau trwyadl a ddilyniir yn yr Unol Daleithiau ar gyfer dadansoddi ethnigrwydd a'r SCT. Yn benodol, rhaid ailadrodd y dadansoddiad a gomisiynwyd ar gyfer yr adolygiad hwn - gan ddysgu yn sgil y dull a ddilyniir yn yr Unol Daleithiau - bob dwy flynedd, er mwyn deall rhagor am effaith penderfyniadau yn ystod pob cam yn y SCT.

Argymhelliad 3: Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac asiantaethau'r SCT gyhoeddi'r holl setiau data a gedwir am ethnigrwydd, a hynny fel mater o drefn, gan warchod preifatrwydd unigolion ar yr un pryd. Bob tro yr ailadroddir yr Archwiliad i Wahaniaethu ar sail Hill, dylai'r SCT anelu at wella ansawdd a chynyddu nifer y setiau data a ddarperir ar gyfer y cyhoedd.

Argymhelliad 4: Os na all asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol gynnig esboniad seiliedig ar dystiolaeth am y gwahaniaethau ymddangosiadol rhwng y grwpiau ethnig, yna, dylid cyflwyno diwygiadau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau hynny. Dylai'r egwyddor hon, sef, 'esbonio neu ddiwygio' fod yn berthnasol i bob un o sefydliadau'r SCT.

Argymhelliad 5: Dylai'r adolygiad o Faticr Trident gan Faer Llundain archwilio sut y caiff gwybodaeth ei chasglu, ei dilysu, ei storio a'u rhannu, gan gyfeirio'n benodol at sefyllfa anghyfartal pobl BAME. Dylai gynnwys safbwyntiau o'r tu allan, megis grwpiau gwirfoddol a chymunedol, ac arbenigedd megis Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Argymhelliad 6: Dylai GEG fachu ar y cyfle, wrth iddo ailwampio'i ganllawiau ar Gyd-fenter, i ystyried ei ymagwedd at erlyn gangiau'n gyffredinol.

Argymhelliad 7: Dylai GEG ystyried sut y gellir defnyddio deddfwriaeth Caethwasiaeth Fodern i'r eithaf, er mwyn gwarchod y cyhoedd ac atal dynion a menywod ifanc agored i niwed rhag pobl sy'n camfanteisio arnynt.

Argymhelliad 8: Lle bydd hynny'n ymarferol, dylai GEG gelu'r holl wybodaeth am achosion a drosglwyddir iddynt gan yr heddlu sy'n datgelu pwy yw pobl, er mwyn i GEG allu gwneud penderfyniadau sy'n 'ddall i hil'.

Argymhelliad 9: Dylai'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gydweithio â Chymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Bar i arbrofi â gwahanol ddulliau er mwyn esbonio hawliau cyfreithiol ac opsiynau i ddiffynyddion. Gallai'r gwahanol ddulliau hyn gynnwys, er enghraifft, swyddogaeth i gyfryngwyr cymunedol pan fydd pobl yr amheuir iddynt droseddu'n cael eu derbyn gyntaf i'r ddalffa, gan roi dewis i bobl rhwng gwahanol gyfreithwyr ar ddyletswydd, a chyfle i gael cyngor yn gynharach gan fargyfreithwyr.

Argymhelliad 10: Dylid lledaenu model arloesol Operation Turning Point i oedolion a phobl ifanc sy'n troseddu drwy Gymru a Lloegr. Mae'r model hwn yn gohirio'r broses erlyn. Prif agwedd y model yw ei fod yn ymyrryd *cyn* cofnodi ple yn hytrach na wedyn.

Argymhelliad 11: Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gymryd camau i fynd i'r afael â bylchau pwysig yn nata'r Llysoedd yr Ynadon gan gynnwys gwybodaeth am bleon a phenderfyniadau am gadw ar remand. Dylai hyn fod yn rhan o archwiliad manylach o ddyfarniadau ynadon, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rheini sy'n effeithio ar fenywod BAME.

Argymhelliad 12: Dylid estyn y cynllun Cyfiawnder Agored a'i ddiweddarau er mwyn gallu gweld dedfrydau ar gyfer troseddau unigol mewn llysoedd unigol, a'r rheini wedi'u dosbarthu yn ôl nodweddion demograffig gan gynnwys rhyw ac ethnigrwydd.

Argymhelliad 13: Fel rhan o raglen moderneiddio'r llysoedd, dylid cyhoeddi pob sylw dedfrydu yn Llys y Goron ar ffurf sain ac ar ffurf ysgrifenedig. Byddai hyn yn meithrin ymddiriedaeth drwy wneud cyfiawnder yn fwy tryloyw a dealladwy i ddiodefwyr, tystion a throseddwyr.

Argymhelliad 14: Dylai'r farnwriaeth gydweithio â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) i sefydlu system adborth arlein i fesur sut y bydd barnwyr yn cynnal achosion. Wrth gasglu'r wybodaeth hon o wahanol safbwyntiau, gan gynnwys gan staff y llysoedd, cyfreithwyr,

rheithwyr, dioddefwyr a diffynyddion, gallai'r farnwriaeth ei defnyddio'n gefn i ddatblygiad proffesiynol barnwyr yn y dyfodol, gan gynnwys wrth arfarnu perfformiad y barnwyr hynny sy'n cael arfarniad.

Argymhelliad 15: Dylai sefydliad megis y Coleg Hyfforddi Barnwrol neu'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ysgwyddo rôl swyddogaeth recriwtio fodern ar ran y farnwriaeth, a honno'n cynnwys sylwi ar bobl ddawnus, cymorth cyn-ymgeisio a hyfforddiant cymell i ymgeiswyr sy'n methu â chael eu penodi o drwch blewyn. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder archwilio hefyd a allai'r un sefydliad ysgwyddo cyfrifoldebau tebyg ar gyfer yr ynadaeth. Dylid rhoi adnoddau priodol i'r sefydliad er mwyn iddo gyflawni'r cylch gwaith ehangach hwn

Argymhelliad 16: Dylai'r llywodraeth bennu targed clir, cenedlaethol i sicrhau barnwriaeth ac ynadaeth gynrychioladol erbyn 2025. Dylai wedyn adrodd i'r Senedd bob dwy flynedd ynghylch y cynnydd a wneir tuag at gyrraedd y targed hwn.

Argymhelliad 17: Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Iechyd gydweithio i ddatblygu dull o asesu aeddfedrwydd troseddwyr sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder hyd at 21 oed. Dylai canlyniadau'r asesiad hwn lywio'r ymyriadau ar gyfer unrhyw ddioddefwr yn y garfan hon, gan gynnwys estyn strwythurau cymorth y system cyfiawnder ieuencid i droseddwyr dros 18 oed y bernir eu bod yn anaeddfed.

Argymhelliad 18: Dylid ailenwi'r paneli troseddau ieuencid yn baneli cyfiawnder lleol. Dylid cynnal y rhain yn y gymuned, a dylai fod pwyslais cryfach ar rianta. Dylent gynnwys aelodau dethol o'r gymuned a dylai fod ganddynt y grym i ddal gwasanaethau lleol eraill yn atebol am eu rôl yn adsefydlu plentyn.

Argymhelliad 19: Bob blwyddyn, dylai ynadon ddilyn nifer o achosion y cytunwyd arnynt yn y system cyfiawnder ieuencid o'u dechrau i'w diwedd, er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r broses adsefydlu'n gweithio. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder werthuso hefyd a yw eu hymlyniad parhaus at yr achosion hyn yn cael unrhyw effaith amlwg ar gyfraddau aildroseddu.

Argymhelliad 20: Dylai arweinyddion yn yr ystâd i bobl ifanc adolygu'r data a gynhyrchir yn ystod yr Asesiad Iechyd Cynhwysfawr a phwyso a mesur pa mor effeithiol ydyw ym mhob maes, gan sicrhau ei fod yn arwain at sefyllfa lle y gall pob grŵp ethnig fanteisio i'r un graddau ar wasanaethau. Dylid archwilio anghysondebau yn y data'n drwyadl ar ddiwedd pob blwyddyn.

Argymhelliad 21: Dylai system y carchardai, gan gydweithio â'r Adran Iechyd, ddysgu yn sgil y system cyfiawnder ieuencid a mabwysiadu model tebyg i'r Asesiad Iechyd Cynhwysfawr i ddynion a menywod sy'n garcharorion, a dylai'r model hwn gynnwys dull o'i werthuso.

Argymhelliad 22: Mae'r papur gwyn diweddar am garchardai'n pennu ystod o ddata newydd a gaiff eu casglu a'u cyhoeddi yn y dyfodol. Dylid casglu a chyhoeddi'r data hyn gan roi manylion llawn am ethnigrwydd.

Argymhelliad 23: Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Parôl adrodd am y gyfran o garcharorion sy'n cael eu rhyddhau, yn ôl eu trosedd ac yn ôl eu hethnigrwydd. Dylai'r data hefyd gynnwys y gyfran o bob grŵp ethnig sy'n mynd yn eu blaen i droseddu eto.

Argymhelliad 24: Er mwyn gwneud y system Cymhellion ac Ennill Breintiau yn fwy teg ac effeithiol, dylai pob llywodraethwr carchar sicrhau bod fforwm yn ei sefydliad i swyddogion a charcharorion ill dau allu adolygu tegwch ac effeithiolrwydd eu cyfundrefn. Dylai carcharorion BAME a charcharorion

Gwyn gael eu cynrychioli yn y fforwm hwn. Llywodraethwyr ddylai wneud y penderfyniad terfynol yn y maes hwn.

Argymhelliad 25: Dylai llywodraethwyr carchardai sicrhau nad yw Pwyllgorau Defnyddio Grym yn unffurf o ran eu hethnigrwydd a dylent gynnwys o leiaf un unigolyn, megis aelod o'r Bwrdd Monitro Annibynnol (BMA), sydd â chylch gwaith penodol i ystyried buddiannau carcharorion. Os gwelir bod swyddogion yn camddefnyddio grym ar fwy nag un achlysur, dylent wynebu canlyniadau sy'n gynyddol lym. Dylai hyn fod yn wir hefyd mewn lleoliadau lle y cedwir pobl ifanc dan glo.

Argymhelliad 26: Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi egluro'n gyhoeddus mai'r safon brawf briodol ar gyfer asesu cwynion yw 'cydbwysedd tebygolrwydd'. Dylai carchardai ystyried ffactorau megis sut mae swyddogion wedi delio â digwyddiadau tebyg yn y gorffennol.

Argymhelliad 27: Dylai carchardai fabwysiadu dull 'datrys problemau' wrth ymdrin â chwynion. Fel rhan o hyn, dylai pob achwynydd egluro'r hyn y mae'n dymuno'i weld yn digwydd yn sgil ymchwilio i'r gŵyn.

Argymhelliad 28: Dylid disgwyl i system y carchardai recriwtio cyfrannau tebyg i'r hyn a welir yn y wlad drwyddi draw. Dylai arweinyddion carchardai sydd â phoblogaethau amrywiol o garcharorion gael eu dal yn arbennig o gyfrifol am sicrhau hyn pan fydd eu perfformiad yn cael ei werthuso.

Argymhelliad 29: Dylai gwasanaeth y carchardai bennu targedau cyhoeddus ar gyfer symud corff o staff BAME drwodd i swyddi arwain dros y pum mlynedd nesaf.

Argymhelliad 30: Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ddatblygu dangosyddion perfformiad ar gyfer carchardai sy'n anelu at sicrhau triniaeth a chanlyniadau cydradd i garcharorion BAME a charcharorion gwyn.

Argymhelliad 31: Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gynnull gweithgor i drafod y rhwystrau rhag isgontractio mwy effeithiol gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Dylai'r gweithgor gynnwys y Cwmnïau eu hunain a thrawstoriad o gyrff llai, gan gynnwys rhai sy'n canolbwyntio'n benodol ar faterion BAME.

Argymhelliad 32: Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder fanylu ynghylch y data sy'n berthnasol i nodweddion gwarchoddedig y dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol eu casglu a'u cyhoeddi. Dylid cynnwys hyn yn y contractau a'i orfodi drwy gosbi am fethu â chydymffurfio.

Argymhelliad 33: Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid gomisiynu a chyhoeddi gwerthusiad llawn o'r hyn sydd wedi'i ddysgu yn sgil treialu ei becyn diffyg tegwch, gan nodi camau neu ymyriadau posibl y dylid eu cymryd.

Argymhelliad 34: Dylai ein SCT ddysgu yn sgil y system selio cofnodion troseddol a ddefnyddir mewn llawer o'r taleithiau yn UDA. Dylai unigolion allu cael gwranddo'u hachos, naill ai gan farnwr neu gorff tebyg i'r Bwrdd Parôl, a fyddai wedyn yn penderfynu a ddylid selio'u cofnod. Dylid rhagdybio y dylid ystyried yn ffafriol y rheini sydd wedi cyflawni troseddau naill ai yn ystod eu plentyndod neu fel oedolion ifanc ond sy'n gallu dangos eu bod wedi newid ers eu heuogfarn.

Argymhelliad 35: Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn deall y ddadl o blaid diwygio'r drefn cofnodion troseddol, dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Adran Gwaith a Phensiynau gomisiynu a chyhoeddi astudiaeth sy'n dangos costau diweithdra ymhlith cyn-droseddwyr.

Pennod 1: Deall sefyllfa anghyfartal BAME

Rhagarweiniad

Ers pasio Deddf Cyfiawnder Troseddol 1991, mae un llywodraeth ar ôl y llall wedi cyhoeddi data am ethnigrwydd a'r system cyfiawnder troseddol (SCT). Pwrpas y ddeddfwriaeth yw osgoi camwahaniaethu yn erbyn neb ar sail hil neu ryw neu ar unrhyw sail amhriodol arall.⁴⁹ Mae'n adlewyrchu un o brif egwyddorion yr adolygiad hwn: craffu yw'r llwybr gorau i sicrhau triniaeth deg.

Dadl y bennod hon yw y gall y SCT wneud llawer mwy yn y maes hwn. Efallai fod y SCT yn cyflawni ei dyletswyddau statudol ond dylai fod yn fwy uchelgeisiol na hynny.

- Mae bylchau pwysig yn yr hyn a wyddom am y SCT. Er enghraifft, bydd carchardai'n cofnodi crefydd carcharorion ond ni fydd y llysoedd na GEG yn gwneud hynny. Mae hyn yn cymylu cwestiynau pwysig, megis pam mae nifer y carcharorion sy'n Fwslimiaid wedi cynyddu bron 50% yn y deng mlynedd diwethaf.⁵⁰ Mae'r diffyg tryloywder hwn yn tansilio atebolrwydd.
- Dylai'r SCT fod ar flaen y gad drwy'r byd yn dadansoddi ethnigrwydd. Mae hyn yn golygu dysgu yn sgil y dulliau a ddefnyddir yn yr Unol Daleithiau i daflu goleuni ar bob rhan o'r system. Yn benodol, rhaid ailadrodd dadansoddiad y Mynegai Cyfraddau Cymharol a gomisiynwyd ar gyfer yr adolygiad hwn a'i gyhoeddi'n rheolaidd, er mwyn deall rhagor am effaith penderfyniadau yn ystod pob cam o'r SCT.
- Dylai'r atebolrwydd ddod o'r tu allan i'r system yn ogystal ag o'r tu mewn iddi. Er mwyn gwneud hyn, bydd gofyn arddel safbwynt newydd ac i hwnnw ddod yn drefn arferol: dylid cyhoeddi'r holl setiau data am ethnigrwydd a'r SCT a gedwir yn ganolog, ond dylid gwarchod preifatrwydd unigolion wrth wneud hynny. Bydd sicrhau bod yr holl ddata hyn ar gael yn rhwydd yn galluogi pobl o'r tu allan, megis academyddion, newyddiadurwyr ac ymgyrchwyr i ddadansoddi'r sefyllfa eu hunain, cyfrannu syniadau a dal y SCT yn atebol.
- Ochr yn ochr â chysondeb, bod yn agored ac yn drwyadl, rhaid sicrhau diwylliant heb esgusodion. Dylai'r llywodraeth gyflwyno egwyddor newydd, sef 'esbonio neu ddiwygio' os gwelir gwahaniaethau rhwng y driniaeth a gaiff gwahanol hiliau ar draws y SCT. Os na all llywodraethau gynnig esboniad seiliedig ar dystiolaeth am wahaniaethau ymddangosiadol yna, dylid cyflwyno diwygiadau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau hynny.

Data a thryloywder

Corston Independent Funders Coalition – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth Mehefin 2016

Oherwydd bod data sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd yn annigonol, mae'n amhosibl dadansoddi'n gywir i ba raddau y mae sefyllfaoedd anghyfartal yn codi.

Cymdeithas yr Ynadon – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: 30 Mehefin 2016

Byddai rhagor o ddata ar wahanol bwyntiau yn y system cyfiawnder troseddol yn gymorth mawr i weld yn ystod pa gamau y bydd sefyllfaoedd anghyfartal yn codi.

Mae manau dall pwysig yn ein system cyfiawnder. Y maes cyntaf sy'n destun pryder yw Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Er nad yw Sipsiwn, Roma a Theithwyr Gwyddelig ond yn cynrychioli 0.1% o'r boblogaeth ehangach, yn ôl yr amcangyfrifon, daw 5% o'r oedolion gwryw sy'n garcharorion o'r grwpiau hyn⁵¹. Serch hynny, amcangyfrifon o hyd yw'r ffigurau hyn, a'r rheswm dros hynny yw nad yw Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi'u cynnwys yn systemau monitro swyddogol y SCT.

Oherwydd nad yw Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi'u cynnwys yn y monitro swyddogol, mae wedi bod yn amhosibl dadansoddi, er enghraifft, a yw cyfraddau cyhuddo, penderfyniadau dedfrydu, neu gyfraddau aildroseddu Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gymesur ai peidio. Mae Gweinidogion wedi ymrwymo i gywiro'r broblem hon - dylai'r newid ddigwydd cyn gynted ag sy'n bosibl.

Grŵp Hollbleidiol y Senedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr - Cyflwyniad ysgrifenedig i'r cais am dystiolaeth Mai 2016

Ac ystyried y problemau difrifol y cyfeiriwyd atynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf, credwn mai'r peth lleiaf y gall y Llywodraeth ei wneud yw monitro'r boblogaeth sylweddol i bob golwg o blant Teithwyr a gedwir dan glo.

Mae a wnelo'r ail fwlch yn y data â chrefydd. Un o'r pethau rhyfedd am y SCT yw bod system y carchardai yn monitro gwybodaeth am grefydd pobl. Yn sgil hyn, gwyddom fod nifer y Mwslimiaid yn y carchar wedi cynyddu bron 50% dros y degawd diwethaf o 8,900 i 13,200.⁵² Mwslimiaid erbyn hyn yw 15% o boblogaeth y carchardai er nad ydynt ond yn 5% o'r boblogaeth gyffredinol. Mae'r duedd hon yn destun pryder ac mae perygl iddi arwain at rwygiadau cymdeithasol.

Nid oes cysylltiad rhwng y cynnydd dramatig hwn yn nifer y carcharorion â throeddau terfysgol, oherwydd ar gyfartaledd, ychydig iawn o bobl a geir yn euog o'r mathau hynny o droseddu bob blwyddyn. Dim ond 175 o Fwslimiaid a gafwyd yn euog o droeddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth rhwng 2001 a 2012.⁵³ Ond, oherwydd nad yw gweddill y SCT yn gofyn am yr un wybodaeth ag y mae system y carchardai'n gofyn amdani nac ychwaith yn ei chofnodi, ni wyddom hanner digon am yr hyn sy'n ysgogi'r duedd hon. A yw penderfyniadau cyhuddo, neu ganlyniadau treialon yn effeithio ar y nifer sy'n diweddu yn y carchar? A oes cyfran fawr o garcharorion yn troi at Islam ar ôl iddynt gael eu carcharu? Yn syml, nid ydym yn gwybod yr ateb. Mae angen rhoi sylw difrifol i'r bwlch hwn. Dylai Gwasanaeth Eryl y Goron (GEG) a'r llysoedd holi am grefydd pobl a'i gofnodi yn y dyfodol yn yr un modd ag y bydd system y carchardai.

Argymhelliad 1: Dylid cytuno ar ddull ar draws y SCT i gofnodi data am ethnigrwydd. Dylai hyn olygu bod modd craffu rhagor yn y dyfodol, gan leihau ar yr un pryd yr aneffeithlonrwydd sy'n gallu deillio o gasglu'r un data ddwywaith. Dylai'r dull mwy cyson hwn olygu bod GEG a'r llysoedd yn casglu data am grefydd, er mwyn gallu archwilio'n fanylach y driniaeth a gaiff gwahanol grwpiau crefyddol, a'u canlyniadau yn y dyfodol.

Ar ôl casglu data, eu deall

Adolygiad Young/Grŵp Hyfforddiant a Menter Pobl Dduon - Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: 30 Mehefin 2016

Mae angen i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi)/y Weinyddiaeth Cyfiawnder gydweithio rhagor ag academyddion allanol i ddefnyddio'r data sydd ar gael ar hyn o bryd i lywio a sbarduno newid.

Sylwadau'r Cyhoedd

Mae angen casglu data meintiol ac ansoddol cywir bob blwyddyn chyflwyno adroddiad am ganlyniadau pobl BAME i'r Gweinidog.

Daw'r gwir graffu pan fydd data'n cael eu deall. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) eisoes yn cynhyrchu cyhoeddiad bob dwy flynedd o dan y teitl *Statistics on Race and the Criminal Justice System*. Er bod hyn i'w groesawu, ni fwriedir iddo olrhain effaith penderfyniadau yn ystod pob cam penodol o'r System Cyfiawnder Troseddol - sy'n rhagamod er mwyn sicrhau atebolrwydd priodol.

Er enghraifft, mae'r cyhoeddiad *Race and the Criminal Justice System* diweddaraf yn dweud mai ymhlith y grŵp ethnig Du y gwelwyd y gyfradd uchaf o erlyniadau.⁵⁴ Serch hynny, ni fwriedir i'r dadansoddiad ddangos ai'r rheswm dros hyn yw nifer y bobl sy'n cael eu harestio ynteu, ar y llaw arall, ai penderfyniadau cyhuddo *ar ôl* arestio sy'n sbarduno'r ffigurau hyn. Gwybod hyn yw'r gwahaniaeth rhwng darparu data a'u chreu dealltwriaeth.

Mae llywodraeth yr Unol Daleithiau'n cynnig ateb i'r broblem hon. Mae Swyddfa Cyfiawnder ac Atal Troseddau Ieuencid America yn defnyddio dull a elwir yn 'Fynegai Cyfraddau Cymharol' i ynysu effaith penderfyniadau ynglŷn â thriniaeth annheg yn ystod pob cam o'r SCT⁵⁵ Yn ystod yr Adolygiad hwn, comisynwyd dadansoddiad o'n system cyfiawnder ni'n hunain gan fabwysiadu dull y Mynegai hwn.⁵⁶ Dyma'r tro cyntaf i ddadansoddiad o'r fath gael ei wneud a'i gyhoeddi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder a, hyd y gwn i, yn unman yng Nghymru a Lloegr.

Mae Tabl 1 yn rhoi enghraifft o'r dull a ddefnyddir yn y Mynegai. Mae'n cymharu grwpiau BAME â'r grŵp Gwyn, ac mae pob tabl tebyg yn yr adroddiad hwn yn gwneud yr un fath. Mae data 2014/15 yn dangos, er enghraifft:

- Ar ôl iddynt gael eu harestio, bod menywod Duon yn llai tebygol o gael eu herlyn na menywod Gwyn. O blith y rheini a arestiwyd, cyhuddwyd 88 o fenywod Duon gan GEG am bob 100 o fenywod Gwyn.⁵⁷
- Ar ôl eu cyhuddo o drosedd, roedd menywod Duon yn fwy tebygol o gael treial yn Llys y Goron. O blith y rheini a gyhuddwyd, cynhaliwyd achosion 163 o fenywod Duon yn Llys y Goron am bob 100 o fenywod Gwyn.

Tabl 1: Arestio, cyhuddo ac erlyn menywod BAME o'u cymharu â menywod Gwyn⁵⁸

	Menywod duon	Menywod Asiaidd	Menywod ethnig cymysg	Menywod Tsieineaidd /Eraill	Pob menyw BAME
O blith y rheini a <i>arestiwyd</i> , cafodd 100 o fenywod Gwyn eu <i>Cyhuddo gan GEG</i> o'u cymharu â ...	88	71	97	96	85
O blith y rheini a gyhuddwyd gan GEG, aeth achosion 100 o fenywod Gwyn yn eu blaen yn Llys yr ynadon o'u cymharu â...	90	64	102	68	84
O blith y rheini a gyhuddwyd gan GEG, aeth achosion 100 o fenywod Gwyn yn eu blaen yn Llys y Goron o'u cymharu â...	163	208	136	154	164

Mae hyn yn cynnig lefel o fanylion a thrylwyredd sydd wedi bod ar goll tan nawr. Rhoddir canlyniadau'r astudiaeth yn yr adroddiad hwn, ond rhaid peidio â chyfyngu'r dadansoddi i'r ymarfer untro hwn. Yn yr Unol Daleithiau, drwy ailadrodd yr astudiaeth, llwyddir i fapio tueddiadau dros gyfnod. Dylai'r un peth fod yn wir yma - dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ailadrodd a chyhoeddi dadansoddiad y mynegai bob dwy flynedd, er mwyn gallu olrhain y gwahaniaethau sy'n bodoli eisoes a gweld gwahaniaethau newydd sy'n codi.

Argymhelliad 2: Dylai'r llywodraeth ddilyn yr un safonau trwyadl a ddilyniir yn yr Unol Daleithiau ar gyfer dadansoddi ethnigrwydd a'r SCT. Yn benodol, rhaid ailadrodd y dadansoddiad a gomisiynwyd ar gyfer yr adolygiad hwn - gan ddysgu yn sgil y dull a ddilyniir yn yr Unol Daleithiau - bob dwy flynedd, er mwyn deall rhagor am effaith penderfyniadau yn ystod pob cam yn y SCT.

Gall GEG wneud rhagor i'w ddal ei hun yn atebol ond mae pobl o'r tu allan yn debygol o archwilio gwahanol gwestiynau i'r rhai a archwilir gan bobl ar y tu mewn. Dyma pam mae craffu allanol - gan academyddion, newyddiadurwyr, ymgyrchwyr - hefyd yn hanfodol. Os caiff y bobl allanol hyn gyfle i weld y data iawn, byddant yn cynhyrchu nid dim ond rhagor o ddadansoddi, ond dadansoddi mwy amrywiol, sy'n adlewyrchu ystod ehangach o safbwyntiau a blaenoriaethau.

Mae Llywodraethau'n cydnabod y manteision hyn fwyfwy, ac mae'r Archwiliad sydd ar y gweill i'r Gwahaniaethau rhwng yr Hiliau'n enghraifft o hyn, lle bydd gofyn i adrannau Whitehall ddynodi a chyhoeddi gwybodaeth sy'n dangos sut y bydd canlyniadau'n gwahaniaethu i bobl o wahanol gefndiroedd, mewn ystod o feysydd, gan gynnwys iechyd, addysg a chyflogaeth. Pwrpas yr archwiliad yw taflu goleuni ar sut y bydd ein gwasanaethau cyhoeddus yn trin pobl o wahanol gefndiroedd.⁵⁹

Yr egwyddor yn syml yw, bob tro yr ailadroddir yr Archwiliad, y dylai GEG anelu at gynyddu nifer y setiau data sydd ar gael yn gyhoeddus. Dylid gwneud hyn drwy drafod ag academyddion, newyddiaduron, ymgyrchwyr a phobl eraill am y wybodaeth yr hoffent iddi fod ar gael. Fel mater o drefn, dylid cyhoeddi'r holl setiau data am ethnigrwydd a gedwir yn ganolog - gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac asiantaethau'r SCT - gan warchod preifatrwydd unigolion wrth wneud hynny.

Argymhelliad 3: Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac asiantaethau'r SCT gyhoeddi'r holl setiau data a gedwir am ethnigrwydd, a hynny fel mater o drefn, gan warchod preifatrwydd unigolion ar yr un pryd. Bob tro yr ailadroddir yr Archwiliad i Wahaniaethu ar sail Hill , dylai'r SCT anelu at wella ansawdd a chynyddu nifer y setiau data a ddarperir ar gyfer y cyhoedd.

Ar ôl deall, gweithredu

Mae craffu'n hanfodol ond nid yw'r un dadansoddiad yn berffaith. Mae lle i ddadlau bob tro neu reswm dros wneud rhagor o ymchwil. Y perygl yw bod chwilio am brawf diymwad o broblem yn dod yn esgus dros wneud dim.

Rwyf wedi gweld y broblem hon drwy gydol yr adolygiad. Yn gyffredinol, rwyf wedi gweld sefydliadau'r SCT yn agored i ddeialog a chraffu. Ond mae tuedd o hyd i anwybyddu'r gwahaniaethau rhwng grwpiau'r hiliau drwy gyfeirio at y posibilrwydd y gall fod esboniad arall. Er enghraifft, y gellir esbonio gwahaniaeth drwy gyfeirio at broffil oedran grŵp penodol yn hytrach nag at ethnigrwydd per se.

Mae cwestiynau o'r fath yn iach cyn belled ag y bydd esboniadau posibl yn cael eu profi a'u harchwilio'n drwyadl. Ond nid dadansoddi yw dyfalu. Mae cyfrifoldeb arbennig ar y system cyfiawnder i sicrhau triniaeth gyfartal gerbron y gyfraith. Mae hyn yn golygu ei bod rhaid chwilio'n gyson ac yn ddyfal am y gwirionedd ynglŷn â'r driniaeth a gaiff gwahanol grwpiau a'u canlyniadau.

Rhaid cael ysgogiad i sbarduno'r ffordd hon o feddwl. Rwy'n cynnig rheol newydd i'r SCT: 'esbonio neu ddiwygio'. Os oes gwahaniaethau ymddangosiadol rhwng y grwpiau ethnig, yna dylid rhoi'r pwyslais ar sefydliadau'r system i gynnig esboniad am hyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Os nad oes modd rhoi esboniad o'r fath, dylid cymryd camau i gau'r bwlch. Byddai'r egwyddor hon yn newid y drefn arferol. Dylid disgwyl i sefydliadau naill ai gynnig atebion sy'n esbonio'r gwahaniaethau neu gymryd camau i'w dileu.

Argymhelliad 4: Os na all asiantaethau'r SCT gynnig esboniad seiliedig ar dystiolaeth am y gwahaniaethau ymddangosiadol rhwng y grwpiau ethnig, yna, dylid cyflwyno diwygiadau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau hynny. Dylai'r egwyddor hon, sef, 'esbonio neu ddiwygio' fod yn berthnasol i bob un o sefydliadau'r SCT.

Casgliad

Yn y bennod hon, cyflwynwyd egwyddor allweddol i hybu atebolrwydd ar draws y SCT am y driniaeth a gaiff unigolion BAME a'u canlyniadau: mae pobl yn fwy tebygol o gael eu trin yn deg pan fydd sefydliadau'n agored i graffu. Yn y dyfodol, dylai mwy o'r craffu hwnnw ddod o'r tu allan i'r System Cyfiawnder Troseddol ei hun, a dylai hynny gael ei hwyluso gan y llywodraeth wrth iddi ryddhau rhagor o ddata a data o well ansawdd sy'n hawdd i bobl eraill eu dadansoddi. Ond mae gan y

Ilywodraeth ac asiantaethau'r SCT gyfrifoldeb eu hunain hefyd. Ar ôl yr adolygiad hwn, dylai Cymru a Lloegr sicrhau eu bod unwaith eto ar flaen y gad yn ymchwilio ac yn dadansoddi yn y maes hwn, eu bod dysgu yn sgil arloesi yn yr Unol Daleithiau, a'u bod yn cyflwyno egwyddor newydd, sef y dylid ymateb i wahaniaethau rhwng yr hiliau naill ai drwy esbonio neu ddiwygio.

Yn y penodau a ganlyn, byddwn yn edrych yn fanwl ar sefydliadau a phwyntiau penderfynu penodol ar draws y SCT, gan ddechrau gyda'r heddlu a GEG.

Pennod 2: Gwasanaeth Erlyn y Goron

Rhagarweiniad

Mae'r adolygiad hwn yn dechrau gyda phenderfyniadau a wneir gan Wasanaeth Erlyn y Goron (GEG)⁶⁰, Ond nid yn y fan honno y mae taith unigolyn yn dechrau drwy'r system cyfiawnder troseddol (SCT). Cyfraddau arestio sy'n pennu faint o achosion a gaiff eu trosglwyddo i GEG. Yn y bennod hon, edrychir ar y llwyth achosion y bydd GEG yn ei gael gan yr heddlu ar ôl arestio pobl a'r penderfyniadau y bydd GEG ei hun wedyn yn mynd yn ei flaen i'w gwneud:

- Gan amlaf, mae'r cyfraddau arestio'n uwch ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol o'u cymharu â'r grŵp gwyn. Yn benodol, bydd cyfraddau arestio grwpiau Duon ac ethnig Cymysg yn uwch o lawer. Mae'r gynrychiolaeth fwy niferus o unigolion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) o'u cymharu â grwpiau eraill yn cychwyn ar ddechrau'r daith drwy'r SCT.
- Mae plismona'n gadael ail waddol o bwys i weddill y SCT, mae'n effeithio ar sut y bydd pobl yn gweld 'y system' drwyddi draw. Mae cwynion am dactegau plismona, yn enwedig defnyddio Stopio a Chwilio i raddau mwy mewn cymunedau BAME yn gwanhau eu hymddiriedaeth yn y SCT.
- Defnyddir Stopio a Chwilio'n aml i darfu ar droseddu gan gangiau, ac mae'r nifer sy'n cael eu harestio am gyflawni troseddau cyffuriau'n arbennig o uchel.⁶¹ Rhaid i'r heddlu a GEG ymateb i droseddu gan gangiau mewn ffordd gymesur. Mae angen cymryd camau gorfodi llym yn erbyn oedolion pwerus sydd ar frig yr ysgol droseddol. Dylid defnyddio dulliau newydd megis deddfwriaeth Caethwasiaeth Fodern i'r eithaf i warchod pobl ifanc agored i niwed sy'n cael eu gorfodi i ymuno â gweithgareddau gangiau ac i fynd i 'r afael â'r rheini sy'n gyfrifol. Yn y cyfamser, rhaid i'r SCT osgoi cyfatebu aelodaeth o gang â phobl ifanc sy'n gwneud dim mwy na chymdeithasu mewn grŵp.
- Drwyddi draw, mae'r penderfyniadau cyhuddo a wneir gan GEG yn rhai cymesur ar y cyfan. Ar ôl iddynt gael eu harestio, bydd cyfraddau cyhuddo pobl yr amheuir iddynt gyflawni trosedd o wahanol grwpiau ethnig yn gymharol debyg, ac eithrio yng nghyswllt troseddau trais rhywiol a cham-drin domestig. Dylai GEG ddelio â'r eithriadau hyn drwy fabwysiadu trefn 'erlyn sy'n ddall i hil' lle bynnag y bo modd, gan gelu gwybodaeth sy'n datgelu pwy yw pobl megis eu henw a'u hethnigrwydd o'r wybodaeth a drosglwyddir gan yr heddlu i erlynwyr GEG.
- Dylai sefydliadau eraill y SCT ddysgu gwersi gan GEG, gan gynnwys bod yn agored i graffu allanol, systemau goruchwylio mewnol, a gweithlu anghyffredin o amrywiol o fewn y SCT ehangach.

Cyfraddau arestio

GEG – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: 14 Gorffennaf 2016

Nid GEG yw ceidwad porth y system cyfiawnder troseddol. Dim ond yr achosion hynny a gyfeirir atom gan yr heddlu y gallwn eu herlyn ac felly ychydig o reolaeth sydd gennym dros ba achosion sy'n mynd i mewn i'r SCT. Ar ôl cyfeirio ffeiliau atom, bydd yn ddyletswydd ar erlynwyr i benderfynu'n llwyr yn unol â'r Cod i Erlynwyr y Goron.

Adolygiad Young/ Grŵp Hyfforddiant a Menter Pobl Dduon - Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: 30 Mehefin 2016

Mae'r prif lwybrau a'r ffactorau risg ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuencid i gyd yn cofnodi lefelau uchel o ddiffyg cydraddoldeb rhwng grwpiau ethnig: o waharddiadau o'r ysgol, y system gofal, Y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed a'r cysylltiad cyntaf â'r heddlu. Mae hanes hir a llwyth o dystiolaeth am y berthynas wael rhwng y gymuned ddu a'r heddlu ac effaith ddinistriol polisïau Stopio a Chwilio.

Mae llwyth gwaith GEG yn cael ei bennu gan gyfraddau arestio'r heddlu. Mae'r gwaith dadansoddi a gomisiynwyd gan yr adolygiad hwn yn dangos bod cyfraddau arestio'n gyffredinol uwch ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig o'u cymharu â'r grŵp gwyn, ac eithrio yng nghyswllt menywod a bechgyn Asiaidd. Yn benodol, roedd dynion Duon deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu harestio na dynion Gwyn, ac roedd menywod Duon a bechgyn Duon hefyd yn sylweddol fwy tebygol o gael eu harestio na menywod a bechgyn Gwyn. Roedd dynion a menywod ethnig cymysg hefyd fwy na dwywaith yn fwy tebygol o gael eu harestio na dynion a menywod Gwyn.⁶²

Canlyniad y cyfraddau arestio hyn yw bod y llwyth gwaith a drosglwyddir i erlynwyr GEG ac, o bosibl i'r llysoedd a system y carchardai, eisoes wedi'i ogwyddo tuag at grwpiau BAME penodol. Wrth ddadansoddi ystadegau ar gyfer yr adolygiad hwn, canfuwyd bod y system ei hun (o GEG ymlaen) yn ychwanegu rhyw faint o wahaniaethau ond mai anaml yr oedd y gwahaniaethau hyn ar yr un lefel ag a welid wrth arestio.⁶³

Mae'r berthynas rhwng y gymuned a'r heddlu hefyd yn cael effaith ddwys ar *ymddiriedaeth* yn y system cyfiawnder drwyddi draw. Efallai fod yr heddlu, GEG, y llysoedd, y carchardai a'r gwasanaeth prawf i gyd yn sefydliadau ar wahân ond maent yn rhan o un 'system' yng ngolwg llawer o bobl. Canlyniad hyn yw bod y driniaeth a'r canlyniadau yn ystod un cam yn y SCT yn effeithio ar ymddiriedaeth yn nilysrwydd y system o'i chwyr.

Yn benodol, mae defnyddio Stopio a Chwilio i raddau mwy mewn cymunedau BAME yn dal i ddifetha ymddiriedaeth yn y SCT drwyddi draw. Er gwaethaf diwygiadau diweddar i gryfhau atebolrwydd a hybu arferion da, mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos bod pobl o grwpiau BAME deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio na phobl Wyn. Yn benodol, mae pobl Dduon dros chwe gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio.⁶⁴

Mae hyn yn cyfrannu at ymdeimlad ymhlith llawer mewn cymunedau BAME bod y system cyfiawnder wedi'i llwytho yn eu herbyn. O blith y rheini sydd wedi'u geni yng Nghymru a Lloegr, mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn llai tebygol na phobl Wyn o gytuno bod y SCT yn deg. Mae'r rhan fwyaf o bobl BAME (51%) yn credu bod y SCT yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau ac unigolion penodol, o'u cymharu â 35% o'r boblogaeth sy'n sydd wedi'u geni ym Mhrydain.⁶⁵ Mae'r diffyg ymddiriedaeth hwn yn dechrau gyda phlisma, ond mae'n cael sgil-ffeithiau drwy'r system, o benderfyniadau pledio drwodd i ymddygiad mewn carchardai. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r materion hyn yn fanwl mewn penodau diweddarach.

Mae rhai o'r heddluoedd mwyaf blaengar yn arloesi er mwyn ymateb i'r her hon. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn Swydd Northampton, er enghraifft, (gweler y blwch isod) yn adlewyrchu un o brif themâu yr adolygiad hwn: sicrhau bod penderfyniadau'n destun craffu er mwyn gweld y ffordd orau o sicrhau canlyniadau teg. Yn benodol, bydd y rheini y gwelir eu bod yn camddefnyddio pwerau dro ar ôl tro yn wynebu canlyniadau. Rwy'n gobeithio y bydd heddluoedd eraill yn dysgu yn sgil yr arloesi hwn, ac, mewn penodau diweddarach, byddaf yn dweud ymhle y gallai rhannau eraill o'r SCT wneud yr un peth.

Astudiaeth Achos: Heddlu Swydd Northampton

Ar ôl cael ei beirniadu yn y gorffennol am y ffordd yr oedd yn defnyddio pwerau stopio a Chwilio, mae Swydd Northampton bellach yn craffu ar y rhesymau a gofnodir dros bob achos o Stopio a Chwilio. Panel Seiliau Rhesymol sy'n gwneud y gwaith craffu hwn ac mae'n cynnwys Cadeirydd (un o Swyddogion yr Heddlu), 2-5 aelod o'r panel (o blith y cyhoedd), a Chwnstabl neu Ringyll o'r Heddlu. Bob mis, bydd cofnodion chwilio'n cael eu didoli gan Ringyll.

Yn Swydd Northampton, os nad oes modd gweld yn glir ac ar unwaith bod y rheswm dros chwilio'n rhesymol, neu os na fydd yn cydymffurfio â chanllawiau'r Heddlu, byd yr achos hwnnw'n cael ei ddethol i'w gyflwyno gerbron y Panel. Cyflwynir y rhesymau gan gynnig esboniad cryno. Nid yw'r cyflwyniad yn enwi'r swyddog, yn dweud beth oedd canlyniad y chwilio, nac yn nodi'r amser/y lle oni fydd hynny'n rhan o'r rhesymau. Bydd y Panel yn trafod a yw'r cofnod yn cydymffurfio â safon yr Heddlu ac yna'n pleidleisio.

Os bydd y Panel yn penderfynu nad oedd seiliau rhesymol dros stopio rhywun, rhoddir gwybod i'r swyddog dan sylw am y penderfyniad ac egluro'r rheswm dros y penderfyniad hwnnw. Wedyn, bydd y canlynol yn digwydd:

- Yn y lle cyntaf, cynigir hyfforddiant i'r swyddog a'r goruchwylydd a'u hatgoffa am y canllawiau ynglŷn â Stopio a Chwilio.
- Os bydd y swyddog yn gysylltiedig ag ail achos, bydd y swyddog a'r goruchwylydd yn cael hyfforddiant un-ac-un gorfodol.
- Yn y trydydd achos, bydd y swyddog a'r goruchwylydd yn cael eu hatal rhag cyflawni/goruchwyllo Stopio a Chwilio nes bydd cynllun datblygu personol wedi'i gwblhau.

Gangiau

Cymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Troseddol Llundain - Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: 20 Mehefin 2016

Mae hunaniaeth yn fater hollbwysig. Os na fydd rhywun wedi llwyddo mewn addysg neu waith, neu os na fydd ganddo uchelgais, gall ymuno â 'gang' sy'n cynnig 'gwobrwyon' eraill fod yn gam naturiol, oherwydd, er bod hynny'n peri risg uchel ac yn ateb tymor byr, mae'n cynnig hunaniaeth sicr.

Bydd Stopio a Chwilio'n aml yn cael ei gysylltu ag amheuaeth o droseddu gan gangiau, gan gynnwys delio â chyffuriau - ac mae bechgyn Duon fwy na deg gwaith yn fwy tebygol na bechgyn Gwyn o gael eu harestio am droseddau cyffuriau.⁶⁶ Mae hyn yn cysylltu dau naratif amlwg am droseddu trefol: bod y rhyfel yn erbyn cyffuriau'n un y mae'n rhaid ei ennill ac na ellir gadael i gangiau fod yn bla mewn cymunedau.

Y broblem yw bod gangiau, o ran natur, yn anodd rhoi bys arnynt - a 'throseddu gan gangiau' yn fwy felly. Yn ôl y *Gang and Group Offenders Handbook* a gynhyrchwyd gan yr heddlu Metropolitan, mae gangiau Llundain yn newid o hyd ac yn gythryblus eu natur - bydd unigolion efallai'n symud i mewn ac allan, a rhwng gangiau'n eithaf cyflym, ac ni fydd modd eu diffinio'n fanwl bob tro. Mae'n bwysig inni sylweddoli nad gang yw pob grŵp o bobl ifanc, a'n bod yn targedu ymddygiad troseddol a threisgar unigolion yn hytrach na'r grŵp.⁶⁷

Mae dulliau goruchwyliaeth megis Matrics Trident yr Heddlu metropolitan, cronfa ddata o 'enwau gangiau' wedi cael eu datblygu i ymdrin â'r materion hyn, ochr yn ochr â defnyddio Cyd-fenter i sicrhau euogfarnau (gweler y blwch isod). Mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos, o blith y 3,621 enw ar y Matrics Trident, bod 86% yn BAME.⁶⁸ Hefyd, amcangyfrifir bod miloedd o bobl wedi'u herlyn o dan ddeddfwriaeth Cyd-Fenter dros y degawd diwethaf,⁶⁹ ac wrth holi carcharorion, cafwyd awgrym bod hyd at hanner y rheini a gafwyd yn euog o dan Gyd-fenter dweud eu bod yn BAME.⁷⁰

Mae goruchwyliaeth yn llywio gorfodaeth ac ymyriadau y bwriedir iddynt dywys unigolion oddi wrth fywyd gangiau. Mae angen y ddau beth hyn. Serch hynny, rhaid bod yn ofalus i sicrhau bod gwybodaeth a gedwir ar gronfeydd data o'r fath yn gywir, ei bod wedi'i diweddarau a'i bod yn cael ei defnyddio yn y ffordd iawn. Nid yw'n glir, er enghraifft, pam mae'r taflenni cyhuddo a drosglwyddir gan yr heddlu i GEG yn dweud a oes modd dod o hyd i unigolyn ar Matrics Trident neu beidio. Mae angen gwarchod yn ofalus y llinell rhwng gwybodaeth am gysylltiadau pobl a'r dystiolaeth ynglŷn â'u *gweithredoedd*.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae Maer Llundain wrthi'n adolygu Matrics Trident yn Llundain. Dylai'r Maer sicrhau bod yr adolygiad hwn yn archwilio sut y caiff gwybodaeth ei chasglu, ei dilysu, ei storio a'u rhannu, gan gyfeirio'n benodol at driniaeth annheg i bobl BAME. Er mwyn meithrin ymddiriedaeth yn yr adolygiad a rhoi dilysrwydd iddo, dylai gynnwys safbwyntiau o'r tu allan, megis grwpiau gwirfoddol a chymunedol, ac arbenigedd megis Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dylai'r adolygiad hwn osod esiampl i heddluoedd eraill ei dilyn o amgylch y wlad.

Argymhelliad 5: Dylai'r adolygiad o Matrics Trident gan Faer Llundain archwilio sut y caiff gwybodaeth ei chasglu, ei dilysu, ei storio a'u rhannu, gan gyfeirio'n benodol at sefyllfa anghyfartal pobl BAME. Dylai gynnwys safbwyntiau o'r tu allan, megis grwpiau gwirfoddol a chymunedol, ac arbenigedd megis Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Un o'r prif ddulliau a ddefnyddir i erlyn pobl yr amheuir eu bod yn aelodau o gangiau yw Cyd-Fenter. Gall Cyd-Fenter fod yn berthnasol pan fydd dau neu fwy o bobl yn ymwneud â throsedd neu droseddau. Fel y dywed canllawiau GEG, gall unigolion mewn cyd-fenter fod yn 'brif bartïon' ynteu'n 'is-bartïon' (cynorthwywyr neu gyd-droseddwr). 'Prif barti' yw'r sawl sy'n cyflawni'r prif drosedd, er enghraifft yn trywanu'r dioddefwr.⁷¹ Is-barti yw un sy'n cynorthwyo neu'n annog prif barti i gyflawni'r prif drosedd, heb fod yn brif droseddwr. O dan athrawiaeth cyd-fenter, gellir erlyn a chosbi'r is-barti fel petai'n brif droseddwr. Amcangyfrif bod miloedd o bobl wedi'u herlyn o dan ddeddfwriaeth Cyd-Fenter dros y degawd diwethaf,⁷² ac wrth holi carcharorion, cafwyd awgrym bod hyd at hanner y rheini a gafwyd yn euog mewn Cyd-fenter yn dweud eu bod yn BAME.⁷³

Beth yw Cyd-fenter

Gall Cyd-fenter fod yn berthnasol pan fydd dau neu fwy o bobl yn ymwneud â throedd neu droseddau. Gall unigolion mewn cyd-fenter fod yn 'brif bartïon' ynteu'n 'is-bartïon' (cynorthwywyr neu gyd-droseddwyr). 'Prif barti' yw'r sawl sy'n cyflawni'r prif drosedd, er enghraifft yn trywanu'r dioddefwr.⁷⁴

Is-barti yw un sy'n cynorthwyo neu'n annog prif barti i gyflawni'r prif drosedd, heb fod yn brif droseddwr. O dan athrawiaeth cyd-fenter, gellir erlyn a chosbi'r is-barti fel petai'n brif droseddwr.

Cafwyd dyfarniad o bwys gan yr Uchel Lys yn 2016 a oedd yn sefydlu bod y gyfraith ar Gyd-fenter wedi'i chamddechongli yn y llysoedd troseddol ers deng mlynedd ar hugain.⁷⁵ Sail penderfyniad yr Uchel Lys oedd y farn nad yw'r ffaith bod unigolyn yn *rhagweld* trosedd posibl yn golygu ei fod yn 'ei awdurdodi'n awtomatig', fel yr oedd y gyfraith wedi'i dehongli mewn achosion blaenorol.⁷⁶ Mae gofyn cyrraedd trothwy prawf uwch yn awr yn sgil hyn.

Er gwaethaf penderfyniad yr Uchel Lys, mae arbenigwyr yn y maes yn dal i boeni am ymarfer cyfreithiol ym maes Cyd-fenter. Mae llawer heb eu hargyhoeddi bod y llinell rhwng gwybodaeth 'brofiannol' a gwybodaeth 'ragfarnllyd' wedi'i thynnu'n briodol yn y dystiolaeth a roddir gerbron y rheithgorau pan fydd achosion yn cyrraedd treial. Rhaid cynnal treial pobl ar sail y dystiolaeth am eu gweithredoedd, nid ar sail eu cysylltiadau - a rhaid i'r dystiolaeth a roddir gerbron rheithgorau adlewyrchu hyn. Dylai GEG fachu ar y cyfle, wrth iddo ailwampio'i ganllawiau ar Gyd-fenter, i ystyried ei ymagwedd at erlyn gangiau'n gyffredinol.

Argymhelliad 6: Dylai GEG fachu ar y cyfle, wrth iddo ailwampio'i ganllawiau ar Gyd-fenter, i ystyried ei ymagwedd at erlyn gangiau'n gyffredinol.

Dylai GEG hefyd adolygu ei rôl yn amddiffyn unigolion agored i niwed sy'n cael eu gorfodi i ymuno â gweithgareddau gangiau gan oedolion pwerus. Bydd perygl i lawer o blant ac oedolion ifanc o gefndir BAME gael eu tynnu i'r system cyfiawnder wrth iddynt gyflawni gweithredoedd troseddol oherwydd bod eraill yn eu bygwth. Mae cofnodion yr heddlu, er enghraifft, yn dangos bod plant mor ifanc â 12 oed yn cael eu recriwtio gan arweinyddion gangiau i werthu cyffuriau. Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi datgelu bod y rhan fwyaf helaeth (71%) o heddluoedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2016 wedi arestio pobl o dan 16 oed am werthu crac, heroin neu gocên.⁷⁷

Un nodwedd sy'n destun pryder yn niwylliant y gangiau yw rôl merched a menywod ifanc. Yn ôl yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol mae menywod i'w gweld yn ymwneud â gweithgareddau gangiau mewn 90% o ardaloedd. Targedir llawer o'r menywod sy'n ymwneud â hyn oherwydd eu bod yn agored i niwed, eu bod o bosibl yn ddefnyddwyr cyffuriau dosbarth A; ac yn aml, byddant yn cael eu rheoli drwy eu bygwth a'u dychrynu.⁷⁸

Mae naratif cryf ar waith am blant ac oedolion ifanc BAME yn ymuno â gangiau, ond ni roddir hanner digon o sylw i'r troseddwyr sy'n eu hannog i gario arfau ac sy'n eu defnyddio i werthu cyffuriau. Byddai mynd i'r afael yn gadarn â'r materion hyn yn canolbwyntio mwy o sylw a mwy o gamau gorfodi ar yr oedolion pwerus sy'n uwch o lawer ar yr ysgol droseddol.

Mae cyfle yn hyn o beth yn sgil deddfwriaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar.⁷⁹ Mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol wedi awgrymu y gallai deddfwriaeth Caethwasiaeth Fodern fod yn fodd cryfach o atal arweinyddion gangiau na llawer o'r dulliau cyfreithiol presennol sydd ar gael i'r heddlu a GEG. Mae'n creu mwy o stigma cymdeithasol na throseddau eraill, a hefyd mae'n agor llwybrau cyfreithiol i erlyn pobl.⁸⁰ Dylai GEG ystyried sut y gellir defnyddio'r ddeddfwriaeth i'r eithaf, er mwyn gwarchod y cyhoedd ac atal dynion a menywod ifanc agored i niwed rhag pobl sy'n camfanteisio arnynt.

Argymhelliad 7: Dylai GEG ystyried sut y gellir defnyddio deddfwriaeth Caethwasiaeth Fodern i'r eithaf, er mwyn gwarchod y cyhoedd ac atal dynion a menywod ifanc agored i niwed rhag pobl sy'n camfanteisio arnynt.

Cyhuddo gan GEG

Er mai'r heddlu sy'n penderfynu ynghylch cyhuddo pobl am fân droseddau, trosglwyddir y troseddau mwyaf difrifol i GEG (gweler y blwch isod). Roedd hyn yn rhyw 35% o'r achosion yn 2014/15.⁸¹ Mae'r dystolaeth yn awgrymu bod penderfynwyr GEG yn gwneud penderfyniadau gweddol deg ar draws grwpiau ethnig. Cynhaliodd GEG ei ddadansoddiad ei hun ar gyfer ei gyflwyniad i'r adolygiad hwn. Canfu, lle bydd GEG yn gyfrifol am benderfynu ynghylch cyhuddo ein bod yn erlyn yr un gyfran o achosion ar draws pob grŵp ethnig: ni waeth am ethnigrwydd diffynnydd, y bydd yn penderfynu erlyn mewn oddeutu 70 - 72% o'r achosion.

Penderfyniadau cyhuddo GEG

Bydd erlynwyr GEG yn ystyried achosion ar sail prawf dau gam. Yn gyntaf, rhaid i achosion basio'r *cam tystiolaeth*. Rhaid i'r erlynwyr benderfynu a oes digon o dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd i sicrhau rhagolygon realistig o euogfarn. Yn ail, mae'r cam '*er budd y cyhoedd*'. Os bydd yr erlynnydd yn penderfynu bod rhagolygon realistig o sicrhau euogfarn, rhaid iddo wedyn ystyried a yw erlyn y diffynnydd er budd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys buddiannau'r dioddefwr a difrifoldeb trosedd honedig, ac mae'n fwy tebygol y bydd angen erlyn troseddau mwy difrifol.⁸²

Mae'r dadansoddiad annibynnol a gomisiynwyd ar gyfer yr Adolygiad hwn,⁸³ yn cadarnhau'r darlun bod penderfyniadau GEG yn gymharol deg. Canfu'r dadansoddiad, o blith yr achosion a drosglwyddir i GEG, fod dynion a menywod BAME ill dau fymryn yn llai tebygol o gael eu cyhuddo na dynion a menywod Gwyn, ond nid oedd llawer o wahaniaeth yn y naill achos na'r llall.⁸⁴ Er enghraifft, am bob 100 o ddynion Gwyn a gyhuddwyd, cyhuddwyd 98 o ddynion Duon, 92 o ddynion Asiaidd, 102 o bobl Ethnig Cymysg a 98 o ddynion Tsieneaidd ac eraill.⁸⁵

Oherwydd mai nifer gymharol fach o achosion sy'n ymwneud â merched BAME, roedd yn anodd dosbarthu penderfyniadau cyhuddo yn ôl ethnigrwydd, er bod merched Duon yn llai tebygol o gael eu cyhuddo na merched Gwyn, ond roedd merched Ethnig Cymysg yn wynebu cyhuddiadau'n amlach. Roedd bechgyn BAME fymryn yn fwy tebygol o gael eu cyhuddo na bechgyn Gwyn, ond bach oedd y gwahaniaethau hyn o safbwynt ystadegol.⁸⁶ Y darlun cyffredinol, felly, oedd darlun o ganlyniadau cymharol deg, gyda dim ond mân wahaniaethau i'r naill gyfeiriad a'r llall o ran cyfraddau cyhuddo GEG.

Er gwaethaf y stori gadarnhaol hon, roedd un maes a nodwyd gan y GEG ei hun a oedd yn destun pryder. Wrth edrych ar fathau penodol o droseddau, gwelwyd gwahaniaethau sylweddol yng nghyfraddau erlyn ac euogfarnau achosion trais rhywiol a cham-drin domestig. Canfuwyd bod

cyfraddau erlyn diffynyddion duon a 'Tsieineaidd ac Eraill' (sy'n cynnwys unrhyw un sy'n dweud eu bod yn perthyn i 'Grŵp ethnig arall') yn uwch ar gyfer y ddau fath hwn o drosedd. Casgliad GEG oedd:

Y gellid dweud bod y gwahaniaeth yn awgrymu bod y GEG yn rhy gyndyn o erlyn diffynyddion Gwyn am droseddau rhyw neu'n rhy barod i erlyn diffynyddion Tsieineaidd ac Eraill neu Dduon. Efallai fod ffactorau eraill ar waith hefyd, serch hynny, felly mae'r papur hwn yn nodi'r posibiladau ac yn galw am ragor o ymchwil yn y maes hwn.⁸⁷

Byddem yn croesawu rhagor o ddadansoddi, ond mae camau ymarferol hefyd y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Gallai GEG gelu'r holl wybodaeth sy'n datgelu pwy yw pobl, megis enwau ac ethnigrwydd, o'r wybodaeth am achosion sy'n cael ei throsglwyddo rhwng swyddogion yr heddlu a'r erlynwyr - er enghraifft ar daflenni cyhuddo. Drwy wneud hyn, byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n 'ddall i hil'. Yna, gallai GEG a'r cyhoedd fod yn ffyddiog nad tuedd oedd yn gyfrifol am unrhyw anghysondebau yn y penderfyniadau cyhuddo, boed y rheini'n ymwybodol neu beidio.

Argymhelliad 8: Lle bydd hynny'n ymarferol, dylai GEG gelu'r holl wybodaeth am achosion a drosglwyddir iddynt gan yr heddlu sy'n datgelu pwy yw pobl, er mwyn i GEG allu gwneud penderfyniadau sy'n 'ddall i hil'.

Dysgu gwersi

Nid yw'r un sefydliad yn berffaith - a rhaid mynd i'r afael â'r anghysondebau a ddisgrifiwyd uchod - ond mae yna wersi y gallai sefydliadau eraill yn y SCT eu dysgu gan GEG.

Craffu allanol

Y wers gyntaf yw bod GEG wedi agor ei ddrysau i graffu allanol. Er enghraifft:

- Yn 2000, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ddadansoddiad o 5,500 o achosion diffynyddion ifanc i'w profi ar gyfer gwahaniaethau ethnig yn y penderfyniadau a wnaeth GEG.⁸⁸
- Yn 2003, cyhoeddodd GEG *Race for Justice: A Review of CPS Decision-Making for Possible Racial Bias at Each Stage of the Prosecution Process*. Yn ystod yr astudiaeth hon, archwiliwyd bron 13,000 o achosion ffeiliau i benderfynu a oedd unrhyw duedd ym mhenderfyniadau GEG yn ystod pob cam o'r broses erlyn.⁸⁹
- Yn 2005, comisiynodd GEG asesiad effaith annibynnol i asesu effaith cyhuddo statudol a phenderfynu a yw penderfyniadau cyhuddo yn amrywio yn ôl rhyw ac ethnigrwydd y sawl sydd dan amheuaeth. Canfu'r astudiaeth nad oedd dim gwahaniaethau arwyddocaol rhwng grwpiau ethnig gwahanol yng nghyfran yr achosion a gyhuddwyd maes o law.⁹⁰
- Yn 2005, cyhoeddodd GEG asesiad effaith annibynnol ar grwpiau ethnig a'r ddau ryw yn sgil penderfyniadau cyhuddo ar gyfer 42 ardal GEG. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys dadansoddi oddeutu 225,000 o benderfyniadau cyhuddo.⁹¹
- Yn 2007, cyhoeddwyd astudiaeth arall, a rhoddwyd caniatâd i'r academydd gysgodi 12 o erlynwyr GEG mewn llys yn y ddinas a naw yn y llys ynadon sirol. Yn ystod yr astudiaeth, archwiliwyd a oedd unigolion BAME a Gwyn yn fwy tebygol o weld eu hachos yn cyrraedd Llys y Goron neu, fel arall, eu hachos yn cael ei drin yn y Llys Ynadon.⁹²

Ac ystyried yr hanes hwn o graffu allanol, nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith bod y GEG yn llwyddo i sicrhau canlyniadau cymharol deg. Mae sefydliadau sy'n coleddu atebolrwydd yn ymrwmo i safonau uchel oherwydd nad oes unman iddynt guddio rhag y canlyniadau. Mae hyn yn adlewyrchu'r arferion sydd ar flaen y gad yng Nghymru a Lloegr, ac o amgylch y byd (gweler y blwch isod). Yn ogystal ag astudiaethau untro'n dadansoddi ei ddata, mae GEG yn dal i gynnal cyfarfodydd atebolrwydd cymunedol lleol a chenedlaethol, lle y rhoddir cyfle i sefydliadau eraill megis Cymorth i Ddiodefwyr ddal swyddogion GEG yn atebol. Mae hyn yn cynnig cyfle i godi materion dyrys a gweld a oes bylchau yn y sail dystiolaeth.

Astudiaeth achos: Sefydliad Vera

Yn 2014, cyhoeddodd Sefydliad Cyfiawnder Vera astudiaeth o bwys, a gomisiynwyd gan Atwrnai Rhanbarth Manhattan, Cyrus R. Vance, Jr. Roedd yr astudiaeth dros gyfnod o ddwy flynedd yn archwilio anghysondebau rhwng yr hiliau a grwpiau ethnig yng nghanlyniadau achosion troseddol yn New York County. Rhoddwyd cyfle i ymchwilyr Sefydliad Vera weld data a gedwid gan Swyddfa Atwrnai'r Rhanbarth ar gyfer yr astudiaeth. Roedd eu dadansoddiad yn canolbwyntio ar benderfyniadau erlynwyr yn ystod nifer o gamau, gan gynnwys derbyn achosion i'w herlyn, rhyddhau achosion, cadw dan glo cyn treial, bargeinio wrth bledio, ac argymhellion dedfrydu.

Eu casgliad oedd mai'r ffactorau mwyaf dylanwadol wrth benderfynu ynghylch canlyniadau achosion oedd cofnod blaenorol y diffynnydd, y math o drosedd a difrifoldeb y cyhuddiad. Serch hynny, canfu'r astudiaeth hefyd fod ethnigrwydd i bob golwg yn effeithio ar y penderfyniad i erlyn unigolion mewn rhai achosion. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r astudiaeth er mwyn sicrhau tryloywder, ac roedd yr astudiaeth yn argymhell rhagor o graffu yn y meysydd hynny lle y gwelwyd anghysondebau.

Craffu mewnol

Mae gan GEG systemau atebolrwydd a rheolaeth ansawdd mewnol hefyd. Mae'r sefydliad yn adolygu penderfyniadau cyhuddo mewn ffordd systematig er mwyn sicrhau mwy o drylwyrdd a chydbwysedd. O fewn y sefydliad, adolygir o leiaf un achos ar hap ar gyfer pob erlynnydd bob mis. (Gweler y blwch isod.) Mae proses adolygu gan gymheiriaid yn creu ymdeimlad iach o atebolrwydd i erlynwyr GEG. Er nad yw'r system adolygu gan gymheiriaid wedi'i gynllunio'n benodol i ystyried a yw ethnigrwydd diffynyddion yn effeithio ar benderfyniadau, mae'r dystiolaeth academaidd yn awgrymu bod cael rhywun yn craffu ar eich gwaith yn gallu annog unigolion i ystyried eu penderfyniadau eu hunain er mwyn sicrhau eu bod mor niwtral â phosibl a bod modd eu cyfiawnhau.⁹³

Astudiaeth achos: hap-adolygiadau o achosion yn GEG

Mae'r adolygiad yn archwilio ansawdd y penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn gymesur ac yn ymatebol, a'u bod yn cydymffurfio â'r Cod i Erlynwyr y Goron a pholisïau cenedlaethol eraill, megis Cod y Ddiodefwyr. Rheolwr llinell yr erlynnydd fydd yn cynnal yr adolygiad. Os gwelir bod problem benodol yn ystod yr hap-adolygiad, yna, bydd lefel y craffu'n dwysáu, ar yr erlynnydd a hefyd ar benderfyniadau sy'n ymwneud â'r trosedd hwnnw. Os gwelir problemau'n codi eto, yna, cymerir camau ar unwaith i wella'r perfformiad. Gall hyn gynnwys darparu rhagor o hyfforddiant i erlynwyr a monitro penderfyniadau rheolwyr yn fwy gofalus. Mae'r canllawiau Sicrhau Ansawdd Mewnol yn argymhell adborth adeiladol ac ymarfer myfyriol i wella ansawdd a hefyd i sicrhau gweli ymgysylltu â'r erlynnydd.

Yn ogystal â hyn, bydd Paneli Lleol Rheoli Achosion yn cael eu cynnull ym mhob achos difrifol a chymhleth. Bydd y Panel yn sicrhau bod pob achos yn cael ei reoli'n briodol. Bydd achosion arbennig o gymhleth yn destun craffu gan Banel Rheoli Achosion y Cyfarwyddwr, gan sicrhau bod yr achosion hyn yn cael eu monitro ar y lefel uchaf.

Gweithlu amrywiol

Un o nodweddion mwyaf nodedig GEG, o fewn teulu ehangach sefydliadau'r SCT yw amrywiaeth ei weithlu (gweler Ffigur 2). Mae data diweddaraf am weithlu GEG yn dangos bod staff BAME yn 19% o'r rheini a ddatgelodd wybodaeth am eu hethnigrwydd.⁹⁴ Mae hyn yn golygu mai GEG yw un o sefydliadau mwyaf amrywiol y SCT - mewn gwirionedd, mae'n fwy amrywiol na'r boblogaeth drwyddi draw (14% o'r boblogaeth gyffredinol oedd pobl BAME, yn ôl cyfrifiad 2011⁹⁵).

Mae'n arwyddocaol bod yr amrywiaeth hon i'w gweld drwy bob rhan o strwythur y sefydliad - er enghraifft pobl BAME yw 15% o Uwch Erlynwyr GEG.⁹⁶ Mae hyn yn groes i rannau eraill o'r SCT lle mae staff BAME yn llai tebygol o lawer o gael eu gweld mewn swyddi uwch yn y sefydliad. Er enghraifft, er bod 23% o staff y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn BAME, dim ond 5% sy'n uwch weision sifil yn yr adran.⁹⁷

Nid yw'r amrywiaeth hon yn sylfaen staff GEG ynddi'i hun yn gwarantu y bydd penderfyniadau erlynwyr yn deg ac yn gymesur. Serch hynny, mae'n un elfen bwysig o greu'r nawws briodol o fewn sefydliad ac mae hanes GEG yn y cyswllt hwn yn mynd ochr yn ochr â'i hanes o wneud penderfyniadau sydd ar y cyfan yn gymesur.

Ffigur 2: Cyfran y staff sy'n dweud eu bod yn BAME, o'i chymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol

Y boblogaeth	Swyddogion yr heddlu	GEG		Ynadon	Y Farnwriaeth	Swyddogion yr heddlu
14% ⁹⁸	6% ⁹⁹	19% ¹⁰⁰		11% ¹⁰¹	7% ¹⁰²	6% ¹⁰³

Casgliad

Yn y rhan fwyaf o'r achosion, ni fydd ethnigrwydd diffynyddion yn effeithio ar y tebygolrwydd y cânt eu cyhuddo gan GEG. Dylai sefydliadau eraill yn y SCT edrych yn ofalus ar y ffactorau sydd wedi sbarduno hyn, o oruchwyliaeth fewnol ac allanol, i weithlu sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu.

Mae rhai meysydd y dylai GEG roi sylw iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys anghysondebau sy'n destun pryder ar gyfer troseddau penodol trais rhywiol a cham-drin domestig, a rôl GEG (ochr yn ochr â sefydliadau eraill y SCT) o ran mynd i'r afael yn effeithiol ac mewn ffordd gymesur â throeddu gan gangiau.

Bydd y bennod nesaf yn troi at benderfyniadau pledio diffynyddion ac effaith hynny ar y driniaeth a gaiff diffynyddion BAME a'u canlyniadau.

Pennod 3: Penderfyniadau pledio

Rhagarweiniad

Mae penderfyniadau pledio'n elfen hanfodol o'r system cyfiawnder troseddol (SCT). Yn y bennod hon, gwelir bod gwahaniaeth amlwg rhwng penderfyniadau pledio grwpiau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a grwpiau ethnig Gwyn ac archwilir canlyniadau hyn ar gyfer sicrhau tegwch i bobl BAME.

- Mae'r SCT yn cynnig cymhellion i'r rheini sydd wedi troseddu gyfaddef eu bod yn euog, er mwyn rhoi llai o straen ar ddiodefwr. Er enghraifft, gall y sawl sydd wedi pledio'n euog weld eu dedfrydau'n cael eu cwtogi o draean, neu fanteisio ar ymyriadau sy'n ceisio'u cadw allan o'r carchar yn gyfan gwbl.¹⁰⁴
- Serch hynny, mae diffynyddion BAME yn gyson yn fwy tebygol o bledio'n euog na diffynyddion Gwyn.¹⁰⁵ Mae hyn yn golygu, os bydd y llys yn eu cael yn euog, eu bod yn debygol o wynebu dedfrydau llymach na phetaent wedi cyfaddef eu bod yn euog.
- Y prif reswm dros y gwahaniaeth hwn o ran penderfyniadau pledio yw diffyg ymddiriedaeth yn y SCT ymhlith cymunedau BAME.¹⁰⁶ Mae hyn yn golygu bod diffynyddion BAME yn llai tebygol o gydweithredu â'r heddlu neu ymddiried yng nghyngor cyfreithwyr cymorth cyfreithiol, oherwydd mae'n bosibl bod y rhain yn cael eu gweld yn rhan o'r 'system'.
- Mae cyrff statudol ac anstatudol wedi bod yn araf i fynd i'r afael â'r diffyg ymddiriedaeth hwn. Dylai'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gydweithio i arbrofi â gwahanol ffyrdd o esbonio hawliau ac opsiynau cyfreithiol i ddiffynyddion. Ond dylai cyrff megis Cymdeithas y Cyfreithwyr hefyd ymwneud â'r dasg o feithrin ymddiriedaeth ymhlith diffynyddion BAME.
- Ochr yn ochr â meithrin ymddiriedaeth, dylai'r SCT ddysgu yn sgil dulliau arloesol sy'n rhoi llai o bwyslais ar rôl penderfyniadau pledio. Er enghraifft, roedd 'Operation Turning Point' yng Ngorllewin Canoldir Lloegr¹⁰⁷ yn ymyrryd cyn gofyn i ddiffynyddion gofnodi ple. Rhoddwyd cyfle i ddiffynyddion fynd drwy ymyriad strwythuredig, megis triniaeth am gyffuriau, yn hytrach na wynebu cyhuddiadau troseddol. Petai'r diffynnydd yn cydymffurfio â'r ymyriad, gollyngid y cyhuddiadau; oni fyddai'n cydymffurfio, byddai'r diffynnydd yn cael ei erlyn.

Rôl penderfyniadau pledio

Adroddiad Transition to Adulthood (T2A) – **Leaders Unlocked – Gorffennaf 2017**

Drwyddi draw, gwelsom fod diffyg ymddiriedaeth yn y SCT yn gyffredinol ymhlith oedolion ifanc o gefndiroedd BAME. Dro ar ôl tro yn ystod ein hymgyngori, gwelsom eu bod yn ymddiried llai yn y system hyd yn oed na'u cymheiriaid gwyn. Mae'r diffyg ymddiriedaeth hwn wedi'i wreiddio yn eu profiadau o gael eu stereoteipio gan yr heddlu a dioddef aflonyddu. Wrth siarad ag oedolion ifanc, gwelsom fod y diffyg ymddiriedaeth yn tueddu i afael ynddynt yn ystod eu plentynod, pan fydd unigolion yn colli pob ffydd yn yr heddlu.

Mae'r Cyngor Dedfrydu'n esbonio bod derbyn euogrwydd:

a) fel rheol yn lleihau effaith y trosedd ar ddiodefwyr;

b) yn arbed diodefwyr a thystion rhag gorfod rhoi tystiolaeth; ac

c) er budd y cyhoedd am ei fod yn arbed treulio amser a gwario arian cyhoeddus ar ymchwiliadau a threialon.¹⁰⁸

Oherwydd y manteision hyn, mae'r system cyfiawnder yn gwobrwyo'r rheini sy'n cyfaddef eu troseddau pan gânt eu cyhuddo. Er enghraifft, dim ond i'r rheini sy'n barod i gyfaddef eu bod yn euog y mae llawer o'r cosbau y tu allan i'r llys ar gael. Mae gofyn pledio'n euog hefyd cyn i rywun allu manteisio ar lawer o'r ymyriadau sydd wedi'u hanelu at droseddu mwy difrifol. Mae hyn yn wir am 'lysoedd datrys problemau', sy'n ystyried dewisiadau amgen yn hytrach na dedfrydu rhywun i garchar.¹⁰⁹ Gall cyfaddef euogrwydd gwtogi dedfrydau'r rhai a gaiff eu carcharu hefyd. Os bydd diffynnydd yn mynegi bwriad o bledio'n euog yn ystod cam cyntaf achos llys, mae'n bosibl y cwtogir dedfryd o garchar o hyd at draean, ac os bydd pledio'n euog yn ddiweddarach, bydd hynny'n arwain at lai o ostyngiad.¹¹⁰

Glannau Humber - Peilot Brysbennu Menywod

Cynllun unigryw yw Peilot Brysbennu Menywod Glannau Humber. Cynllun i fenywod sy'n cael eu harestio yw hwn a'i nod yw eu tywys oddi wrth y System Cyfiawnder Troseddol ac at fudiad cymorth, sef y Together Women Project, a hynny cyn iddynt gael eu cyhuddo o drosedd, ac yn hytrach na'u cyhuddo.¹¹¹ Dim ond menywod sy'n cyfaddef i'r trosedd sy'n gymwys ar gyfer y cynllun. Bwriad y cynllun yw cynnig siop-un-stop lle bydd menywod yn gallu cael cymorth a gwasanaethau gan y prosiect ei hun a chan asiantaethau eraill sy'n gweithio yn eu swyddfeydd.¹¹² Pan werthuswyd y cynllun, gwelwyd bod y gyfradd ailarestio dros gyfnod o 12 mis dilynol wedi gostwng 46%, o'i chymharu â chyfradd grŵp reoli o fenywod a oedd wedi troseddu.¹¹³

Penderfyniadau pledio BAME


Gall penderfyniadau pledio wneud gwahaniaeth hollbwysig i'r ffordd y caiff diffynyddion eu trin gan y system cyfiawnder - ond mae gwahaniaeth amlwg rhwng diffynyddion BAME a diffynyddion Gwyn. Mae sawl astudiaeth wedi dangos bod diffynyddion BAME yn llai tebygol o bledio'n euog. Mae'r patrwm i'w weld mewn astudiaethau a gynhaliwyd dau ddegawd yn ôl¹¹⁴ yn ogystal ag ar droad y degawd hwn.¹¹⁵ Mae'r canfyddiad yn cael ei ailadrodd wrth ddadansoddi data'r Mynegai Cyfraddau Cymharol yn 2014/15 ar gyfer yr adolygiad hwn.¹¹⁶ Canfuwyd:

- Bod dynion Duon ac Asiaidd fwy nag unwaith a hanner yn fwy tebygol o bledio'n ddieuog na dynion Gwyn. Roedd dynion Ethnig Cymysg hefyd yn fwy tebygol o bledio'n ddieuog.
- Roedd menywod Duon, Asiaidd, Ethnig Cymysg a Tsieineaidd/Ethnig Eraill i gyd yn fwy tebygol na menywod Gwyn o bledio'n ddieuog yn Llys y Goron, a menywod Asiaidd fwy nag unwaith a hanner yn fwy tebygol o wneud hynny.
- Er nad oedd digon o achosion inni archwilio penderfyniadau pledio menywod ifanc, roedd dynion ifanc Duon, Asiaidd neu ethnig Cymysg yn fwy tebygol o bledio'n ddieuog na'u cymheriaid Gwyn.¹¹⁷

Mae academyddion o fri wedi astudio'r patrwm hwn yn fwy manwl. Mae'r Athro Cheryl Thomas, o Goleg y Brifysgol Llundain (UCL), wedi cyhoeddi dwy astudiaeth, ill dwy'n dangos, mewn 11 o blith 12

math o drosedd, bod diffynyddion BAME yn fwy tebygol o bledio'n ddieuog na diffynyddion Gwyn.¹¹⁸
¹¹⁹ Canfu'r astudiaeth ddiweddaraf, a gyhoeddwyd yn 2017, fod diffynyddion BAME, rhwng 2006 a 2014, wedi pledio'n ddieuog i 40% o gyhuddiadau, o'u cymharu â diffynyddion Gwyn a blediodd yn ddieuog i 31%.¹²⁰ Dangosir y dadansoddiad o benderfyniadau pledio, sy'n dangos gwahaniaeth cyson rhwng diffynyddion BAME a Gwyn, ar draws mathau o droseddau, yn Ffigur 3.

Ffigur 3: Cymharu penderfyniadau pledio BAME a Gwyn



Diffyg ymddiriedaeth

Sylwadau'r cyhoedd - Cais am Dystiolaeth

Yn fy oes i, byddai diffynyddion BAME yn pledio'n 'ddieuog' ac yn dewis cael treial yn Llys y Goron pa bryd bynnag y byddai hynny'n bosibl oherwydd bod ganddynt fwy o ffydd yn nhewgch rheithgorau nac yn nhewgch Llysoedd yr Ynadon.

Diffyg ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder sydd wrth galon hyn. Drwy gydol yr adolygiad hwn, cyfarfûm a throseddwr - y rhan fwyaf ohonynt yn ddynion ifanc Duon - a ddywedodd eu bod yn difaru pledio'n ddieuog yn y lle cyntaf. Yn aml, roeddent wedi ymateb i'w harestio drwy ddweud 'dim sylw' mewn cyfweiliad yn swyddfa'r heddlu, cyn cofnodi eu ple dieuog cychwynnol.

Mewn gwirionedd, roedd sawl un o'r diffynyddion BAME y siaradais â hwy wedi newid eu ple wrth sylweddoli realiti eu sefyllfa. Mae gwaith yr Athro Thomas yn dangos nad yw hyn yn beth anghyffredin. Mae diffynyddion BAME yn fwy tebygol na diffynyddion Gwyn o newid eu ple o ddieuog i euog. Newidiodd cyfanswm o 21% o ddiffynyddion BAME eu ple o ddieuog i euog, o'u cymharu â rhyw 17% o ddiffynyddion Gwyn. Mae'r pleon euog hwyr hyn yn costio arian i'r trethdalwr, yn achosi pryder i'r dioddefwr ac, yn aml iawn, i'w teuluoedd, mae'n golygu sawl blwyddyn ychwanegol heb dad gartref.¹²¹ Nid diffyg cyngor cyfreithiol yw'r broblem. Mae diffynyddion Duon, Asiaidd ac Ethnig Cymysg i gyd yn fwy tebygol o ofyn am gyngor cyfreithiol yn swyddfa'r heddlu na'u cymheriaid gwyn.¹²² Yn hytrach, y gwir yw bod llawer o ddiffynyddion BAME nad ydynt yn ymddiried yn y cyngor a roddir iddynt, nac ychwaith yn credu y cânt wrandawriad teg gan ynadon. Mewn ambell achos, mae hyn yn golygu bod diffynyddion yn pledio'n ddieuog ac wedyn yn dewis cael treial gan reithgor yn Llys y Goron, yn hytrach na chael treial yn Llys yr Ynadon, er gwaethaf y pwerau dedfrydu uwch sydd ar gael yn Llys y Goron.

Mewn grwpiau ffocws a gynhaliwyd gan yr elusen Catch 22, gwelodd yr ymchwilyr fod troseddwy'r Gwyn a BAME ill dau'n dangos diffyg ymddiriedaeth mewn cyfreithwyr cymorth cyfreithiol a bod hynny'n broblem benodol. Roedd llawer yn amau cymhellion cyfreithwyr cymorth cyfreithiol, a oedd yn aml yn cael eu gweld yn cynrychioli'r 'system' yn hytrach na buddiannau eu cleientiaid. Roedd troseddwy'r yn aml yn credu nad oedd gan gyfreithwyr na'r amser na'r gallu i'w cynghori'n effeithiol beth bynnag.¹²³

Hynny ydy, mae'n amlwg nad ydyn nhw'n poeni go iawn: maen nhw ar ddyletswydd nhw, maen nhw'n gweithio i'r heddlu hefyd.

- carcharor BAME, Carchar Ei Mawrhydi, Thameside

"Dim ond nawr rwy'n sylweddoli bod y gyfraith yno i dy warchod di, nid i dy faglu di."

- carcharor BAME, carchar Grendon

Rwy wedi siarad â llawer o bobl sydd wedi bod mewn sefyllfa lle mae hi bron iawn yn teimlo bod y tîm cyfreithiol ar ddyletswydd wedi manteisio ar y cyfle i fynd i dreial, er y byddai wedi bod yn well o lawer i'r unigolyn bledio'n euog, a'r achos yn gryf yn ei erbyn, ond o safbwynt cyfreithiwr, mae'n amlwg bod mynd ymlaen i dreial o fudd ariannol iddo.¹²⁴

- carcharor BAME, Carchar Ei Mawrhydi, Thameside

Mae hon yn broblem y dylid bod wedi mynd i'r afael â hi cyn nawr. Dylai sefydliadau megis Cymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Bar fod yn arwain y ffordd, yn gwneud ymchwil ac yn ymgynghori â'u haelodau am yr hyn y gellir ei wneud eto i feithrin ymddiriedaeth yn y cyngor a roddir gan eu haelodau. Ochr yn ochr â hyn, dylai'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gydweithio i arbrofi â gwahanol ffyrdd o esbonio hawliau ac opsiynau cyfreithiol i ddiffinyddion. Gallai'r gwahanol ddulliau hyn gynnwys, er enghraifft, swyddogaeth i gyfryngwyr cymunedol pan fydd pobl yr amheuir iddynt droseddu'n cael eu derbyn gyntaf i'r ddalfa, gan roi dewis i bobl rhwng gwahanol gyfreithwyr ar ddyletswydd, a chyfle i gael cyngor yn gynharach gan fargyfreithwyr. Ym mhob achos, dylid gwerthuso'r effaith ar gyfran penderfyniadau pledio'n euog/yn ddiheuog gan bobl o wahanol ethnigrwydd. Dylid cyhoeddi'r canlyniadau fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y mater hwn.

Argymhelliad 9: Dylai'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gydweithio â Chymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Bar i arbrofi gyda gwahanol ddulliau er mwyn esbonio hawliau cyfreithiol ac opsiynau i ddiffinyddion. Gallai'r gwahanol ddulliau hyn gynnwys, er enghraifft, swyddogaeth i gyfryngwyr cymunedol pan fydd pobl yr amheuir iddynt droseddu'n cael eu derbyn gyntaf i'r ddalfa, gan roi dewis i bobl rhwng gwahanol gyfreithwyr ar ddyletswydd, a chyfle i gael cyngor yn gynharach gan fargyfreithwyr.

Gohirio erlyn

Mae meithrin ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder ymhlith cymunedau BAME yn waith hanfodol, ond ni wnaiff hyn ddigwydd dros nos. Yn y cyfamser, bydd angen rhagor o ymyriadau yn y SCT nad ydynt yn dibynnu ar benderfyniadau pledio. Nes bydd hyn yn digwydd, bydd y ffordd y caiff diffinyddion BAME eu trin yn golygu eu bod yn cael eu cosbi'n llymach na'r boblogaeth Wyn.

Yn Seland Newydd, bydd diffinyddion sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau cyfiawnder adferol yn cael dewis pledio 'dim gwrthwynebiad'. Nid oes yn rhaid i'r diffinyddion gyfaddef eu bod yn euog i

gymryd rhan mewn cynlluniau.¹²⁵ Mae hyn yn adlewyrchu cydbwysedd bregus rhwng mynnu bod troseddwr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb mewn cynllun cyfiawnder adferol a'r realiti bod llawer yn gyndyn o gyfaddef yn ffurfiol eu bod yn euog. Hefyd, yn California, ceir Rhaglen Dargyfeirio Cyn-treial, sy'n dargyfeirio troseddwr cyn iddynt gofnodi ple mewn rhai achosion (gweler y blwch isod). Mae hyn yn golygu nad oes yn rhaid pledio'n euog er mwyn manteiso ar ymyriadau.

Astudiaeth achos: California¹²⁶

Mae Rhanbarth Gogledd California'n cynnig Rhaglen Dulliau Amgen pan geir rhai unigolion yn euog yn ystod camau cyn-pledio ac ôl-bleidio eu hachosion troseddol. Nid oes gofyn pledio'n euog ar gyfer Dargyfeirio Cyn-treial, ond rhaid i ddiffnyddion sy'n cymryd rhan gytuno i eithriad o dan y Ddeddf Llwybr Cyflym ac efallai y bydd gofyn iddynt gytuno i ddatganiad rhannu ffeithiau am eu hachos. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Dargyfeirio Cyn-treial yn cael eu goruchwyllo am gyfnod y cytunir arno, gan amlaf rhwng chwe mis a blwyddyn. Os bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus (ym marn Swyddfa Atwrnai'r Unol Daleithiau), bydd yn dilyn pa gamau bynnag a nodir yn y Cytundeb Dargyfeirio Cyn-treial, sydd gan amlaf yn cynnwys diddymu'r cyhuddiadau.

Yng Nghymru a Lloegr, mae cynllun arloesol o'r enw Operation Turning Point yn dangos y ffordd ymlaen. Cafodd y cynllun ei dreialu yng Ngorllewin Canoldir Lloegr rhwng mis Tachwedd 2011 a mis Gorffennaf 2014.¹²⁷ Cynlluniwyd y cynllun hwn gan gadw mewn cof y gwahaniaethau rhwng yr hiliau wrth benderfynu pledio, a chafodd troseddwr gyfle i gymryd rhan heb fynnu eu bod yn cyfaddef i'w trosedd yn gyntaf.¹²⁸ Yn yr arbrawf, rhoddwyd cyfle i droseddwr gymryd rhan os oedd yr heddlu wedi penderfynu bod eu herlyn er budd y cyhoedd, ond nad oeddent wedi cael mwy nag un euogfarn. Yna, rhannwyd y rheini y bernid, ar sail model ystadegol, eu bod yn peri risg isel i'r cyhoedd yn ddau grŵp.¹²⁹ Erlynwyd y grŵp cyntaf yn ôl y drefn arferol, a gohiriwyd erlyn yr ail grŵp.

Llofnododd y grŵp y gohiriwyd eu herlyn gcontract yn wirfoddol, gan gytuno i ddilyn rhaglen o ymyriadau wedi'i strwythuro, gan gynnwys, er enghraifft, triniaeth ar gyfer cyffuriau neu alcohol. Byddai'r erlyniad yn cael ei ollwng ar gyfer y rhai a fyddai'n cwblhau eu rhaglen bersonol ond byddai'r rheini na fyddent yn ei chwblhau'n wynebu achos troseddol.¹³⁰ Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd wedi'i chyhoeddi'n dangos bod bron cynifer o droseddwr BAME wedi cymryd rhan yn y cynllun â throseddwr Gwyn.¹³¹

Yr awgrym cychwynol wrth werthuso'r cynllun yw ei bod yn un werthfawr:

- Holwyd **dioddefwyr** gan gymharu'r rheini yr ymdriniwyd â'u hachosion yn y llys, yn ôl y drefn arferol, â'r rheini y dargyfeiriwyd eu hachosion drwy Operation Turning Point. Canfu'r gwerthusiad bod y dioddefwyr yr oedd eu hachos yn rhan o sampl Turning Point 43% yn fwy bodlon na'r rheini yr anfonwyd eu hachos i'r llys.¹³² Credai dioddefwyr fod Turning Point yn fwy tebygol na'r llys o atal y troseddwr rhag troseddu eto, ac roedd llawer yn anfodlon ar eu profiadau yn y llys pan fyddai achosion yn cael eu gollwng, unigolion yn cael eu dyfarnu'n ddiueog neu'n cael eu rhyddhau'n amodol.¹³³
- Roedd y canlyniadau o safbwynt **aidroseddu** yn gadarnhaol hefyd. Drwyddi draw, roedd y cyfraddau aildroseddu'n debyg wrth gymharu grŵp Operation Turning Point â'r grŵp a gafodd eu herlyn yn y dull traddodiadol, ond cofnodwyd gwahaniaethau cadarnhaol ar gyfer troseddwr treisgar yn benodol. Gwelwyd bod y grŵp hwn 35% yn llai tebygol o aildroseddu o dan Operation Turning Point - ac yn llai tebygol o aildroseddu'n ddiffrifol pan fyddent yn

troseddu eto. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod Operation Turning Point yn lleihau'r risg o aildroseddu i'r cyhoedd.¹³⁴

- Roedd yn llai **costus** nag erlyniadau traddodiadol. Arweiniodd y cynllun at 68% yn llai o achosion llys na'r achosion hynny a erlynid yn ôl y drefn arferol.¹³⁵ Canlyniad hyn oedd arbed rhyw £1,000 yr achos, er gwaethaf y costau a oedd yn gysylltiedig â'r ymyriadau strwythuredig y talwyd amdanynt o dan gynllun Operation Turning Point.¹³⁶

Un o nifer o gynlluniau arloesol yw Operation Turning Point lle nad yw penderfyniadau pledio wedi bod yn rhan o'r meini prawf ar gyfer cymhwyso (gweler y blwch isod).

Durham – Rhaglen Ymatal rhag Troseddu Operation Checkpoint

Mae Rhaglen Ymatal rhag Troseddu Checkpoint Cwnstabiliaeth Durham yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl a amheuir gyflawni deg o feini prawf er mwyn bod yn gymwys.¹³⁷ Elfen bwysig o'r rhaglen yw bod pob troseddwr yn gymwys os oes digon o dystiolaeth i'w gyhuddo ac nid oes yn rhaid i rywun gyfaddef i'r trosedd. Yn hytrach na'i gyhuddo, asesir anghenion troseddwr Checkpoint a bydd yn cytuno ar 'gcontract ymgysylltu'. Fel rhan o'r contract, rhaid i droseddwr gydymffurfio â'r amodau hyn: peidio ag aildroseddu o fewn cyfnod o bedwar mis (gorfodol); cymryd rhan mewn dull adferol (gorfodol os bydd y dioddefwr yn cytuno); mynychu apwyntiadau ynghylch problemau personol unigol neu ymgymryd â gwaith ymyrryd un-ac-un; gwneud gwaith yn y gymuned/gwirfoddol am 18-36 awr a/neu wisgo tag GPS; a chael profion gwirfoddol am gyffuriau.¹³⁸

Anaml y bydd ymyriad yn gwella'r canlyniadau i ddiodeffwyr, i droseddwr ac i'r gymuned ehangach i gyd ar yr un pryd. Mae Operation Turning Point yn gwneud hyn - a hynny heb ddisgyn i'r fagl arferol o ddidoli diffynyddion drwy'r broses bledio, sy'n debygol o effeithio er gwaeth ar y rheini sy'n dod o gefndir BAME. Elfen hollbwysig yw bod potensial i'r cynllun atal nifer fawr o blant a phobl ifanc rhag cael cofnod troseddol, sy'n gallu gwneud niwed enfawr i'w rhagolygon o gael gwaith yn y dyfodol. Dylai'r llywodraeth ddilyn y dystiolaeth. Pan fydd Operation Turning Point yn cael ei werthuso'n derfynol, ac os bydd y manteision a ddisgrifir uchod yn cael eu cadarnhau, yna, dylai'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder helpu heddluoedd i ledaenu'r cynllun yn genedlaethol, a hynny i oedolion a phobl ifanc sy'n troseddu.

Argymhelliad 10: Dylid lleadaenu model arloesol Operation Turning Point i oedolion a phobl ifanc sy'n troseddu ledled Cymru a Lloegr. Mae'r model hwn yn gohirio'r broses erlyn. Prif agwedd y model hwn yw ei fod yn darparu ymyriadau *cyn* cofnodi pleon, yn hytrach na wedyn.

Casgliad

Mae'r gwahaniaethau cyson ym mhenderfyniadau pledio diffynyddion BAME a diffynyddion gwyn yn dangos bod her sylfaenol yn wynebu'r SCT: diffyg ymddiriedaeth ymhlith llawer o gymunedau BAME. Mae llawer o ddiffynyddion BAME yn amharod i ymddiried yng nghyngor y cyfreithwyr y mae'r llywodraeth yn talu amdano, nac ychwaith i ymddiried y bydd y System Cyfiawnder Troseddol yn gwireddu'r addewid y cânt eu trin yn llai llym yn gyfnewid am gyfaddef yn ddi-oed eu bod yn euog.¹³⁹

Dylid ymateb i'r broblem hon mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, rhaid i'r SCT arbrofi ac arloesi. Mae angen dulliau newydd a llawn dychymyg i esbonio hawliau ac opsiynau cyfreithiol diffynyddion pan fyddant

yn dod i swyddfeydd yr heddlu gyntaf. Yn ail, mae angen i'r SCT ddod o hyd i ffyrdd i ymateb i'r diffyg ymddiriedaeth hwn. Mae Operation Turning Point, y cynllun a dreialwyd yng Ngorllewin Canoldir Lloegr, yn dangos sut mae gwneud hyn. Mae'r model gohirio erlyn, sy'n tynnu penderfyniadau pledio o'r hafaliad, wedi arwain at ganlyniadau trawiadol ac fe ddylid ei ledaenu drwy'r wlad. Wrth wneud hynny, gallai'r llywodraeth fynd i'r afael ag un o'r prif bethau sy'n arwain at waeth canlyniadau i grwpiau BAME yn y System Cyfiawnder Troseddol, gan sicrhau manteision i ddiodefwr, y trethdalwr a'r gymdeithas ehangach ar yr un pryd.

Yn y bennod nesaf, byddwn yn trafod yr driniaeth a gaiff y diffynyddion hynny y bydd eu hachosion yn mynd yn eu blaen i'r llys a'u canlyniadau.

Pennod 4: Y Llysoedd

Rhagarweiniad

Yn ein llysoedd y gwneir y penderfyniadau pwysicaf yn y system cyfiawnder. Dyma'r lle y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynglŷn â diniweidrwydd neu euogrwydd sy'n gallu newid bywydau pobl - ac mae 20% o'r achosion yn ymwneud â diffynyddion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) bob blwyddyn.¹⁴⁰ Mae ymddiriedaeth mewn penderfyniadau diduedd yn dibynnu nid dim ond ar annibyniaeth gyfansoddiadol y farnwriaeth, ond hefyd ar y cysylltiad rhwng y llysoedd a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Ni fydd gofyn i ynadon, sy'n ymdrin â 90% o achosion y llysoedd troseddol bob blwyddyn¹⁴¹, gael hyfforddiant na chymwysterau cyfreithiol, ond deallir eu bod yn 'cynrychioli'r bobl'. Yn yr un modd, mae'r traddodiad ganrifoedd oed o dreial gan reithgor wedi'i seilio ar y syniad y dylai diffynyddion, yn yr achosion mwyaf difrifol, gan eu barnu gan gasgliad o'u cymheiriaid.

Mae'r llysoedd hefyd yn taflu cysgod ar y dyfodol. Rhaid i farnwyr ac ynadon bwysu a mesur nid dim ond pa gosb sy'n haeddiannol, na pha risg y mae unigolion yn ei pheri, ond hefyd pa gymorth a chyfyngiadau a fydd yn chwalu cylchoedd aildroseddu. Yn hyn o beth, mae Llys y Goron a'r Llysoedd Ynadon ar flaen y gad yn gwireddu'r tair egwyddor sy'n sail i'r adroddiad hwn - sicrhau tegwch, meithrin ymddiriedaeth a rhannu'r cyfrifoldeb am leihau aildroseddu. Yn y bennod hon, archwilir pob un o'r themâu hyn yn ei thro. Dadleuir:

- Mai un o lwyddiannau ein system cyfiawnder yw'r rheithgorau. Wrth ddadansoddi'r wybodaeth yn drwyadl, gwelir nad yw'r canlyniadau a geir gan reithgorau, ar gyfartaledd, - gan gynnwys rheithgorau sy'n bobl wyn i gyd - yn wahanol i ddiffynyddion BAME a diffynyddion Gwyn.¹⁴² Y wers yw bod rheithgorau'n cynrychioli poblogaethau lleol - a rhaid iddynt drafod fel grŵp, sy'n golygu nad oes lle i duedd na chamwahaniaethu guddio.
- Mae angen craffu'n fwy cynnil ar benderfyniadau dedfrydu, er mwyn sicrhau na fydd llawer o benderfyniadau ffiniol yn arwain at annhegwch wrth ddedfrydu diffynyddion BAME dros gyfnod. Mae'n bosibl eisoes inni edrych ar batrwm penderfyniadau dedfrydu ym mhob dinas a llys yn y wlad.¹⁴³ Yn y dyfodol, dylai fod yn bosibl gweld a yw hyn yn wahanol i ddiffynyddion o wahanol grwpiau ethnig.
- Er mwyn meithrin ymddiriedaeth a pharch at ddeddf gwlad, rhaid sicrhau newid mawr o ran amrywiaeth yn yr ynadaeth, ac yn enwedig yn y farnwriaeth. Nes llwyddir i wneud hyn, bydd diffynyddion BAME yn dal i feddwl mai system 'nhw a ni' sydd ar waith. Dylid rhoi rhagor o bwerau ac adnoddau i un sefydliad megis y Comisiwn Penodiadau Barnwrol wireddu hyn.
- Gellir gwneud llawer mwy i adeiladu ar egwyddor y farnwriaeth sef nid yn unig y mae'n rhaid sicrhau cyfiawnder - rhaid gweld bod cyfiawnder yn cael ei wneud'.¹⁴⁴ Dylai hyn gynnwys cyhoeddi'r sylwadau dedfrydu ym mhob achos. Dylai hefyd fod systemau adborth i helpu barnwyr i asesu i ba raddau y maent yn llwyddo i gyfathrebu â dioddefwyr, diffynyddion a phobl eraill yn y llysoedd.
- Rhaid creu cysylltiadau mwy agos rhwng llysoedd a chymunedau lleol er mwyn gostwng cyfraddau aildroseddu profedig gan bobl ifanc, sy'n uwch ar gyfer bechgyn Duon o'u nag ar


gyfer eu cyfoedion gwyn.¹⁴⁵ Dylai paneli troseddau ieuencid gael eu hailenwi'n baneli cyfiawnder lleol. Dylid cynnal y rhain yn y gymuned, a dylai fod pwyslais cryfach ar rianta. Dylent gynnwys aelodau dethol o'r gymuned a dylai fod ganddynt y grym i ddal gwasanaethau lleol eraill yn atebol am eu rôl yn adsefydlu plentyn.

Tegwch - rheithfarnau

Mae ein system cyfiawnder yn seiliedig ar yr egwyddor y caiff y gyfraith ei rhoi ar waith yn ddiudedd. Yn yr achosion hynny lle bydd y niwed mwyaf yn cael ei wneud i ddiodefwr a'r dedfrydau hwyaf i droseddwr, rheithgorau sy'n gwarchod yr egwyddor hon. Efallai fod ein system rheithgorau'n ganrifoedd oed, ond mae'n dal yn addas at y diben hyd heddiw. Mae'r naill astudiaeth ar ôl y llall wedi dangos nad yw ethnigrwydd yn effeithio ar reithgorau, ar gyfartaledd.¹⁴⁶ Cyhoeddwyd astudiaeth fanwl o reithfarnau drwy Gymru a Lloegr yn 2010, ac roedd honno'n dangos bod cyfraddau euogfarnu diffynyddion BAME a diffynyddion Gwyn yn debyg iawn i'w gilydd, gan gynnwys mewn achosion lle'r oedd y rheithgor i gyd yn wyn. Y casgliad oedd mai un cam yn y system cyfiawnder troseddol lle na fydd grwpiau B[A]ME yn wynebu annhegwch cyson yw lle bydd rheithgor yn llunio'i reithfarn.¹⁴⁷

Diweddarwyd astudiaeth 2010 yn 2017 i lywio'r adolygiad hwn, a dadansoddwyd dros 390,000 o benderfyniadau rheithgorau rhwng 2006 a 2014. Fel oedd yn wir yn astudiaeth 2010, canfuwyd bod cyfraddau dyfarnu'n euog gan reithgorau'n debyg iawn ar draws y gwahanol grwpiau ethnig. Mae cyfraddau dyfarnu diffynyddion Gwyn, Du, Asiaidd ac Ethnig Cymysg i gyd rhwng 66% a 68%.¹⁴⁸ Llwyddodd yr astudiaeth hon i ystyried y peth yn fanylach, gan gymharu'r cyfraddau ar gyfer gwahanol fathau o droseddau. Fel y dengys Ffigur 4, mae cyfraddau euogfarnau BAME a Gwyn yn debyg ar draws ystod o wahanol fathau o droseddau, gyda mân wahaniaethau'n unig, a dim patrwm drwyddi draw.

Ffigur 4: Cyfraddau euogfarnau gan reithgorau yn ôl ethnigrwydd a math o drosedd: 2006–14¹⁴⁹



Nid yw hyn yn golygu bod pob penderfyniad gan reithgor yn berffaith, ond mae'n dangos bod y system drwyddi draw'n gweithio.

Y ffordd y bydd rheithgorau'n penderfynu yw'r allwedd i hyn. Mae rheithgorau'n cynnwys 12 o bobl, sy'n cynrychioli'r boblogaeth leol. Pan fydd rheithgor yn ymneilltuo i benderfynu, bydd yr aelodau'n ystyried y dystiolaeth, yn trafod yr achos ac yn ceisio dwyn perswâd ar ei gilydd os bydd angen. Mae'r drafodaeth hon a'r ystyriaethau'n hidlo rhagfarnau - er mwyn dwyn perswâd ar aelodau eraill

y rheithgor, rhaid i bobl gyfiawnhau eu safbwynt. Pan wneir y penderfyniad terfynol, ni fydd y pŵer byth yn nwylo un unigolyn. Os nad oes modd sicrhau consensws, yna, gellir rhoi rheithfarn fwyafrifol. Os bydd rhywun yn arddel safbwynt croes, gellir ei drechu drwy bleidlais. Dyma astudiaeth achos ar gyfer un o brif themâu'r adolygiad hwn: y ffordd orau o sicrhau canlyniadau teg yw sicrhau bod penderfyniadau'n agored, a bod modd craffu arnynt. Mae hyn yn help nid yn unig i atal tuedd yn y lle cyntaf ond hefyd i'w chywiro pan fydd yn codi.

Er bod stori'r system reithgor yn un gadarnhaol, ni ellir dweud yr un fath i'r un graddau am ddyfarniadau'r ynadon. Comisiynwyd dadansoddiad o'r cyfraddau cymharol (esboniwyd hyn ym Mhennod 1) ar gyfer yr adolygiad hwn, a gwelwyd bod dyfarniadau fwy neu lai'n gyson ar gyfer bechgyn a merched BAME. Serch hynny, gwelwyd rhywfaint o anghysondeb yn y dyfarniadau ar gyfer oedolion ac mae gofyn dadansoddi'r rhain ac ymchwilio iddynt yn fanylach. Yn benodol, roedd nifer o anghysondebau yng nghyswllt menywod BAME sy'n destun pryder. Fel y dengys Tabl 3, o blith y menywod a ddaeth gerbron y Llys Ynadon, roedd menywod Duon, menywod Asiaidd, menywod Ethnig Cymysg a menywod Tsieineaidd/Eraill i gyd yn fwy tebygol o gael eu dyfarnu'n euog nag yr oedd menywod Gwyn.

Tabl 2: Cymharu menywod BAME a menywod Gwyn - a gafwyd yn euog mewn llys ynadon ¹⁵⁰

	Menywod duon	Menywod Asiaidd	Menywod ethnig cymysg	Menywod Tsieineaidd/Eraill	Pob menyw BAME
Ymhlith y rheini a ddaeth gerbron Llysoedd yr Ynadon, cafwyd 100 o fenywod gwyn yn euog o'u cymharu â ...	122*	142*	111	143*	124*

Mae * yn dangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol.

Wrth graffu'n systematig ar benderfyniadau'r ynadon, mae'r diffyg data dibynadwy am nifer o faterion pwysig yn rhwystr. Er enghraifft, ni fydd Llysoedd yr Ynadon yn cadw gwybodaeth systematig am bledio'n 'euog' ynteu'n 'ddieuog' gan ddiffynyddion - er ein bod yn gwybod bod anghysondeb i'w weld yn hyn o beth yn Llys y Goron. Ni fydd Llysoedd yr Ynadon ychwaith yn cadw cofnodion priodol am gynrychiolaeth gyfreithiol diffynyddion¹⁵¹ sy'n golygu nad oes neb yn gwybod a yw grwpiau ethnig penodol yn fwy ynteu'n llai tebygol o ymddangos yn y llys gan wynebu cyhuddiadau troseddol heb gyfreithiwr. Man dall arall yw penderfyniadau ynglyn â chadw ar remand. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gymryd camau i fynd i'r afael â'r bylchau pwysig hyn yn y data. Dylai hyn fod yn rhan o archwiliad manylach o ddyfarniadau ynadon, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rheini sy'n effeithio ar fenywod BAME.

Argymhelliad 11: Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gymryd camau i fynd i'r afael â bylchau pwysig yn nata'r Llysoedd yr Ynadon gan gynnwys gwybodaeth am bleon a phenderfyniadau ynghylch cadw ar remand. Dylai hyn fod yn rhan o archwiliad manylach o ddyfarniadau ynadon, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rheini sy'n effeithio ar fenywod BAME.

Tegwch - dedfrydu

Agenda - Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Gwyddom fod rhyw'r diffynnydd yn effeithio ar benderfyniadau dedfrydu a chanlyniadau. Bydd menywod yn tueddu i fwrw dedfrydau byrrach yn y carchar na dynion ac am droseddau llai difrifol.

Nid yw'r troseddau a gyflawnir gan y rhan fwyaf o fenywod yn rhai treisiol ac nid oes angen i'r rhan fwyaf ohonynt fod yn y carchar. Gellid mynd i'r afael â gorgynrychiolaeth yn y carchardai'n rhannol drwy adolygu sut mae'r dedfrydu'n gweithio a thrwy ddefnyddio cymorth a goruchwyliaeth yn y gymuned i raddau mwy.

Cymdeithas yr Ynadon – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Mae'n hanfodol bod opsiynau dedfrydu priodol ar gael i'r llysoedd, a bod gwasanaethau ar gael er mwyn eu cyflawni.

Ail faes sy'n destun pryder yw dedfrydu. Un o'r dadansoddiadau mwyaf soffistigedig a gyhoeddwyd yn y wlad hon am ethnigrwydd a dedfrydu oedd hwnnw a wnaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn 2016.¹⁵² Yn yr astudiaeth, archwiliwyd dedfrydau Llys y Goron ar gyfer tri grŵp o droseddau - troseddau sy'n cynnwys trais meddiangar, troseddau rhyw a throseddau'n ymwneud â chyffuriau.¹⁵³

Dangosodd y gwaith ymchwil hwn, yng nghyswllt troseddwy'r a gafwyd yn euog o droseddau cofnodadwy, ditiadwy yn Llys y Goron yn 2015, fod cysylltiad rhwng ethnigrwydd a chael dedfryd o garchar. O dan amgylchiadau troseddol tebyg, roedd y tebygolrwydd o droseddwy'r o gefndir pobl Dduon, Asiaidd, Tsieineaidd neu o gefndiroedd eraill yn ôl eu diffiniad hwy eu hunain, yn cael eu carcharu'n uwch nag ar gyfer troseddwy'r a ddywedai eu bod o gefndir Gwyn. Er nad oedd yn ystadegol arwyddocaol, roedd y cynnydd yn y tebygolrwydd o garchar i gyd yn effeithiau canolig eu maint (53%, 55% ac 81% yn uwch, yn y drefn honno, ar gyfer troseddwy'r a ddywedai eu bod yn Dduon, yn Asiaidd, yn Tsieineaidd neu yn eraill). Ni welwyd dim effaith ar droseddwy'r a ddywedai eu bod o gefndir Cymysg.¹⁵⁴

O blith rhyw 21,370 o achosion a astudiwyd, nid oedd cysylltiad ystadegol rhwng ethnigrwydd a'r tebygolrwydd o gael dedfryd o garchar i'r grwpiau a oedd wedi cyflawni troseddau trais meddiangar a throseddau rhyw, ond roedd effaith gref pan ystyriwyd troseddau'n ymwneud â chyffuriau. O ran troseddau'n ymwneud â chyffuriau, roedd y tebygolrwydd y câi rhywun ei ddedfrydu i garchar ryw 240% yn uwch i droseddwy'r BAME, o'u cymharu â throseddwy'r Gwyn. Ni allai'r astudiaeth ystyried effaith ffactorau gwaethgol a lliniarol, nac ychwaith y posibilrwydd y gallai troseddwy'r BAME fod wedi'u cael yn euog o droseddau cyffuriau mwy difrifol na'u cymheriaid Gwyn, ond roedd modd iddi ystyried rhyw, ethnigrwydd, oedran, hanes troseddol blaenorol a'r penderfyniadau pledio.


Mae'r canfyddiad bod y tebygolrwydd y câi rhywun ei ddedfrydu i garchar am drosedd sy'n ymwneud â chyffuriau ryw 240% yn uwch i droseddwy'r BAME, yn destun pryder difrifol. Byddai llawer yn casglu bod hyn yn dystiolaeth o duedd. Cyfrifoldeb y farnwriaeth yn awr yw esbonio'r canfyddiad seiliedig ar dystiolaeth hwn os yw'n dymuno lleddfu'r ofnau hynny.

Gall diffynnyddion fynd â'u hachos at y Llys Apêl os byddant yn credu bod eu dedfryd yn annheg. Ond dim ond dedfrydau sy'n ganlyniad camgymeriad neu sy'n 'amlwg yn rhy llym' y gwnaiff y broses apelio'u gwrthdroi. Un ystyriaeth bwysig yw bod y Llys Apêl yn caniatáu ystod eang o ddisgresiwn i farnwyr sy'n dedfrydu wrth iddynt benderfynu ar ddedfryd, a dim ond os bydd y ddedfryd yn amlwg

y tu allan i ystod y disgresiwn hwnnw y gwnaiff y Llys Apêl ei newid. Mae'r dadansoddiad a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn 2016 yn datgelu risg bosibl yn y broses hon: gall cyfran sylweddol o'r penderfyniadau a wneir o fewn disgresiwn y barnwr sy'n dedfrydu olygu bod y disgresiwn hwnnw'n cael ei roi ar waith i un cyfeiriad ar gyfer diffynyddion BAME (dedfryd hwy) ac i'r cyfeiriad arall ar gyfer diffynyddion Gwyn (dedfryd fyrrach). Ar eu pen eu hunain, ni fyddai'r penderfyniadau hyn yn cael eu newid wrth apelio oherwydd eu bod i gyd yn dod o fewn ystod eang y disgresiwn a ganiateir i farnwyr. Oherwydd hynny, mae'n bosibl na wnaiff y broses apelio sylwi ar wahaniaethau cyffredinol yn y ffordd y rhoddir disgresiwn ar waith yng nghyswllt diffynyddion BAME. Yn ei dro, gallai hyn gyfrannu at wahaniaethau sylweddol yn y cyfraddau carcharu.

Mae gwarchod rhag y risg hon yn gofyn am wahanol fath o graffu i'r hyn a gynigir drwy'r broses apelio - ac mae'r dulliau o wneud hynny ar gael eisoes. Er 2011 mae wedi bod yn bosibl archwilio'r patrwm dedfrydu ar gyfer gwahanol fathau o droseddau, yn ôl dinas neu yn ôl llys unigol. Daw'r enghraifft yn Ffigur 5 o becyn sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Agored y Llywodraeth. Mae'n dangos y dedfrydau ar gyfer cyflenwi canabis yn Llys y Goron Manceinion (Crown Square) yn 2011. Mae'n dangos bod nifer gyfartal o ddiffynyddion wedi'u dedfrydu i garchar ac i ddedfryd yn y gymuned yn ystod y flwyddyn honno, a bod nifer fwy wedi cael dedfryd ohiriedig.

Ffigur 5: **Dedfrydau yn Llys y Goron Manceinion (Crown Square) yn 2011 ar gyfer cyflenwi canabis**
155



Pwrpas y cynllun Cyfiawnder Agored oedd rhoi cyfle i bawb archwilio'r patrwm dedfrydu mewn gwahanol rannau o'r wlad, ac roedd yn cynnwys Llys y Goron a 322 o Lysoedd yr Ynadon yng Nghymru a Lloegr. Dylid adeiladu ar sail y gysail hon. Dylid ymestyn y pecyn a'i ddiweddarau er mwyn gallu ei ddefnyddio i ddarparu'r un wybodaeth, ar sail nodweddion demograffig, gan gynnwys rhyw ac ethnigrwydd. Byddai hyn yn golygu bod modd cymharu ar draws pob grŵp demograffig. Gallai, er enghraifft, ystyried a fyddai diffynyddion BAME yr un mor debygol o gael dedfryd yn y carchar a dedfryd yn y gymuned - neu a oeddent yn cael dedfryd neu orchymyn o fath penodol yn fwy aml na diffynyddion Gwyn yn yr un llys. Byddai estyn cynllun sydd ar gael eisoes yn help i weld a oes unrhyw ardaloedd yn y wlad, neu hyd yn oed a oes llysoedd penodol, lle mae diffynyddion BAME yn fwy tebygol o gael eu carcharu am yr un troseddau.

Argymhelliad 12: Dylid estyn y cynllun Cyfiawnder Agored a'i ddiweddarau er mwyn gallu gweld dedfrydau ar gyfer troseddau unigol mewn llysoedd unigol, a'r rheini wedi'u dosbarthu yn ôl nodweddion demograffig gan gynnwys rhyw ac ethnigrwydd.

Mae angen craffu'n well ar benderfyniadau dedfrydu, ond rhaid hefyd arfogi barnwyr â'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Gwaith y Gwasanaeth Prawf yw rhoi adroddiadau cyn-dedfrydu i farnwyr sy'n cynnig mwy o wybodaeth am gymeriad ac amgylchiadau troseddwr (gweler y blwch isod). Mae'r adroddiadau hyn yn helpu'r llys i benderfynu beth yw'r dull mwyaf addas o ymdrin â throseddwr¹⁵⁶ - ac fe allant fod yn arbennig o bwysig i daflu goleuni ar unigolion o gefndir sy'n anghyfarwydd i'r barnwr. Mae hyn yn hanfodol ac ystyried y bwlch rhwng gwahanol gefndiroedd - o ran dosbarth cymdeithasol ac ethnigrwydd - rhwng yr ynadon, barnwyr a llawer o'r troseddwr hynny a ddaw ger eu bron.

Adroddiadau cyn-dedfrydu

Pwrpas adroddiad cyn-dedfrydu yw helpu'r llysoedd i benderfynu beth yw'r ffordd fwyaf addas o ymdrin â throseddwr. Swyddogion Prawf fydd yn paratoi adroddiadau cyn-dedfrydu. Byddant fel rheol yn cynnwys:

- asesiad o natur a difrifoldeb y trosedd; a'i effaith ar y dioddefwr;
- dadansoddiad o'r trosedd a'r ffactorau sydd wedi'i sbarduno, gan gynnwys asesu beusrwydd;
- disgrifiad o'r ffactorau sy'n berthnasol i droseddau gan unigolion, megis camddefnyddio sylweddau neu bryderon am iechyd meddwl;
- asesiad o'r risg y mae'r troseddwr yn ei pheri i bobl eraill; a
- awgrym i'r llys ynglŷn â dedfrydu.

Yn y gorffennol, roedd paratoi adroddiadau cyn-dedfrydu'n broses hwy o lawer a'r adroddiad yn fwy manwl na'r rhai a baratoir heddiw. Byddai'r adroddiadau cael eu hysgrifennu tra bo'r achos llys wedi'i ohirio a byddent yn cael eu seilio ar gyfweiliadau manwl â'r diffynyddion, a hynny'n aml yn eu cartrefi eu hunain. Serch hynny, dros y degawd diwethaf, mae nifer y diffynyddion a ddedfrydwyd ar sail adroddiad 'brys' a baratowyd ar yr un diwrnod wedi cynyddu'n sylweddol (gweler Tabl 3). Yn y cyfamser, mae barnwyr wedi cael cyfarwyddyd sy'n eu hannog i beidio â defnyddio adroddiadau cyn-dedfrydu o gwbl ar gyfer rhai troseddau.¹⁵⁷ Mae'r troseddau hyn yn cynnwys troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau megis 'Meddiant gyda'r bwriad o gyflenwi cyffur dosbarth A' - yr union fath o drosedd lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod anghysondebau wrth ddedfrydu. Yng ngoleuni hyn, dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder adolygu sut y caiff adroddiadau cyn-dedfrydu eu defnyddio a'u heffeithiolrwydd, gan ymgynghori'n agos â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), y Gwasanaeth Prawf a'r farnwriaeth.¹⁵⁸

Tabl 3: Mathau o adroddiadau cyn-dedfrydu i Lys y Goron ¹⁵⁹

	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Llys y Goron	49,87	52,76	55,81	60,19	63,93	61,13	57,52	42,35	37,85	44,88
	1	3	1	5	0	3	3	2	6	1
Adroddiad Cyn-dedfrydu Safonol	47,93	50,48	51,72	49,97	44,79	37,38	30,07	18,47	15,04	13,11
	8	8	1	5	6	8	3	8	5	3
Adroddiad Cyn-dedfrydu ysgrifenedig brys	1,747	2,000	3,585	9,197	17,34	21,53	24,95	22,24	21,43	29,18
					6	6	8	9	6	8
Adroddiad cyn-dedfrydu llafar brys	186	275	505	1,023	1,788	2,209	2,492	1,625	1,375	2,580

Ymddiriedaeth - Chwalu dirgelwch y llysoedd

Adroddiad Transition to Adulthood (T2A) - Leaders Unlocked – Gorffennaf 2017

Wrth siarad ag oedolion ifanc, clywsom y gall iaith y llys fod yn ddryslyd i lawer a'i bod yn gallu gwneud iddynt deimlo'n ddiymadferth. Dywedodd sawl un wrthym nad oeddent yn deall llawer o'r hyn a ddywedwyd yn eu hachosion hwy eu hunain. Gall oedolion ifanc deimlo'n bell iawn oddi wrth y hyn sy'n digwydd yn y llys, wrth i'r achos i bob golwg ddigwydd o'u hamgylch, a hwythau heb deimlo'n rhan o bethau o gwbl.

Mae'n hanfodol bod penderfyniadau'n deg, ond nid yw hynny'n ddigon. Mae'r farnwriaeth ei hun yn bendant nad yw sicrhau cyfiawnder yn ddigon - ond bod yn rhaid gweld cyfiawnder yn cael ei wneud.¹⁶⁰ Mae hyn yn adlewyrchu corff cynyddol o waith academaidd sy'n dangos y cysylltiad rhwng parch at y gyfraith a'r hyder ei bod wedi'i rhoi ar waith yn deg.¹⁶¹ Serch hynny, mae diffyg ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder troseddol (SCT) ymhlith pobl BAME sydd wedi'u geni yng Nghymru a Lloegr, llawer ohonynt heb fod â'r un parch â'u rhieni at ein system gyfreithiol.

Mae deall y broses benderfynu'n hanfodol er mwyn gallu derbyn y canlyniad - a dedfrydu yw'r maes pwysicaf ym mhroses y llysoedd lle mae angen chwalu'r dirgelwch. Cyfarfûm â llawer o garcharorion BAME a oedd yn achwyn am eu dedfrydau, a hynny'n aml oherwydd eu bod yn gwybod am bobl eraill a oedd, yn ôl yr hyn a gredent, wedi cyflawni troseddau tebyg, ond wedi cael dedfrydau eithaf gwahanol. Dywedwyd eisoes yn y bennod hon fod angen i'r dedfrydu ei hun fod yn deg, ond dylai'r system hefyd wneud rhagor o lawer i sicrhau bod troseddwyr yn deall pam eu bod wedi cael y dedfrydau a roddwyd iddynt.

Yn y llys, bydd barnwyr yn rhoi sylwadau dedfrydu manwl, sy'n esbonio sut mae ystyriaethau megis penderfyniadau pledio, troseddau blaenorol a ffactorau lliniarol a gwaethybol wedi arwain at ddedfryd dan glo sydd naill ai'n hwy neu'n fyrrach na'r arfer. Gall y ffactorau hyn effeithio'n sylweddol ar hyd dedfryd - gall pledio'n euog yn gynnar gwtogi dedfryd yn y carchar o hyd at draean, er enghraifft. Serch hynny, pan fydd troseddwyr yn gwrandao ar y sylwadau hyn yn y llys, yn aml, dyma'r tro cyntaf a'r tro olaf y rhoddir esboniad llawn, ffurfiol iddynt am y ddedfryd y maent ar fin ei bwrw.

Yn y dyfodol, dylai pob sylw dedfrydu gael ei gyhoeddi ar ffurf sain ac ar ffurf ysgrifenedig ¹⁶² Byddai hyn yn cynnig cofnod clir i ddiodefwyr a throseddwyr am y rhesymwaith sy'n sail i benderfyniadau

dedfrydu. Cyhoeddir sylwadau dedfrydu (ar ffurf ysgrifenedig) mewn achosion yr ystyrir eu bod o 'fudd arbennig i'r cyhoedd'. Ond mae'r ffordd y caiff 'budd cyhoeddus' ei ddiffinio'n rhy gyfyng. Mae er budd y cyhoedd i bob dioddefwr a throseddwr deall yn llawn y penderfyniadau dedfrydu a wneir gan farnwyr. Bydd recordiad sain yn cael ei wneud eisoes ym mhob achos yn Llys y Goron. A £700 miliwn wedi'i ddyrannu ar hyn o bryd i ddigideiddio'r llysoedd yn llwyr drwy gyfrwng rhaglen moderneiddio'r llysoedd, byddai cyhoeddi sylwadau dedfrydu'n gam pwysig tuag at system fwy dealladwy sy'n ennyn mwy o ymddiriedaeth.¹⁶³

Argymhelliad 13: Fel rhan o raglen foderneiddio'r llysoedd, dylid cyhoeddi pob sylw dedfrydu yn Llys y Goron ar ffurf sain ac/neu ar ffurf ysgrifenedig. Byddai hyn yn meithrin ymddiriedaeth drwy wneud cyfiawnder yn fwy tryloyw a dealladwy i ddioddefwyr, tystion a throseddwyr.

Yn fwy cyffredinol, mae'n gyfrifoldeb ar farnwyr i sicrhau bod pawb yn y llys yn deall yr hyn sy'n digwydd a'u bod yn credu eu bod yn cael eu trin yn deg. Bydd llawer o farnwyr yn gwneud hyn eisoes, gan ddefnyddio iaith syml yn hytrach na jargon cyfreithiol a chan ofalu bod dioddefwyr, tystion a diffynydion i gyd yn deall sut y bydd treial yn mynd rhagddo, pa benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, a pham. Serch hynny, gellid gwneud rhagor i sicrhau bod cyfiawnder nid yn unig yn cael ei wneud ond bod pobl yn gweld cyfiawnder yn cael ei wneud.

Fel ag erioed, mae gwersi i'w dysgu gan awdurdodaethau eraill. Yn un o daleithiau'r Unol Daleithiau, er enghraifft, defnyddir arolwg electronig yn rheolaidd i ofyn i staff y llysoedd, cyfreithwyr, rheithwyr a phobl eraill sy'n ymwneud â barnwyr yn y llysateb holiadur am berfformiad y barnwr.¹⁶⁴ Cwblheir yr arolwg hwn yn electronig, ac mae'n canolbwyntio ar allu cyfreithiol, natur farnwrol, dilysrwydd a pherfformiad gweinyddol. Yn hynny o beth, mae'n ffynhonnell adborth o bwys i farnwyr, o safbwynt pobl eraill yn y llys.

Mae sefyllfa gyfansoddiadol ein barnwriaeth ni'n wahanol i'r sefyllfa yn yr Unol Daleithiau - mae annibyniaeth barnwr oddi wrth ddylanwadau allanol yn cael ei gwarchod yn ffyrnig yng Nghymru a Lloegr. Serch hynny, gallai'r farnwriaeth ddysgu gwersi yn sgil yr arloesi hwn yn yr Unol Daleithiau, gan ddal i warchod ei hannibyniaeth. Er enghraifft, byddai modd sefydlu holiadur electronig tebyg, sy'n casglu adborth am y ffordd y bydd barnwyr yn cynnal achosion yn y wlad hon, gan ganolbwyntio'n benodol ar nodweddion megis cwrteisi, eglurder ac effeithlonrwydd.¹⁶⁵

Pe gofynnid i ymatebwyr i'r holiaduron gofnodi ffactorau megis eu hoedran, eu rhyw a'u hethnigrwydd, gallai'r darlun a grëid gan yr arolwg hwn fod yn fwy cyfoethog eto. Dros gyfnod, byddai hyn yn help i adeiladu darlun sy'n dangos pa farnwyr sy'n cyfathrebu'n effeithiol ac yn ennyn ymddiriedaeth, a pha rai sy'n llai effeithiol am wneud hynny. Gellid defnyddio'r wybodaeth hon gan y farnwriaeth yn gefn i ddatblygiad proffesiynol barnwyr, gan gynnwys wrth arfarnu perfformiad y barnwyr hynny sy'n cael arfarniad. Byddai cam o'r fath yn golygu bod barnwyr yn cael eu trin yn yr un modd â phroffesiynau eraill - er enghraifft, disgwylir i feddygon yn y GIG geisio adborth gan eu cydweithwyr a'u cleifion yn rheolaidd. Bydd yr adborth hwn wedyn yn rhan o'r drafodaeth mewn arfarniadau blynyddol.¹⁶⁶

Argymhelliad 14: Dylai'r farnwriaeth gydweithio â Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) i sefydlu system adborth arlein i fesur sut mae barnwyr yn cynnal achosion. Wrth gasglu'r wybodaeth hon o wahanol safbwyntiau, gan gynnwys gan staff y llysoedd, cyfreithwyr, rheithwyr, dioddefwyr a diffynyddion, gallai'r farnwriaeth ei defnyddio'n gefn i ddatblygiad proffesiynol barnwyr yn y dyfodol, gan gynnwys wrth arfarnu perfformiad y barnwyr hynny sy'n cael arfarniad.

Ymddiriedaeth - amrywiaeth y farnwriaeth

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Nid oes cynrychiolaeth deg o blith pobl BAME yng ngweithluoedd y system cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys yn yr heddlu, y farnwriaeth, yr ynadaeth y llysoedd a sefydliadau diogel. Mae'r diffyg cynrychiolaeth hwn yn fwy amlwg byth pan edrychir ar y lefelau rheoli ac uwch reoli. Gwyddys fod gweithlu mwy amrywiol yn dwyn nifer o fanteision yn ei sgil a chredwn y gallai helpu i fynd i'r afael â phroblem diffyg tegwch, gan gynnwys drwy gryfhau ymddiriedaeth pobl ifanc BAME yn y system.

Transform Justice

Pa mor dda bynnag yw'r ynadon, mae angen iddynt gynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu o ddifri er mwyn cynnal ymddiriedaeth yn y System Cyfiawnder Ieuenctid. Nid oes digon o ynadon BAME gennym, ac mae'r rhan fwyaf helaeth o'r rheini sydd gennym yn bobl ddsbarth canol ac yn ganol oed. Ymhle mae'r ynadon o blith cymunedau Somali, Roma a Romania? Nid yw'r rhain i'w gweld yn unman.

Sylwadau'r cyhoedd - Cais am Dystiolaeth

Yn fy marn i, mae bwlch diwylliannol enfawr rhwng y barnwr (gan amlaf o gefndir dosbarth canol gwyn) a'r diffynnydd nad yw'n deall dirgelion gweithdrefn y llys. Efallai hefyd y bydd anawsterau iaith yn atal y diffynnydd rhag cyflwyno'i achos gystal ag y gallai pan fydd ystyriaethau ynghylch mechnïaeth. Os bydd cwnsler yr amddiffyn yn dod o gefndir tebyg i'r barnwr, ni fydd hynny o lawer o gymorth ychwaith. Ychydig iawn y bydd y naill na'r llall yn ei ddeall am y diffynnydd.

Un peth pwysig sy'n gyfrifol am y diffyg ymddiriedaeth hwn yn y SCT ymhlith cymunedau BAME yw'r diffyg amrywiaeth ymhlith y rheini sydd yn gafael yn awenau grym.^{167 168} Nid yw hyn yn fwy amlwg yn unman nag yn ein llysoedd, lle y gwelir bwlch mawr rhwng cefndir y diffynyddion a'r barnwyr. O blith y rheini a ddiffiniodd eu hethnigrwydd, roedd 20% o'r diffynyddion a ymddangosodd yn y llys y llynedd yn dod o gefndir BAME, o'u cymharu ag 11% o blith rhyw 16,000 o ynadon.¹⁶⁹ Mae'r ymchwil yn dangos hefyd bod pobl o alwedigaethau'r dosbarth gweithiol yn brin iawn ymhlith yr ynadaeth.¹⁷⁰

Ar yr un pryd, dim ond 7% o blith rhyw 3,000 o farnwyr y llysoedd sy'n dod o gefndir BAME.¹⁷¹ Ar gyfartaledd, mae carfannau iau o farnwyr y llysoedd yn fwy amrywiol eu natur - pobl BAME yw 10% o'r rheini sydd o dan 40 o'u cymharu â 4% o'r rheini sy'n 60 oed ac yn hŷn¹⁷² - ond mae'r grŵp iau hwn hyd yn oed yn dal yn sylweddol lai amrywiol na'r wlad y mae'n ei gwasanaethu.

Bydd barnwyr yn cael eu dethol ar sail eu haeddiant - ond nid oes rheswm pam y dylai'r egwyddor hon gyfri yn erbyn y llu o fargyfreithwyr a chyfreithwyr BAME dawnus sy'n awyddus i ddod yn farnwyr. Dywedir yn aml mai'r broblem yw bod angen annog rhagor o ymgeiswyr BAME i gyflwyno

cais, ond mae'r ffigurau yn Nhabl 4 yn dangos nad yn y fan hon y mae'r broblem. Mae bargyfreithwyr a chyfreithwyr BAME yn gwneud cais am ddod yn farnwyr, ond y broblem yw nad ydynt yn llwyddo i fynd drwy'r broses. Fel y dengys Tabl 5, ym mhob rownd recriwtio diweddar bron iawn, roedd nifer yr ymgeiswyr BAME a gafodd eu hargymell ar gyfer swyddi yn is na'r nifer a oedd wedi ymgeisio.

Tabl 4: Cymharu ceisiadau ac argymhellion ar gyfer swyddi barnwrol gan bobl BAME a phobl Wyn
173

Swydd	Blwyddyn	Cyfran (a nifer) o gefndir BAME (o blith y rheini a ddatganodd eu hethnigrwydd) ¹⁷⁴		Cyfran (a nifer) o gefndir Gwyn	
		Ceisiadau	Argymhellion	Ceisiadau	Argymhellion
Barnwr cylchdaith	2006-07	8% (23)	3% (3)	92% (274)	97% (95)
	2008-09	9% (30)	4% (3)	91% (304)	96% (81)
	2011-12	12% (32)	-	88% (237)	-
	2011-12	13% (16)	8% (2)	87% (109)	92% (23)
	2012-13	11% (30)	9% (3)	89% (253)	91% (31)
	2013-14	12% (28)	-	88% (198)	-
	2014-15	12% (28)	5% (1)	88% (198)	95% (20)
	2015-16	8% (18)	6% (3)	92% (208)	94% (49)
	2016-17	12% (20)	5% (2)	88% (149)	95% (38)
Dirprwy	2008-09	20% (154)	12% (3)	80% (632)	88% (22)
Farnwr	2012-13	19% (263)	25% (7)	81% (1,125)	75% (21)
Rhanbarth (Llys Ynadon)	2016-17	23% (237)	6% (1)	77% (805)	94% (16)
Dirprwy	2014	-	-	-	-
Farnwr Uchel	2015	23% (78)	11% (2)	77% (254)	89% (17)
Lys	2016-17	17% (49)	15% (3)	83% (232)	85% (17)

Recriwtio effeithiol a datblygu'r gweithlu

Mae llawer o sefydliadau'n recriwtio ac yn datblygu ymgeiswyr amrywiol o safon uchel ac mae enghreifftiau da y tu mewn a'r tu allan i'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r sefydliad 'Unlocked Graduates' yn annog graddedigion o'r safon orau i ymgeisio am swyddi yng ngweithlu'r carchardai. Yn ei flwyddyn gyntaf, roedd Unlocked yn canolbwyntio'n benodol ar ddenu carfan amrywiol o ymgeiswyr ac roedd 18.5% o'u cynigion i ymgeiswyr BAME yn 2016-17. Mae KPMG yn rhoi cynhwysiant wrth wraidd ei strategaeth recriwtio, ond mae'n mynd ati'n frwd hefyd i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinyddion o blith grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n deg, gan gynnig mentora a gweithgareddau datblygu proffesiynol eraill i staff BAME - y llynedd, daeth 37% o'r graddedigion a dderbyniwyd o gefndir BAME. Mewn adroddiad diweddar, *Increasing judicial diversity*, cytunodd y sefydliad JUSTICE y gallai hyfforddiant seiliedig ar dystiolaeth a chymhorthion penderfynu i recriwtwyr gyfrannu'n gadarnhaol at drefn dethol barnwyr, yn ogystal â chynnig gweithgareddau datblygu proffesiynol hefyd i ymgeiswyr sydd wedi methu a chael eu penodi 'o dlwch blewyn'. Gallai cynlluniau megis hyfforddi recriwtwyr i ddeall tuedd anymwybodol ac i feithrin cymhwysedd diwylliannol helpu hefyd i greu barnwriaeth fodern, amrywiol.

Sefydlwyd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ychydig dros ddegawd yn ôl i wneud y broses benodiadau'n fwy clir ac yn fwy atebol.¹⁷⁵ Y nod oedd ffurfioli'r broses ar gyfer penodi barnwyr, gan ddisodli'r dull a elwir yn 'dap ar yr ysgwydd' â dulliau sy'n fwy seiliedig ar haeddiant (gweler y blwch isod). Serch hynny, mae'r ffigurau hyn yn dangos bod problem o hyd.

Dylai'r Comisiwn hefyd ystyried sut mae'n dethol ymgeiswyr. Mae'n bwysig sicrhau na fydd un genhedlaeth yn gwneud dim mwy na recriwtio genhedlaeth nesaf ar ei delw ei hun. Y risg o hyd yw y bydd barnwriaeth sy'n deillio o un rhan fach o'r boblogaeth yn ei chael hi'n haws adnabod 'haeddiant' mewn pobl tebyg iddynt hwy eu hunain. Bydd y Comisiwn eisoes yn cynnwys aelodau llewg ar y paneli dethol, cam y bwriedir iddo sicrhau bod barnwyr yn gallu uniaethu a chyfathrebu ag arbenigwyr y tu allan i'r byd cyfreithiol. Rwyf wedi clywed pryderon hefyd bod arsylwyr llewg yn tueddu i ddod o gefndir digon tebyg i'r farnwriaeth ei hun - sy'n broblem os mai eu rôl yw atal barnwyr rhag recriwtio ar eu delw nhw'u hunain. Er mwyn mynd y tu hwnt i'r 'criw arferol' - y rheini sy'n tueddu i eistedd ar bwyllgorau fel hyn - mae angen estyn allan a darparu hyfforddiant ychwanegol efallai i amrywiaeth ehangach o gyfranogwyr.

Rhaid rhoi pob cyfle hefyd i unigolion dawnus ddangos eu gallu. Er enghraifft, bydd ymgeiswyr bellach yn cael eu hasesu ar sail meini prawf sydd wedi'u cyhoeddi, ac sy'n cynnwys ystod o gymwyseddau - ond mae bod yn gymwys a dangos eich bod yn gymwys yn ddau beth gwahanol. Nid oes gwahaniaeth taclus bob tro rhwng *pwyl* yr ydych yn ei adnabod a *beth* yr ydych yn ei wybod, hyd yn oed pan fydd prosesau'n cael eu ffurfioli fel hyn. Bydd ymgeiswyr sydd â'r cysylltiadau iawn yn anochel yn dal i fynd i mewn i broses gan wybod mwy am sut mae llwyddo yn y broses honno.

Crynodeb o'r broses dethol barnwyr

- Papurau ar arddull arholiadau yw'r profion cymhwyso ac fe'u defnyddir i baratoi rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer diwrnodau dethol i lenwi rhai swyddi barnwrol gwag. Bydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn penderfynu faint o ymgeiswyr y dylid eu gwahodd am gyfweiliad, a hynny fel rheol ar sail cymhareb rhwng dau a thri ar gyfer pob swydd wag.¹⁷⁶
- Bydd y Comisiwn yn defnyddio asesiadau dros y ffôn yn gyfrwng i lunio'r rhestr fer, a hynny'n aml yn ychwanegol at ddulliau eraill o wneud hynny, cyn penderfynu pwy ddylai gael camu ymlaen i'r diwrnod dethol.¹⁷⁷
- Os bydd ymgeiswyr yn cael eu rhoi ar y rhestr fer, fe'u gwahoddir i ddiwrnod dethol, ac fe all hyn gynnwys:
 - cyfweiliad gan banel - fel rheol bydd paneli'n cynnwys tri aelod gan gynnwys cadeirydd, aelod o'r farnwriaeth ac aelod annibynnol;
 - holi sefyllfaol am sefyllfaoedd y gallech eu hwynebu fel barnwr;
 - chwarae rôl, efelychu amgylchedd yn y llys neu'r tribiwnlys; a
 - cyflwyniad.¹⁷⁸
- Fel rhan o'r ymarfer dethol, bydd y Comisiwn yn ymgynghori. Bydd hyn yn cynnwys:
 - rhannu adroddiadau cryno â barnwyr profiadol i gael eu sylwadau.¹⁷⁹
- Comisiynwyr y Comisiwn Penodiadau Barnwrol sy'n ffurfio'r Pwyllgor Dethol a fydd yn penderfynu'n derfynol pa ymgeiswyr y dylid eu hargymell.¹⁸⁰
- Bydd y Comisiwn yn rhoi adborth i helpu ymgeiswyr i ddeall pam yr oedd eu cais yn aflwyddiannus er mwyn iddynt ystyried hyn wrth ymgeisio yn y dyfodol.¹⁸¹

Mae gan y farnwriaeth gynlluniau eisoes i helpu i arfogi ymgeiswyr ar gyfer y broses dethol - ac mae cyfrannau uchel o'r cynlluniau hyn yn cynnwys pobl BAME (gweler y blwch isod). Serch hynny, gellir gwneud rhagor i sicrhau bod ymgeiswyr BAME yn mynd i mewn i'r broses wedi'u paratoi gystal ag sy'n bosibl. Dylid chwilio'n ddyfal am y rheini sy'n ddawnus a hynny'n fuan yn eu gyrfa a'u cynghori sut i gronni'r profiad iawn a meithrin y cymwyseddu y bydd eu hangen arnynt maes o law i'w dangos mewn unrhyw broses dethol. Yn y cyfamser, dylid rhoi cefnogaeth i ymgeiswyr nid dim ond cyn iddynt gyflwyno cais, ond wedyn hefyd. Dylai'r rheini sy'n methu â chael eu recriwtio o drwch blewyn mewn un rownd gael eu meithrin a'u cymell er mwyn iddynt ddod yn ôl wedi'u paratoi'n well ar gyfer y nesaf. Nid yw hyn yn mynd yn groes i dethol ar sail haeddiant o gwbl, y cyfan mae'n ei olygu yw bod pobl yn cael eu paratoi i ddangos eu galluoedd yn llawn.

Cynlluniau dan arweiniad y farnwriaeth ym maes amrywiaeth

Bydd y farnwriaeth yn cynnal rhaglenni cysgodi gwaith, raglenni mentora a gweithdy ymgeisio am swyddi. Mae ganddi hefyd gynllun mentora gweithredu cadarnhaol a bydd yn darparu gweithdai cyn-ymgeisio (ar gyfer ymgeiswyr tro cyntaf a barnwyr sydd â'u bryd ar ddringo'n uwch). Roedd adroddiad y Pwyllgor Amrywiaeth Barnwrol ar gyfer cyfnod Ebrill 2017 - Mawrth 2018 yn dangos:

- bod 61% o'r rhai a gymerodd ran yn y cynllun mentora yn BAME¹⁸²;
- bod 33% o'r rhai a gymerodd ran yn rhaglen gymorth yr Uchel Lys yn BAME¹⁸³;
- bod 40% o'r rhai a gymerodd ran yn rhaglen gymorth y Uchel Lys i Ddirprwyon yn BAME¹⁸⁴; a
- bod 28% o'r rhai a gymerodd ran ac a wnaeth datganiad amrywiaeth yn y Cynllun Cysgodi Gwaith Barnwrol yn BAME¹⁸⁵.

At hynny, mae 163 o fodolau rôl¹⁸⁶ a mwy na 102 o Farnwyr Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol¹⁸⁷ wedi'u' recriwtio Bydd y ddau grŵp, y modelau rôl a'r Barnwyr Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol yn annog gweithwyr proffesiynol cyfreithiol o blith grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n deg i ystyried gyrfa farnwrol.

Mae'r atebolrwydd am amrywiaeth farnwrol yn wasgaredig braidd. Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol, y Swyddfa Farnwrol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i gyd yn ysgwyddo cyfrifoldebau ffurfiol i hybu amrywiaeth mewn gwahanol ffyrdd. Canlyniad hyn yw nad oes modd dal yr un unigolyn na'r un sefydliad yn atebol am sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni. Er mwyn datrys hyn, dylai sefydliad megis y Coleg Hyfforddi Barnwrol neu'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ysgwyddo rôl swyddogaeth recriwtio fodern ar ran y farnwriaeth, a honno'n cynnwys sylwi ar bobl ddawnus, darparu cymorth cyn-ymgeisio a hyfforddiant cymell i ymgeiswyr sy'n methu o drwch blewyn. Dylai'r gwaith ganolbwyntio ar arfogi unigolion dawns o grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n deg, gan gynnwys pobl o gymunedau BAME a phobl sy'n syn dod o gefndir dosbarth gweithiol - i wireddu eu potensial yn y broses ymgeisio. Yn y grwpiau hyn, dylai hefyd anelu at sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau, i ymateb i'r cynnydd araf tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y farnwriaeth.

Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ystyried hefyd a allai'r un sefydliad ysgwyddo cyfrifoldebau tebyg dros yr ynadaeth. Ar hyn o bryd, pwyllgorau cynghori lleol sy'n recriwtio ynadon, ac mae pob pwyllgor yn gyfrifol am gyfnewid ag ymgeiswyr ac argymell ymgeiswyr i'r Arglwydd Brif Ustus.¹⁸⁸ Canlyniad y system ddatganoledig hon, serch hynny, yw nad oes seilwaith ar gael i wthio amrywiaeth yn ei blaen mewn gwirionedd. Felly, gall faint o bwyslais a roddir ar hyn amrywio'n eithaf sylweddol o amgylch y wlad.

Gallai rhoi rhagor o gyfrifoldeb i un sefydliad, megis y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn y maes hwn adfywio'r model partneru â sefydliadau eraill, o gyflogwyr i grwpiau ymgyrchu, er mwyn annog pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig i ymgeisio. Er enghraifft, noddwyd partneriaeth flaenorol rhwng y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac Operation Black Vote gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Roedd hon yn cynnwys darpar ymgeiswyr yn cysgodi ynad i ddysgu rhagor am y rôl. Yn sgil y cynllun hwn, detholwyd bron 100 o ymgeiswyr yn ynadon.¹⁸⁹ Mae'r cynllun - a dirwyn yr arian a oedd yn gysylltiedig ag ef i ben wedyn - yn ein hatgoffa bod modd camu ymlaen os oes digon o ymrwymiad.

Mae'r math hwn o weithgarwch yn hanfodol, ond yn anad dim, rhaid sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Er mwyn cyflawni hyn, dylai'r llywodraeth bennu targed cenedlaethol clir i sicrhau bod gennym farnwriaeth ac ynadaeth sy'n gynrychioladol o safbwynt ethnig erbyn 2025. Dylai wedyn adrodd i'r Senedd bob dwy flynedd ynghylch y cynnydd a wneir tuag at gyrraedd y targed hwn.

Argymhelliaid 15: Dylai sefydliad megis y Coleg Hyfforddi Barnwrol neu'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ysgwyddo rôl swyddogaeth recriwtio fodern ar ran y farnwriaeth, a honno'n cynnwys sylwi ar bobl ddawnus, cymorth cyn-ymgeisio a hyfforddiant cymell i ymgeiswyr sy'n methu â chael eu penodi o drwch blewyn. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder archwilio hefyd a allai'r un sefydliad ysgwyddo cyfrifoldebau tebyg dros yr ynadaeth. Dylid rhoi adnoddau priodol i'r sefydliad er mwyn iddo gyflawni'r cylch gwaith ehangach hwn

Argymhelliaid 16: Dylai'r llywodraeth bennu targed clir, cenedlaethol i sicrhau barnwriaeth ac ynadaeth gynrychioladol erbyn 2025. Dylai wedyn adrodd i'r Senedd bob dwy flynedd ynghylch y cynnydd tuag at gyrraedd y targed hwn.

Cyfrifoldeb - cyfiawnder ieuencid

Pwrpas y llysoedd yw gweinyddu cyfiawnder, ond rhaid i hyn hefyd fod yn fan cychwyn ar gyfer taith adsefydlu troseddwy. Mae llawer o bolisiau deddfrydu wedi'u llunio'n benodol gyda hyn mewn golwg er bod cyfraddau aildroseddu'n dal yn ystyfnig o uchel. Yn y system cyfiawnder ieuencid y mae'r her fwyaf, a'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos bod 38% o bobl ifanc yn aildroseddu¹⁹⁰ o fewn 12 mis.¹⁹¹ Mae cyfraddau aildroseddu ymhlith pobl BAME yn dangos darlun cymysg, er enghraifft, mae pobl ifanc Asiaidd yn llai tebygol o aildroseddu na'r grŵp Gwyn, ond mae'r ffigurau ar gyfer pobl ifanc Dduon yn destun pryder mawr. Bydd 45% yn aildroseddu o fewn blwyddyn ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa, neu ar ôl cael euogfarn yn y llys heb ddedfryd o garchar, neu gerydd neu rybudd.¹⁹²

Yn gyffredinol, mae cyfanswm nifer y rhai o dan 18 oed sy'n aildroseddu wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, mae'r nifer wedi gostwng yn arafach i bobl ifanc BAME nag i bobl ifanc Wyl. Canlyniad hyn yw bod y gyfran o bobl ifanc BAME sy'n aildroseddu wedi codi o 11% i 18%.¹⁹³

Er mwyn chwarae eu rhan lawn yn lleihau aildroseddu, rhaid i lysoedd ieuencid ganolbwyntio nid dim ond ar y bobl ifanc eu hunain, ond hefyd ar yr oedolion cyfrifol sydd o'u hamgylch. Mae hyn yn cynnwys rhieni, yn benodol, ond hefyd y cymunedau sy'n byw ochr yn ochr â hwy. Drwy gydol yr adolygiad hwn, rwyf wedi gweld awydd ymhlith llawer o gymunedau BAME i ysgwyddo rhagor o gyfrifoldeb dros hyn: y cwestiwn yw, i ba raddau y gall y system cyfiawnder ymaddasu er mwyn gwireddu hyn.

Ychydig iawn y mae ein system cyfiawnder ieuencid yn ei ddeall am gynnwys cymunedau mewn cyfiawnder ieuencid. Pan fydd pobl ifanc yn pledio'n euog i drosedd tro cyntaf, gan amlaf, bydd y system cyfiawnder ieuencid yn rhoi Gorchymyn Atgyfeirio iddynt. Wedyn, bydd panel troseddau ieuencid, dan arweiniad dau wirfoddolwr o'r gymuned leol yn cytuno ar gontract â'r troseddwr ifanc dan sylw. Gall y contract gynnwys gwneud iawn i'r dioddefwr, ochr yn ochr ag ymyriadau y bwriedir iddynt fynd i'r afael ag achosion y troseddu, a chymryd rhan yn yr ymyriadau hynny. Bydd y troseddwr ifanc yn cael ei fonitro gan weithiwr achos y Tîm Troseddau Ieuencid (TTI) ac yna bydd gofyn iddo ddychwelyd (gyda'i rieni neu ei ofalwyr os yw o dan 16 oed) gerbron y panel er mwyn asesu a yw wedi cydymffurfio â'r contract. Rôl y gwirfoddolwyr o'r gymuned a'r posibilrwydd y gall troseddwr ifanc orfod gwneud iawn am rywfaint o'r niwed y mae wedi'i wneud yw'r unig ddulliau a ddefnyddir gan y system cyfiawnder i geisio gwahodd cymunedau i fod yn rhan o'r broses.

Mae'r paneli troseddau ieuencid yn gam bach i'r cyfeiriad iawn, ond gellid mynd ymhellach o ran cynnwys rhieni, cymunedau a gwasanaethau pwysig lleol. Er mwyn pwysleisio'r ffocws cryfach hwn ar rannu cyfrifoldeb, dylid eu hailenwi'n baneli cyfiawnder lleol a'u diwygio ar hyd y llinellau a ganlyn:

Teulu: Yng Nghymru a Lloegr, mae gennym systemau ar wahân ar gyfer pobl ifanc ac oedolion er mwyn gwahaniaethu rhwng gwahanol anghenion oedolion a phlant. Disgwylir i oedolion ysgwyddo'r cyfrifoldeb llwyr am eu troseddu, ond deellir nad yw pobl ifanc mor aeddfed a bod angen llawer mwy o strwythurau o'u hamgylch i fod yn gefn iddynt. Eto i gyd, pan fydd plant yn dod gerbron panel troseddwr ifanc, dim ond yng ngwrandawiadau'r rhai sydd o dan 16 oed y bydd gofyn i rieni fod yn bresennol. Ar gyfer plant mewn gofal, mae'r sefyllfa'n fwy difrifol eto. Yn Neddf Plant 1989, yr unig beth y mae'r canllawiau'n ei ddweud yw bod gweithwyr cymdeithasol yn dod i wrandawiadau gyda phlant yn 'arfer da', er gwaetha'r gydnabyddiaeth bod cael gweithiwr cymdeithasol yno i fod yn gefn i'r plentyn o fudd eithriadol iddo. Mae hyn yn golygu, o safbwynt ymarferol, y gall plant o'r system ofal, hyd yn oed rhai o dan 16 oed, wynebu gwrandawiadau heb neb yn gefn iddynt.

Ar adeg pan fydd llawer o blant BAME yn cael eu denu i droseddu ar y stryd, weithiau dan bwysau o du oedolion pwerus, mae rôl rhieni a gofalwyr yn bwysig o ran ailsefydlu ffiniau a gwarchod dynion a menywod ifanc. Dylid dal rhieni a gofalwyr yn gyfrifol am eu plant nes iddynt ddod yn oedolion, a dod i wrandawiadau gyda hwy nes eu bod yn 18 oed.

Mae corff cynyddol o dystiolaeth wyddonol yn awgrymu bod llawer o oedolion ifanc, yn ogystal a phlant, yn rhy anaeddfed y wneud penderfyniadau cytbwys, effeithiol.¹⁹⁴ Mae hyn cynnwys galluoedd megis pwysu a mesur risg, gohirio boddhad a meistrolï eu greddfau hwy eu hunain.¹⁹⁵ At hynny, mae tystiolaeth ar gael hefyd sy'n awgrymu bod pethau megis anaf trawmatig i'r ymennydd a cham-drin plant yn gallu cyfrannu mwy at ddiffyg aeddfedrwydd, ac yn ogystal â hyn, bod y problemau hyn i'w gweld yn amlwg ymhlith troseddwr sy'n oedolion ifanc.¹⁹⁶

Mewn gwledydd eraill, yn yr Almaen er enghraifft, mae deall aeddfedrwydd yn elfen sylfaenol o'r drefn (gweler y blwch isod). Yn wahanol i'r sefyllfa yng Nghymru a Lloegr, lle mae'r ffin rhwng y system cyfiawnder i oedolion a'r system cyfiawnder ieuencid yn anhyblyg (sef 18 oed), bydd system cyfiawnder yr Almaen yn caniatáu i'r gyfraith ieuencid gael ei rhoi ar waith ar gyfer oedolion ifanc' os bydd 'datblygiad moesol a seicolegol' y diffynnydd yn awgrymu ei fod 'fel person ifanc'.

Yr Almaen

Ac ystyried y sail dystiolaeth wyddonol am ddatblygiad yr ymennydd, mae cyfiawnder ieuencid yn yr Almaen yn cynnwys plant a throseddwr sy'n oedolion ifanc rhwng 14 ac 20 oed. Bydd y rhan fwyaf o oedolion ifanc (dros 18/o dan 21 oed) yn cael dedfrydau llai llym nag y byddent y dan y gyfraith droseddol i oedolion.¹⁹⁷

Mae carcharu pobl ifanc yn cynnwys grwpiau oedran pobl ifanc 14 i 17 oed, oedolion ifanc 18 i 20 oed, ac oedolion 21 i 24 oed a ddedfrydwyd fel pobl ifanc neu oedolion ifanc gan y Llysoedd Ieuencid.¹⁹⁸

Bydd aeddfedrwydd yn cael ei asesu drwy ddadansoddi'r troseddwr a'r trosedd, a defnyddir ymyriadau cyfiawnder ieuencid os dangosir diffyg aeddfedrwydd. Gellir rhoi cyfraith ieuencid ar waith ar gyfer oedolion ifanc os bydd 'datblygiad moesol a seicolegol' y diffynnydd yn awgrymu ei fod 'fel person ifanc'. Gallai hyn gynnwys diffyg aeddfedrwydd emosiynol neu empathi. Yn yr un modd, defnyddir y gyfraith ieuencid os bydd elfennau'n dangos bod personoliaeth yr unigolyn yn dal i ddatblygu i raddau sylweddol.¹⁹⁹

Yng Nghymru a Lloegr, dylai ein hymagwedd at asesu aeddfedrwydd adlewyrchu'r dystiolaeth wyddonol. Fel sy'n wir yn yr Almaen, dylai asesiadau trwyadl o aeddfedrwydd lywio ymyriadau adsefydlu. Dylai'r dull hwn fod yn berthnasol i bawb hyd at 21 oed. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Iechyd gydweithio i ddatblygu dull o asesu aeddfedrwydd. Dylai canlyniadau'r asesiad hwn lywio ymyriadau, gan gynnwys estyn strwythurau cymorth y system cyfiawnder ieuencid i droseddwr sydd dros 18 oed ond y bernir bod eu bod yn anaeddfed. Mae cyfrannau arbennig o uchel o unigolion BAME ymhlith carcharorion sy'n oedolion ifanc - gallai datblygu dull gwell o fesur aeddfedrwydd gyfrannu'n sylweddol at eu hadsefydlu.²⁰⁰

Argymhelliad 17: Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Iechyd gydweithio i ddatblygu dull o asesu aeddfedrwydd troseddwr sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder hyd at 21 oed. Dylai canlyniadau'r asesiad hwn lywio'r ymyriadau ar gyfer unrhyw ddioddefwr yn y garfan hon, gan gynnwys estyn strwythurau cymorth y system cyfiawnder ieuencid i droseddwr dros 18 oed y bernir eu bod yn anaeddfed.

Ar gyfer troseddwr ifanc, mae hefyd yn amlwg nad yw rhai o'r dulliau pwysig sydd ar gael i'r llysoedd ieuencid yn cael eu defnyddio. Er enghraifft, bwriad gorchmynion rhianta yw rhoi modd i'r llysoedd herio a hefyd helpu rhieni. Gall llysoedd fynnu bod rhieni'n mynychu sesiynau cwnsela neu gyfarwyddyd gyda'r nod o wella'u sgiliau rhianta, rheoli ymddygiad anodd gan bobl ifanc a sicrhau eu bod yn mynychu'r ysgol. Ond gall y llysoedd hefyd orfodi ail elfen, sy'n mynnu bod rhieni'n rheoli ymddygiad eu plentyn. Y llynedd, dim ond mewn 60 o achosion a oedd yn cynnwys pobl ifanc BAME y rhoddodd y llysoedd ynadon orchmynion rhianta. Cyfanswm o 189 o orchmynion rhianta'n unig a gyhoeddwyd ar gyfer pobl o bob grŵp ethnig, gan gynnwys pobl ifanc Gwyn, er bod 55,000 o droseddwr ifanc wedi'u cael yn euog yn y llysoedd.²⁰¹

Mae'n amlwg nad oes gan y TTI fawr o ffydd yn effeithiolrwydd gorchmynion rhianta a'u bod yn annog pobl i beidio a'u defnyddio o ganlyniad i hynny. Ond nid rhoi'r gorau i orchmynion rhianta'n llwyr yw'r ateb - ond yn hytrach, sicrhau eu bod dulliau amgen ar gael yn eu lle a'r rheini wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u seilio ar dystiolaeth glir. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder adolygu effeithiolrwydd gorchmynion rhianta a'u disodli â rhywbeth gwell os oes gwendidau ynddynt. Dylai TTI nid yn unig gyfrannu at y broses hon, ond ystyried hefyd a ydynt yn gwneud digon i herio a chefnogi rhieni.

Y Gymuned: Mae'r llywodraeth wrthi'n cau ac yn canoli llysoedd ar hyd a lled y wlad, ac fe gafwyd cadarnhad bod 86 yn cau.²⁰² Canlyniad hyn yw y bydd y cysylltiad rhwng cyfiawnder â phobl leol yn llacio fwyfwy ac y bydd pellter yn tyfu rhyngddynt. Yn hytrach, dylai'r gwrthwyneb yn union fod yn digwydd, a dylai cyfiawnder symud yn llythrennol yn nes at gymunedau. Er enghraifft mae'r felin drafod JUSTICE wedi argymhell model newydd - 'mannau cyfiawnder' (gweler y blwch isod) sy'n dadlau o blaid ymwrthod â'r gor-safoni sy'n amlwg yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd sydd gennym ar hyn o bryd.²⁰³ Roedd y gweithgor arbenigwyr a fu'n gyfrifol am gyhoeddi Adroddiad JUSTICE yn dadlau y dylai'r math o le a ddefnyddir ym mhob achos ddiwyddu ar ffactorau megis lefel y risg a berir i ddiogelwch yn sgil yr achos, gan gynnwys lefel cyfranogaeth y cyhoedd a ragwelir ac i ba raddau y gall fod angen cadw partïon ar wahân.²⁰⁴ Er enghraifft, digwyddiadau caeedig yw achosion y llys ieuencid, ac felly efallai eu bod yn arbennig o addas ar gyfer lleoliadau gwahanol i'r arfer.

Model y 'mannau cyfiawnder' a gynigir yn *What is a Court?*:²⁰⁵

- **Mannau cyfiawnder syml:** manau llai ffurfiol a hynod hyblyg sy'n gallu darparu lle ar gyfer y rhan fwyaf o'r anghydfodau a wrandewir gan y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar hyn o bryd.
- **Mannau cyfiawnder safonol:** manau lled-ffurfiol a hyblyg sy'n ddelfrydol ar gyfer gwrandawriadau lle bydd gofyn cael rhai nodweddion parhaol - megis cryn dipyn o gyfarpar technolegol, neu fainc barnwyr ar blatfform.
- **Mannau cyfiawnder ffurfiol:** manau ffurfiol, lled hyblyg wedi'u hadeiladu at y diben a ddefnyddir mewn nifer gyfyngedig o achosion difrifol iawn, gan gynnwys treialon troseddol mawr.

Gellir gwneud rhagor hefyd i gynnwys y gymuned yn y broses ei hun. Er bod dau aelod o'r gymuned yn cael eu cynnwys ar bob panel, nid digwyddiadau cymunedol o fath yn y byd yw paneli troseddau ieuencid mewn gwirionedd. Mae hyn yn groes i'r hyn sy'n digwydd mewn awdurdodaethau eraill - er enghraifft y Llysoedd Rangatahi yn Seland Newydd (gweler y blwch isod) - sy'n gwahodd pobl i mewn sydd â buddiant ym mywyd y pobl ifanc. Efallai fod y Llysoedd Rangatahi wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer cyd-destunau diwylliannol penodol a'i a'i bod yn rhaid celu gwybodaeth am bwy yw pobl yn y system cyfiawnder ieuencid, ond mae lle o hyd inni ddysgu yn sgil y dulliau gofalus a ddefnyddir i wahodd aelodau o'r gymuned i ymuno â'r broses. Byddai paneli cyfiawnder lleol yn hoffi gweld y rheini sy'n uniongyrchol gyfrifol am addysg, iechyd, lles neu gynydd cyffredinol y plentyn, neu sydd â diddordeb priodol ynddynt, yn cael eu gwahodd i'r gwrandawriadau. Byddent yn arsylwi ar y broses, yn cynghori'r panel os gelwir arnynt i wneud hynny ac yn deall eu cyfrifoldeb eu hunain am adsefydlu'r plentyn.

Astudiaeth achos: Llysoedd Rangatahi yn Seland Newydd²⁰⁶

Yn Seland Newydd, bydd y Llysoedd Rangatahi yn gweithio yn yr un ffordd â'r llysoedd ieuenctid - gan gadw at yr un cyfreithiau a'r un canlyniadau - ond maent yn cynnwys troseddwr Maori ifanc ac oedolion o'r gymuned Maori. Bwriedir y Llysoedd Rangatahi ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cyfaddef eu bod yn euog. Ar ôl pennu cynllun dedfrydu ar eu cyfer, caiff pobl ifanc Maori ddewis cael monitro'u hachos gan y Llys Rangatahi. Bydd y rheini sy'n dewis gwneud hyn yn ymddangos yn y llys bob pythefnos, gerbron yr un barnwr. Ar ddechrau pob gwrandawriad, bydd y person ifanc yn cael mihi (sgwrs) gan un o'r kaumātua (hynafgwyr parchus). Hefyd bydd whanau yn bresennol (y teulu estynedig), swyddogion yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol, cyfreithiwr y person ifanc a'r dioddefwr os bydd yn dewis bod yn bresennol. Bwriedir i'r gwrandawriadau ddod â theuluoedd a chymunedau ynghyd i ysgwyddo'r cyfrifoldeb, ochr yn ochr â'r troseddwr, am sicrhau mai'r trosedd hwn fydd ei drosedd olaf.

- *Gwasanaethau*: mae'n hanfodol bod mecanwaith ar waith ar gyfer dwyn ynghyd yr holl bobl hynny sydd â buddiant ym mywydau'r bobl ifanc a chysylltiad â'u hymddygiad troseddol. Os bydd trosedd wedi'i gyflawni yn ystod oriau ysgol, er enghraifft, dylid dod ag athrawon neu'r pennaeth i mewn i drafod rôl yr ysgol yn atal ymddygiad troseddol yn y dyfodol. Os bydd pryderon am gamddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl, dylai'r gwasanaethau perthnasol fod yn bresennol hefyd. Byddai gan baneli cyfiawnder lleol y pŵer i gynnull y gwasanaethau hyn ochr yn ochr â rhieni a'r gymuned leol, i lywio'r cynllun dedfrydu sydd wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer pob plentyn ac i adolygu'r cynnydd ar sail y cynllun hwnnw yn y dyfodol.

Rwyf hefyd yn poeni, yn yr un modd ag y mae adroddiad Taylor bod *ynadon yn dweud yn aml eu bod yn gorfodi dedfryd heb wir ddeall anghenion y plentyn, ac mai anaml y byddant yn gwybod a yw'r ddedfryd wedi bod yn effeithiol. Mae'n bosibl y bydd y fainc yn clywed am dor-amodau neu droseddu pellach, ond dim ond os digwydd i un ohonynt fod yn eistedd ar y diwrnod pan fydd y plentyn hwnnw'n cael ei ddwyn yn ôl gerbron y llys.*²⁰⁷ *Mae angen cau'r bwlch hwn rhwng ynadon a phaneli troseddau ieuenctid.*

Rhaid hefyd roi'r holl wybodaeth i ynadon, nid dim ond am sut mae'r system yn gweithio mewn theori, ond hefyd am sut mae'n gweithio'n ymarferol. Er mwyn cyflawni hyn, dylai ynadon ddilyn nifer o achosion y cytunwyd arnynt bob blwyddyn o'u dechrau i'w diwedd, gan ymuno â'r panel atgyfeirio ar gyfer y gwrandawriad cychwynnol, pan gytunir ar gontract gyda'r troseddwr ifanc, yn ogystal ag ar gyfer gwrandawriadau diweddarach i fonitro'r cydymffurfio. Byddai olrhain achosion o'u dechrau i'w diwedd yn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r system cyfiawnder ieuenctid. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder bwysu a mesur hefyd a yw ei hymlyniad parhaus at achosion yn cael unrhyw effaith amlwg ar gyfraddau aildroseddu, ac ystyried tystiolaeth y llysoedd datrys-problemau bod cael yr un barnwr yn cadw cysylltiad â throseddwr drwy gydol y cyfnod adsefydlu'n gallu bod yn ddylanwad er gwell.

Argymhelliad 18: Dylid ailenwi'r paneli troseddau ieuenctid yn baneli cyfiawnder lleol. Dylid cynnal y rhain yn y gymuned, a dylai fod pwyslais cryfach ar rianta. Dylent gynnwys aelodau dethol o'r gymuned a dylai fod ganddynt y grym i ddal gwasanaethau lleol eraill yn atebol am eu rôl yn adsefydlu plentyn.

Argymhelliad 19: Bob blwyddyn, dylai ynadon ddilyn nifer o achosion y cytunir arnynt yn y system cyfiawnder ieuenctid o'u dechrau i'w diwedd, er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r broses adsefydlu'n gweithio. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder werthuso hefyd a yw eu hymlyniad parhaus at yr achosion hyn yn cael unrhyw effaith amlwg ar gyfraddau aildroseddu.

Byddai'r dull hwn - sy'n fwy lleol, yn canolbwyntio mwy ar y teulu, ac yn poeni mwy am ddod â gwasanaethau at ei gilydd - yn adeiladu ar elfennau gorau'r system bresennol i sicrhau bod yr oedolion yn gefn i droseddwr ifanc. Mae'n anochel, serch hynny, y bydd angen dedfrydu rhai troseddwr i gyfnod dan glo. Yn y bennod nesaf, byddwn yn ymdrin â rôl system y carchardai.

Pennod 5 Carchardai

Rhagarweiniad

Mae dros 20,000 o oedolion BAME yn y carchar ledled Cymru a Lloegr, sef rhyw 25% o holl boblogaeth y carchardai.^{208 209} Petai demograffeg poblogaeth ein carchardai'n adlewyrchu poblogaeth Cymru a Lloegr, gallai fod gennym dros 9,000 yn llai o bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn y carchar - sy'n cyfateb i ddwsin o garchardai o faint cyffredin.²¹⁰ Mae llai o bobl ifanc wedi'u carcharu, ond mae'r gyfran o bobl BAME yn uwch o lawer yn y rhain, sef dros 40%.²¹¹

Mae'r ffaith bod cyfran fwy o droseddwy'r BAME yn yr ystâd i oedolion ac i bobl ifanc nag o grwpiau eraill yn y gymdeithas yn golygu cost economaidd yn ogystal â chost gymdeithasol - ac yn ôl amcangyfrifon gwaith a gomisiynwyd ar gyfer yr adolygiad hwn, mae'r gost honno'n £234 miliwn y flwyddyn.²¹² Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried y driniaeth a gaiff unigolion BAME dan glo a'u canlyniadau:

- Mae tystiolaeth ar gael sy'n awgrymu bod troseddwy'r BAME yn cael eu trin yn wahanol i bobl eraill yn yr ystâd i oedolion ac yn yr ystâd i bobl ifanc. Nid yw'r system mor debygol o sylwi ar broblemau sydd gan unigolion BAME megis anawsterau dysgu neu bryder ynghylch eu hiechyd meddwl pan gânt eu derbyn i'r carchar. Mae system y carchardai'n etifeddu rhai o'r gwahaniaethau hyn gan wasanaethau eraill, megis ysgolion yn methu â sylwi ar anawsterau dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl yn methu â gwasanaethu cymunedau BAME yn effeithiol.²¹³ Ond rhaid iddi wneud rhagor o lawer i gywiro'r gwendidau hyn pan fydd carcharorion yn cyrraedd y carchar.
- Ar gyfartaledd, bydd dynion a menywod BAME yn y carchar yn dweud bod eu perthynas â staff y carchar yn waeth na'r hyn sy'n arferol, gan gynnwys cyfraddau uwch o erlid gan staff y carchar. Mae carcharorion BAME hefyd yn llai tebygol o ddweud bod ganddynt swydd yn y carchar neu eu bod yn cymryd rhan mewn rhaglenni ymddygiad i droseddwy'r.²¹⁴
- Mae angen rhoi sylw ar frys i systemau gwneud iawn, oherwydd dim ond achos un carcharor o bob cant sy'n honni bod staff wedi gwahaniaethu yn eu herbyn a gaiff ei gadarnhau,²¹⁵ ac mae'r llywodraethu dros agweddau pwysig ar fywyd y carchar yn annigonol, er enghraifft y system Cymhellion ac Ennill Breintiau sy'n cael ei hystyried yn system annheg gan y rhan fwyaf o garcharorion BAME.
- Mae'r diffyg amrywiaeth ymhlith swyddogion y carchardai, gan gynnwys ymhlith eu harweinyddion, yn help i atgyfnerthu diwylliant 'ni a nhw' ymhlith carcharorion BAME. Mae'n cyfrannu at awyrgylch lle bydd llawer yn gwrthryfela yn erbyn trefn y carchar, yn hytrach na chychwyn ar y llwybr at fywyd heb droseddu.
- Rhaid i system y carchardai gymryd camau i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn, oherwydd mae cysylltiad rhwng llawer ohonynt â chyfraddau aildroseddu. Dylai hyn gynnwys:
 - dull mwy cynhwysfawr o lawer o asesu iechyd, addysg a chyflwr seicolegol carcharor pan fydd yn dod i mewn i'r carchar;
 - creu gweithlu mwy amrywiol, gan gynnwys ar lefelau arwain;
 - sicrhau bod mwy o'r penderfyniadau'n agored i graffu allanol, gan gynnwys sut y bydd cwynion am wahaniaethu'n cael eu trin; a
 - dal timau arweinyddion carchardai'n uniongyrchol atebol am y ffordd y caiff carcharorion BAME eu trin a'u canlyniadau.

Pwrpas carchar

O blith yr 86,000 o garcharorion yng Nghymru a Lloegr, dim ond nifer fach iawn ohonynt na wnânt fyth adael y carchar - mae dros 20,000 o'r oedolion hynny'n dod o gefndir BAME.²¹⁶ Drwyddi draw, bydd 99% o'r rheini sy'n mynd i'r carchar yn cael eu rhyddhau rywbryd yn ystod eu hoes.²¹⁷ Gyda hyn mewn golwg, mae pwyslais gwleidyddol cynyddol ar rôl carchardai'n diwygio troseddwr ac yn lleihau aildroseddu.²¹⁸

I lwyddo, rhaid i lywodraethwyr carchardai a swyddogion ddeall yn iawn y carcharorion y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae mwy o lawer o blith rhai grwpiau ethnig yn y carchar na grwpiau eraill. Pobl dduon yw 3% o'r boblogaeth gyffredinol, ond mae 12% o garcharorion a 21% o'r plant a gedwir dan glo'n Dduon.^{219 220} Yn y Cyfrifiad diwethaf, dangoswyd mai dim ond 0.1% o'r bobl yn y boblogaeth ehangach a oedd yn disgrifio'u hunain yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig,²²¹ ond mae'r gyfran o'r grwpiau hyn yn uchel iawn mewn rhai carchardai. Yn 2012-2013, roedd 12% o garcharorion Carchar Ei Mawrhydi (Carchar Ei Mawrhydi) Elmley, 11% yng Ngharchar Ei Mawrhydi Caerloyw, a 10% yng Ngharchar Ei Mawrhydi Caerwynt yn dweud mai Sipsiwn, Roma neu Deithwyr oeddent yn arolwg carcharorion 2014. Yn New Hall, dywedodd 8% o'r menywod mai Sipsiwn, Roma neu Deithwyr oeddent, er nad oedd y carchar ond wedi cofnodi un Teithiwr hysbys.²²² Nid dim ond rheidrwydd cyfreithiol yw sicrhau bod y driniaeth a gaiff y grŵp hwn a'u canlyniadau gystal byth ag y gallant fod²²³, mae'n rhan hanfodol o gynnal carchar effeithiol.

Catgoreiddio

Mae'r drefn y cedwir carcharorion dani'n effeithio i raddau sylweddol ar ymdrechion i'w hadsefydlu. Mae carchardai diogel iawn yn canolbwyntio'n anad dim ar atal pobl rhag dianc, ac mae carchardai llai diogel yn rhoi mwy o ryddid iddynt symud o gwmpas ac felly mwy o gyfle i gynnig trefn sy'n canolbwyntio ar adsefydlu.

Yn y gwaith dadansoddi a gomisiynwyd ar gyfer yr arolwg hwn, gwelir bod dynion BAME sy'n garcharorion yn fwy tebygol o gael eu rhoi mewn carchar diogel iawn na dynion Gwyn sy'n garcharorion er iddynt gyflawni mathau tebyg o droseddau (gweler Tabl 5). Y peth mwyaf trawiadol yw, o blith carcharorion sy'n bwrw dedfryd dan glo am droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus, bod 417 o droseddwr Duon a 631 o droseddwr Asiaidd wedi'u rhoi mewn carchardai diogel iawn, am bob 100 troseddwr Gwyn.²²⁴

Tabl 5: Nifer y dynion BAME a gafwyd yn euog a roddwyd mewn carchar diogel iawn am bob 100 o ddynion gwyn a gafwyd yn euog o'r un mathau o drosedd (canol -blwyddyn 2015)²²⁵

	Duon	Asiaidd	Ethnic cymysg	Tsieineaidd / Eraill	BAME i gyd
Trais yn erbyn yr unigolyn	160*	121*	118	97	119*
Troseddau Rhyw	118	126*	108	--	118*
Lladrad	136*	69	132	--	104
Troseddau dwyn	186*	138	110	--	121
Difrod troseddol a llosgi bwriadol	--	194*	--	--	156
Troseddau'n ymwneud â chyffuriau	82	125	142	--	127*
Bod ag arfau yn eu meddiant	180*	160	--	--	144
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus	417*	631*	--	--	494*
Troseddau amrywiol yn erbyn y gymdeithas	213	129	179	--	135
Troseddau twyll	150	--	--	--	92
Pob grŵp o droseddau	143*	126*	120*	--	121*

*Mae * yn dangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol.*

Mae -- yn dangos nad oes digon o achosion inni eu dadansoddi.

Mewn carchardai diogel iawn, ceir dau fath o garcharor: y rhai yn y categori mwyaf peryglus - carcharorion Categori A - ac unigolion ar remand yn disgwyl treial yn yr un rhan o'r wlad. Dylai gwasanaeth y carchardai gyhoeddi ymchwil sy'n sefydlu pa un o'r ddau grŵp hyn - carcharorion Categori A ynteu carcharorion ar remand - sy'n gyfrifol am y gyfran uchel o unigolion BAME sydd mewn carchardai diogel iawn. Os yw unigolion BAME yn cael eu categoreiddio'n fwy peryglus ar ôl iddynt gyflawni troseddau tebyg i droseddwy'r Gwyn, yna, dylid adolygu'r drefn gategoreiddio a dyrannu ar unwaith.

Sylwi ar broblemau

Y Ganolfan Astudiaethau Troseddau a Chyfiawnder - Cyflwyniad ysgrifenedig yn ymateb i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Pobl o gefndir incwm isel gan mwyaf yw poblogaeth y carchardai. Mae llawer ohonynt yn bobl ddi-fraint. Er enghraifft, roedd traean poblogaeth y carchardai'n ddigartref, a hanner y grŵp hwn yn cysgu ar y stryd cyn mynd i'r carchar.

Agenda - Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Dylai staff ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol gael hyfforddiant am realiti bywydau menywod ac, yn benodol, am y tebygolrwydd bod gan bobl hanes o gael eu cam-drin ac o ddiodef trais. Dylai gwasanaethau yn y gymuned ac yn y carchar fod yn wybodus am faterion sy'n ymwneud â'r rhywiau a thrawma.

Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: 29 Mehefin 2016

Mater arall yw'r nifer uwch na'r cyfartaledd o Sipsiwn a Theithwyr sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael. Tynnwyd sylw at y nifer fawr o achosion o hunanladdiad ymhlith Sipsiwn/Theithwyr yn y carchar ym Mwletin Ombwdsmon Carchardai a Phrawf Cymru a Lloegr ym mis Ionawr 2015 'Deaths of Travellers in prison'.

Unigolion sydd wedi'u niweidio yw llawer o'r carcharorion sy'n cyrraedd y carchar. Yn yr ystâd i bobl ifanc, bydd 33% yn cyrraedd gyda phroblemau iechyd meddwl, a bydd cyfran debyg yn cyrraedd gydag anawsterau dysgu. Mae traean y plant sydd yn y carchar wedi treulio amser yn y system gofal, 45% yn cyrraedd gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau ac mae gan 51% hanes o ymddieithrio oddi wrth addysg.²²⁶ Yn yr ystâd i oedolion, amcangyfrifir bod gan 62% o ddynion a 57% o fenywod anhwylder personoliaeth²²⁷, ac, yn ôl yr hyn a gofnodwyd, neu yn ôl y carcharorion eu hunain, roedd gan 32% o garcharorion newydd anhawster neu anabledd dysgu.²²⁸ Mae llawer ohonynt wedi dioddef trais a hefyd wedi'i gyflawni, ac wedi wynebu trawma a difrod seicolegol yn sgil hynny.


Mae system garchardai lwyddiannus yn dibynnu ar fynd i'r afael â'r problemau hyn. Nid oes modd dirnad sut y gall carchardai fod yn fannau lle mae trefn ar waith, heb sôn am fod yn fannau adsefydlu, oni sylwir ar y problemau dwfn sydd gan bobl a mynd i'r afael â hwy. Yn y tymor byr, mae modd cyfyngu ar broblemau megis trais cynyddol yn y carchardai drwy recriwtio rhagor o staff i helpu cydweithwyr sydd wedi'u hymestyn i'r eithaf. Ond, yn y tymor hwy, yr ateb yw ymdrin â gwreiddiau'r hyn sy'n achosi'r trais, yr anhrefn a'r aildrosedd sy'n digwydd yn sgil hynny,

Yr ystâd i bobl ifanc sy'n casglu'r data mwyaf dibynadwy am y problemau sydd gan unigolion pan fyddant yn cael eu derbyn i'r carchar. Ond mae'r manylion yn datgelu patrwm sy'n destun pryder.²²⁹ Er bod cyfrannau uchel iawn o bobl ifanc BAME yn cael eu cadw dan glo, dangosodd data o'r cyfnod rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2016, am y rhai a gafodd eu carcharu, fod pobl ifanc BAME yn llai tebygol na'r grŵp gwyn o gael eu cofnodi'n rhai a oedd yn wynebu problemau iechyd, addysg neu iechyd meddwl. Efallai fod hyn yn awgrymu nad yw eu hanghenion yn cael sylw, ac fe allai gael sgil-ffaith ar y gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir ar eu cyfer.

Fel yr awgryma Ffigur 6, rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2016, roedd pobl ifanc BAME a dderbyniwyd i'r carchar yn llai tebygol o gael eu cofnodi'n rhai yr oedd perygl iddynt niweidio'u hunain, neu fod a phroblemau gyda'u hiechyd corfforol neu feddyliol. Roeddent yn llai tebygol o gael eu cofnodi'n rhai sydd ag anawsterau dysgu, ac o fod wedi ymddieithrio oddi wrth addysg. Cofnodwyd bod gan bobl

ifanc BAME a phobl ifanc Wyn, yn yr un modd, berthynas broblematig â'u gofalwyr. Ond roedd pobl ifanc BAME yn llai tebygol o gael eu cofnodi'n rhai a oedd yn destun pryder am eu bod yn camddefnyddio sylweddau. Yr unig feysydd lle'r oedd mwy o bryder am bobl ifanc BAME oedd yng nghyswllt y risgiau yr oeddent yn eu peri i bobl ifanc eraill.

Ffigur 6: Dosbarthiad y prif nodweddion ar gyfer pawb a dderbyniwyd i'r carchar, yn ôl ethnigrwydd, rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2016²³⁰



Nid yw'r data hanner cystal yng nghyswllt yr ystâd i oedolion, ond maer dystiolaeth yn datgelu patrymau tebyg. Er enghraifft, o ran iechyd meddwl, cyn belled yn ôl ag yn 2007, canfu Prif Arolygydd y Carchardai:

*Nad yw'r sgrinio adeg derbyn carcharorion yn datgelu maint eu hanghenion nac amrywiaeth yr anghenion hynny. Y rheswm dros hyn yn rhannol yw oherwydd nad yw'r gwaith yn cael ei wneud yn dda bob tro gan staff priodol o fedrus ac nad oes camau dilynol priodol yn cael eu cymryd. Ond mae'n rhannol hefyd oherwydd nad yw'r sgrinio'i hun yn ddigon sensitif i sylwi ar angen gwirioneddol, ac yn benodol, ar angen nad yw'n cael ei gydnabod. Yn ein prosesau sgrinio ni ein hunain, gwelsom lefelau uwch o angen drwyddi draw, ond yn enwedig yn achos carcharorion duon a rhai o leiafrifoedd ethnig (BME) sy'n llai tebygol o lawer o fanteisio ar ofal iechyd meddwl yn y gymuned, a hefyd yn achos dynion sy'n garcharorion, sy'n llai tebygol o gydnabod eu hangen.*²³¹

Adleisir y canfyddiad hwn yn Adroddiad Bradley (2009) a'i adroddiad 'five years on' (2014), lle mae'n argymhell y dylai'r system cyfiawnder troseddol (SCT) gasglu a dadansoddi sut y bydd pobl BAME yn

cael gafael ar wasanaethau ac yn eu defnyddio. Hefyd, mae nifer o ymarferwyr wedi dweud eu bod yn poeni bod yr un broblem i'w gweld ym maes anawsterau ac anabledau dysgu.^{232 233}

Mae system y carchardai'n etifeddu rhai o'r gwahaniaethau hyn gan wasanaethau eraill, megis ysgolion yn methu â sylwi ar anawsterau dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl yn methu â gwasanaethu cymunedau BAME yn effeithiol.²³⁴ Ond ni all system y carchardai ymateb i hyn yn syml drwy drosi problemau gwasanaethau yn y gymuned yn broblemau cyfatebol yn y carchar. Yn hytrach, rhaid sefydlu prosesu sgrinio sy'n sylwi'n gywir ar y problemau sydd gan garcharorion wrth iddynt gyrraedd y carchar.

Asesu

Revolving Doors – Cyflwyniaid ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Ni fydd profiadau pawb o bob grŵp ethnig neu ddiwylliannol o broblemau iechyd a chymdeithasol neu o gael gafael ar wasanaethau yr un fath ychwaith, ac fe all gwahaniaethau amrywio a dibynnu ar ryw, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Bydd ystyried y gwahaniaethau hyn ym mhrofiadau pobl yn gyfraniad i'w groesawu i helpu'r cyhoedd eu deall.

Agenda - Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Mae menywod yn y carchar yn aml wedi dioddef cam-drin dwys ac maent yn debygol o fod ag anghenion cymhleth o ran iechyd meddwl, bod yn gaeth i sylweddau ac anghenion eraill.

Dylai carchardai a sefydliadau diogel yn y system cyfiawnder ieuencid allu cael gafael yn briodol ar asesiadau gan wasanaethau eraill, megis iechyd, iechyd meddwl ac addysg - ond rhaid iddynt beidio â dibynnu'n llwyr ar hyn. Yn y system cyfiawnder ieuencid, mae 'na waith arloesi'n digwydd y gallai'r system garchardai yn ei chyfanrwydd ddysgu yn ei sgil. Mae'r Rhwydwaith Ymchwil i Iechyd Troeddwr ym Mhrifysgol Manceinion wedi datblygu Dull yr Asesiad Iechyd Cynhwysfawr. Dull safonol yw hwn i sgrinio ac asesu pob person ifanc (11 i 18 oed) ac fe'i defnyddir i adeiladu darlun cynhwysfawr unrhyw broblemau iechyd y maent yn eu hwynebu.

Mae'r dull yn dechrau drwy wneud asesiad cychwynnol - 'sgrinio wrth dderbyn' - cyn y noson gyntaf y cedwir rhywun dan glo, er mwyn asesu a oes unrhyw anghenion iechyd corfforol a meddyliol y dylid rhoi sylw brys / ar unwaith iddynt, gan gynnwys y posibilrwydd o hunanladdiad, hunan-niweidio ac anawsterau wrth roi'r gorau i ddefnyddio sylweddau.²³⁵ Yna, cwblheir asesiad iechyd corfforol o fewn tridiau i'w derbyn i'r carchar. Nyrs ac ymarferydd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed fydd yn cwblhau'r asesiadau iechyd corfforol a meddyliol llawn. Cyn pen pum niwrnod i rywun gael ei dderbyn i'r carchar, bydd gweithiwr camddefnyddio sylweddau hyfforddedig yn cwblhau asesiad camddefnyddio sylweddau, a chyn pen deng niwrnod, bydd Nyrs Anabled Dysgu Gofrestredig yn asesu ar gyfer niwro-anabled. Mae'r asesiad olaf hwn yn cynnwys sgrinio ar gyfer Anhwylder Straen Ôl-Drawma - sy'n hanfodol ar gyfer y garfan o bobl sy'n debygol o fod wedi wynebu lefelau sylweddol o drais yn ystod eu bywyd.²³⁶

Bydd yr Asesiad Iechyd Cynhwysfawr yn asesu iechyd unigolion ei hun, ar sail y wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanynt eisoes, ond heb ddibynnu'n llwyr arni. Dyma pam mae'n gallu mynd i'r afael â rhai o'r anghysondebau y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn y bennod hon. Yn ôl cyflwyniad i'r adolygiad hwn gan Seicolegydd Clinigol Arweiniol mewn Canolfan Hyfforddi Diogel, *roedd yr holl wasanaethau a oedd yn cyfrannu at y papur hwn yn teimlo bod yr Asesiad Iechyd Cynhwysfawr yn golygu eu bod yn gallu sicrhau bod pawb yn gallu manteisio i'r un graddau ar eu gwasanaethau, ar draws ffiniau ethnigrwydd.*

Dull newydd yw'r Asesiad Iechyd Cynhwysfawr, a bydd angen ei werthuso a'i addasu wrth ddysgu rhagor am ei gryfderau a'i wendidau. Yn benodol, bydd angen i arweinyddion sefydliadau yn yr ystâd i bobl ifanc sicrhau ei fod, ar y cyd â'r system AssetPlus newydd yn gwireddu'r addewid sef bod pawb yn gallu manteisio i'r un graddau ar wasanaethau iechyd. Ond hyd yn oed yn ystod y camau cychwynnol hyn, mae'n amlwg ei fod yn fodel y gellir dysgu yn ei sgil a'i efelychu yn yr ystâd i oedolion. Mae gan garchardai wahanol brosesau sgrinio, ond dim byd sydd yr un mor gynhwysfawr neu drwyadl â hyn. Dylai system y carchardai, gan gydweithio â'r Adran Iechyd fabwysiadu model tebyg i ddynion a menywod yn y carchar, gan roi gwell cyfle i garchardai sylwi ar y problemau niferus a chymhleth sydd gan garcharorion wrth iddynt gyrraedd, ni waeth am eu cefndir ethnig.

Argymhelliad 20: Dylai arweinyddion yn yr ystâd i bobl ifanc adolygu'r data a gynhyrchir yn ystod yr Asesiad Iechyd Cynhwysfawr a phwyso a mesur pa mor effeithiol ydyw ym mhob maes, gan sicrhau ei fod yn arwain at sefyllfa lle y gall pob grŵp ethnig fanteisio i'r un graddau ar wasanaethau. Dylid archwilio anghysondebau yn y data'n drwyadl ar ddiwedd pob blwyddyn.

Argymhelliad 21: Dylai system y carchardai, gan gydweithio â'r Adran Iechyd, ddysgu yn sgil y system cyfiawnder ieuencid a mabwysiadu model tebyg i'r Asesiad Iechyd Cynhwysfawr i ddynion a menywod sy'n garcharorion, a dylai'r model hwn gynnwys dull o'i werthuso.

Triniaeth yn y carchar

Adroddiad Transition to Adulthood (T2A) – Leaders Unlocked – Gorffennaf 2017

Un o'r prif negeseuon a glywsom gan garcharorion y buom yn siarad â hwy - ni waeth o ba hil neu gefndir ethnig - yw bod gormod o ffafriaeth yn y ffordd y bydd pethau'n gweithio yn y carchardai. Gall swyddogion yr heddlu ddewis helpu rhai pobl ac anwybyddu rhai eraill, am fod ganddynt ormod o bŵer i ddefnyddio'u disgresiwn.

Mae'r ffordd y caiff unigolion eu trin yn y carchar yn effeithio ar eu cyfleoedd i gael eu hadsefydlu a hynny mewn ffyrdd amlwg ac mewn ffyrdd llai amlwg. Ar lefel amlwg, mae cyfleoedd i fanteisio ar bethau megis cyrsiau hyfforddi, swyddi yn y carchar a rhaglenni rheoli ymddygiad yn effeithio ar allu troseddwy'r i ymdopi heb aildroseddu pan fyddant yn ymadael â'r carchar.²³⁷ Ar lefel llai amlwg, profwyd bod cysylltiad rhwng i ba raddau y mae carcharorion yn credu eu bod yn cael eu trin yn deg yn y carchar a'u hymddygiad yn y ddalfa a'r tebygolrwydd y byddant n aildroseddu ar ôl eu rhyddhau.²³⁸

Mewn un astudiaeth o bwys yn 2010/11 a oedd yn olrhain carcharorion yn yr Iseldiroedd dros gyfnod, cymerodd carcharorion ran mewn arolwg arhydol a gofynnwyd iddynt farnu pa mor deg yr oeddent wedi cael eu trin yn eu barn hwy ar raddfa o 1 i 5. Gwelwyd bod y rheini a deimlai eu bod wedi cael eu trin yn fwy teg yn llai tebygol o dorri rheolau'r carchar, yn llai tebygol o ddioddef problemau iechyd meddwl ac yn llai tebygol o aildroseddu wrth eu rhyddhau.²³⁹ Mae'r un realiti i'w weld mewn carchardai ledled Cymru a Lloegr: mae'r rheini sy'n teimlo'u bod wedi'u trin yn anghyfiawn yn fwy tebygol o wrthryfela yn erbyn trefn y carchar, yn hytrach na chychwyn ar y ffordd at fywyd heb droseddu.

Bob blwyddyn, bydd arolygiaeth y carchardai'n cynnal arolwg ymhlith carcharorion i adeiladu darlun, ochr yn ochr â sylwadau'r arolygwyr eu hunain, o sut y mae carcharorion yn cael eu trin ac fe gyhoeddir ciplun o ddata'r arolwg. Yn 2015/16, roedd y gwahaniaeth rhwng ymatebion dynion BAME a dynion Gwyn sy'n garcharorion yn drawiadol.²⁴⁰ Gyda golwg ar rai mesurau pwysig, dywedodd dynion BAME a oedd yn garcharorion eu bod yn cael llai o gyfleoedd ac ymyriadau sy'n eu helpu i

adsefydlu. Fel y mae Tabl 6 yn ei ddangos, roeddent yn llai tebygol o ddweud bod ganddynt swydd yn y carchar, o gymryd rhan mewn rhaglenni ymddygiad i droseddwyr neu'n treulio deg awr y tu allan i'w cell ar ddyddiau'r wythnos.

Adroddiad Transition to Adulthood (T2A) - Leaders Unlocked - Gorffennaf 2017

Roedd y rhan fwyaf o'r swyddogion yn wyn. Roeddwn yn arfer gweithio yn y ceginau ac fe ddechreuais i gasáu'r boi yma, roedd ganddo rywbeth i'w ddweud wrtha'i bob tro, ac roedd yn teimlo fel petai'n fy mwlio i, fel petai'n bod yn hiliol. Roedd yn gwneud imi ddiodef, yn fy nghosbi drwy'r amserdan y cynllun cymhellion ac ennill breintiau. (Cyfranogwr mewn gweithdy, Caerlŷr)

Tabl 6: Cymharu'r cyfle i ddynion BAME a Gwyn fanteisio ar swydd yn y carchar, rhaglenni ymddygiad troseddol ac amser cymdeithasu²⁴¹

	BAME	Gwyn
Swydd yn y carchar	46	56
Rhaglenni ymddygiad i droseddwyr	9	10
Treulio deg awr neu ragor y tu allan i'ch cell ar ddiwrnod yn ystod yr wythnos	11	16

Mae canlyniadau eraill yn yr arolwg yn destun pryder mawr ac yn anfoddhaol iawn (gweler Tabl 7) Roedd carcharorion gwryw a benyw o gefndir BAME a ymatebodd i'r arolwg yn gyson llai tebygol na charcharorion Gwyn o ddweud bod eu perthynas â staff y carchar yn un gadarnhaol. Credai cyfran is o ymatebwyr BAME fod staff yn eu trin â pharch, ac roedd cyfran is yn cofio bod aelodau'r staff wedi holi am eu lles neu'n teimlo bod aelod o'r staff yr oeddent yn teimlo y gallent droi atynt am help.

Mae'r darlun yn gwaethygu pan holir am gam-drin carcharorion. Roedd dynion o gefndir BAME yn fwy tebygol na charcharorion Gwyn o ddweud eu bod yn cael eu herlid, a dynion a menywod BAME yn teimlo'u bod yn cael eu trin yn annheg o dan y cynllun Cymhellion ac Ennill Breintiau, sydd wedi'i gynllunio i gosbi a gwobrwyo ymddygiad carcharorion.

Mae hyn yn eithriadol o wrthgynhyrchiol, a'r data'n awgrymu bod cysylltiad rhwng canfyddiadau ynghylch tegwch y cynllun Cymhellion ac Ennill Breintiau a'i effeithiolrwydd Roedd carcharorion BAME nid yn unig yn llai tebygol o weld y cynllun Cymhellion ac Ennill Breintiau yn deg - roeddent hefyd yn llai tebygol o ddweud ei fod yn effeithio ar eu hymddygiad. Y peth sy'n peri'r braw mwyaf yw bod carcharorion BAME yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael eu bygwth neu eu dychrynu gan staff.

Adroddiad Transition to Adulthood (T2A) - Leaders Unlocked - Gorffennaf 2017

Yn fy mhrofiad i, roedd hil yn gwneud gwahaniaeth mawr. Pan oeddwn mewn un carchar, roedd y rhan fwyaf yno'n wyn, gan gynnwys staff a charcharorion. Roeddwn yn teimlo ar wahân ac yn diodef llawer o gam-drin hiliol. Cefais fy strip-chwilio chwe gwaith mewn tri diwrnod ac roedd hynny'n fy mychanu i. Y bobl a oedd wedi dweud fy mod i'n gwneud pethau oedd yn eu gwneud mewn gwirionedd ac roedden nhw'n cael dihangfa oherwydd eu bod nhw'n wyn. Gwelodd fy nghydd-diffynnydd yr hyn a oedd yn digwydd imi ac mi soniodd wrth y gwarcheidwad, gan ddweud fy mod i'n diodef cam-drin hiliol, a'i ateb e oedd 'da iawn, dwed wrth rywun sy'n malio'. (Carcharor, Dwyrain Canoldir Lloegr)

Tabl 7: Cymharu profiadau pobl BAME a Gwyn yn y carchar 2016-17²⁴²

	Oedolion gwryw		Oedolion benyw	
Cyfanswm nifer yr ymatebion:	1,513	4,866	149	541
	BAME%	Gwyn%	BAME%	Gwyn%
CYSYLLTIADAU CADARNHAOL				
Ydy'r rhan fwyaf o'r staff, yn y carchar hwn, yn eich trin â pharch?	69	76	69	79
Ydy'r staff gan amlaf yn siarad â chi'r rhan fwyaf o'r amser/drwy'r amser yn ystod cymdeithasu?	14	20	14	21
Oes aelod o'r staff wedi'ch holi'n bersonol yn ystod yr wythnos diwethaf i weld sut yr ydych yn dod yn eich blaen?	21	29	26	36
Oes aelod o'r staff, yn y carchar hwn, y gallwch droi ato am help os bydd problem gennych?	64	71	72	81
TRINIAETH NEGYDDOL				
Ydych chi wedi cael eich erlid gan y staff?	36	29	31* ²⁴³	28*
Ydy'r staff wedi'ch erlid oherwydd eich hil neu eich tarddiad ethnig?	11	2	7	1
Ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch trin yn deg yn eich profiad o'r cynllun Cymhellion ac Ennill Breintiau?	35	44	38	59
Ydy'r gwahanol lefelau'r cynllun Cymhellion ac Ennill Breintiau yn eich annog i newid eich ymddygiad?	38	41	41	51
DIOGELWCH				
Ydy'r staff wedi'ch bygwth neu'ch dychryn?	16	14	19	10
Ydy'r staff wedi'ch taro, eich cicio neu wedi ymosod arnoch chi?	7	6	2*	1*

Mae'n bosibl manylu eto ar ganfyddiadau'r arolwg, er mwyn archwilio ymatebion grwpiau penodol. Mae'r canlyniadau'n dangos bod carcharorion sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn fwy tebygol na charcharorion eraill o ddweud bod angen cymorth arnynt ar gyfer amrywiaeth o broblemau, ond yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi cael cymorth o'r fath mewn gwirionedd.²⁴⁴ Er enghraifft, yn 2014, dywedodd 27% o garcharorion sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu bod yn teimlo'n isel neu'n teimlo fel cyflawni hunanladdiad wrth gyrraedd (o'u cymharu â 15%). Serch hynny, roeddent yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth am ba gymorth a oedd ar gael ar gyfer hyn (35% o'u cymharu â 44%).

Yn yr un modd, mae carcharorion Mwslimaidd yn dweud bod eu profiad yn y carchar yn fwy negyddol, yn enwedig gyda golwg ar eu diogelwch a'u perthynas â'r staff, nag y bydd carcharorion eraill - mae hyn hyd yn oed yn fwy amlwg na'r gwahaniaeth rhwng y profiadau y bydd carcharorion Duon a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu disgrifio o'u cymharu â charcharorion Gwyn.²⁴⁵

Canfyddiadau carcharorion wrth gwrs yw'r gwahaniaethau hyn sy'n destun pryder yn nata arolwg Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi). Ond mae'r patrwm yn codi'n rhy gyson i'w anwybyddu. Beth

bynag, y cwestiwn yn syml yw, pa fath o broblem sydd gan y gwasanaeth carchardai: a yw carcharorion BAME yn cael eu trin â llai o barch, yn llai teg ac yn llai diogel gan swyddogion y carchar - ynteu ai mater syml o ddiffyg ymddiried endemig sydd ar waith rhwng carcharorion BAME a staff y carchardai?

Dylai carchardai unigol eisoes fod yn defnyddio data'n well o lawer, gan gynnwys gwybodaeth gan Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi a dylent fod yn mesur arolygon ansawdd bywyd yn y carchar, ond mae angen mynd ati hefyd mewn ffordd fwy systematig.²⁴⁶ Efallai mai rhan o'r ateb fyddai ei gwneud yn ofynnol i fod yn fwy tryloyw o lawer ynglŷn ag agweddau pwysig ar fywyd y carchar. Mae'r papur gwyn diweddar am garchardai'n pennu ystod o ddata newydd a gesglir ac a gyhoeddir yn y dyfodol.²⁴⁷ Mae'r data hyn yn cynnwys mesurau megis faint o oriau y mae carcharorion wedi eu gweithio ym myd diwydiant, ansawdd y cyfleoedd gwaith a gynigir gan garchardai a'r amser a dreulir gan garcharorion y tu allan i'w celloedd yn gwneud pethau pwrpasol.²⁴⁸ Yn anffodus, yn y papur gwyn 68 tudalen o hyd, nid oes yr un cyfeiriad at ethnigrwydd, ond mae cyfle o hyd i gywiro hyn. Dylid casglu a chyhoeddi'r data y cyfeirir atynt yn y papur gwyn gan roi manylion llawn am ethnigrwydd.

Maes arall lle mae diffyg tryloywder o ran y driniaeth a gaiff garcharorion BAME a'u canlyniadau yw'r Bwrdd Parôl, sy'n cynnal asesiadau risg ar garcharorion ac yn rheoli rhyddhau'n gynnar i'r rheini sy'n bwrw dedfrydau am gyfnod penodedig - am bedair blynedd neu ragor, a'r rheini sy'n bwrw dedfrydau am oes nau am gyfnod amhenodol.²⁴⁹ Ar hyn o bryd, ni chyhoeddir dim ffigurau sy'n dangos a fydd carcharorion o wahanol gefndir ethnig yn cael eu rhyddhau yn ôl yr un cyfrannau drwy'r broses hon. Er mwyn gallu craffu'n effeithiol, dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Parôl adrodd ynghylch cyfran y carcharorion sy'n cael eu rhyddhau yn ôl eu trosedd ac yn ôl eu hethnigrwydd. Os oes modd, dylai'r data hefyd gynnwys y cyfran o bob grŵp ethnig sydd hefyd yn mynd yn eu blaen i aildroseddu.

Argymhelliad 22: Mae'r papur gwyn diweddar am garchardai'n pennu ystod o ddata newydd a gaiff eu casglu a'u cyhoeddi yn y dyfodol. Dylid casglu a chyhoeddi'r data hyn gan roi manylion llawn am ethnigrwydd.

Argymhelliad 23: Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Parôl adrodd am y gyfran o garcharorion sy'n cael eu rhyddhau, yn ôl eu trosedd ac yn ôl eu hethnigrwydd. Dylai'r data hefyd gynnwys y cyfran o bob grŵp ethnig sydd hefyd yn mynd yn eu blaen i droseddu eto.

Ombwdsmon y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf - Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

O safbwynt fy swyddfa, dylai staff wneud rhagor o waith i gyfleu'r polisïau a'r gweithdrefnau priodol ar draws sefydliadau'r carchardai; ac yna ddilyn y gweithdrefnau hyn yn gywir.

Transition to Adulthood (T2A) Alliance – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Gall gweithdrefnau gwael ar gyfer gweinyddu'r Cynllun Cymhellion ac Ennill Breintiau a'r broses ddyfarniadau yn y carchar gyfrannu at greu ymdeimlad o annhegwch a chanlyniadau anghyfartal.

Un o themâu canolog yr adroddiad hwn yw mai'r llwybr gorau er mwyn sicrhau triniaeth deg yw sicrhau bod penderfyniadau'n agored i bobl graffu arnynt. Mae cyhoeddi gwybodaeth o well ansawdd yn rhan o hyn, ond nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun. Mae'r system ddyfarnu - mesur disgyblu - mewn carchardai yn enghraifft arall o sut y gellir rhoi'r egwyddor hon ar waith. Mae'r

dadansoddi a gomisiynwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn awgrymu, ar sail data 2014/15, fod dyfarniadau'n cael eu gwneud (cyhuddiadau'n cael eu dwyn) mewn ffordd anghyfartal yn y carchar yn erbyn dynion BAME sydd o gefndir pobl Dduon neu Ethnig Cymysg. Swyddogion unigol sy'n cyflwyno'r dyfarniadau hyn. Ond, wrth ddadansoddi'r data ar gyfer pob carcharor BAME gwryw, gwelwyd bod dyfarniadau yn eu herbyn yn llai tebygol o gael eu cadarnhau pan fyddai panel yn adolygu eu hachosion. Y wers yw bod goruchwyliaeth yn dull cywiro o bwys.²⁵⁰

Clinks – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Soniodd y cyfranogwyr yn ymgynghoriadau Clinks hefyd am y diffyg tryloywder hwn yng ngweithdrefnau'r carchar, gan deimlo nad oedd dim proses glir i bob golwg ar gyfer sicrhau swyddi penodol yn y carchar, ar gyfer cael eich uwchraddio neu'ch israddio ar y Cynllun Cymhellion ac Ennill Breintiau, neu ar gyfer symud i garchar o wahanol gategori. Gallai hyn olygu bod y penderfyniadau'n dibynnu ar ddisgresiwn staff ac felly bod tuedd ymwybodol ac anymwybodol yn erbyn carcharorion BAME yn effeithio ar y penderfyniadau hyn. Roedd y diffyg tryloywder yn y prosesau hyn yn wrthgymhelliant i garcharorion ac yn cynyddu'r diffyg ymddiriedaeth rhwng carcharorion a staff drwy greu ymdeimlad o hiliaeth a gwahaniaethu o du'r staff a'r ymdeimlad hwnnw un sy'n dyfnhau.

Daeth y systemau goruchwyllo hyn yn fwy pwysig yng nghyswllt materion sydd naill ai'n arbennig o ddadleuol neu'n arbennig o ddifrifol. Mae'r system Cymhellion ac Ennill Breintiau - a feirniadwyd hefyd yn adroddiad blynyddol diweddaraf y Prif Arolygydd Carchardai²⁵¹ - yn perthyn i'r cyntaf o'r categorïau hyn. Mae'r polisi ar lefel genedlaethol yn symud tuag at roi mwy o bwerau i lywodraethwyr carchardai. Os a phan fydd hyn yn digwydd gyda golwg ar bolisiau'r cynllun cymhellion ac ennill breintiau, dylai llywodraethwr pob carchar sicrhau bod fforwm ar waith yn ei sefydliad i swyddogion a charcharorion adolygu tegwch ac effeithiolrwydd eu cyfundrefn. Dylai carcharorion BAME a charcharorion Gwyn gael eu cynrychioli yn y fforwm hwn.

Llywodraethwyr, wrth gwrs a ddylai wneud y penderfyniadau yn y maes hwn yn y pen draw, ond byddai'r math hwn o ddeialog rhwng timau arwain, swyddogion a charcharorion yn help i ddatrys pryderon am gynllun y system cymhellion ac ennill breintiau ac yn help i'w orfodi. Mae gwaith ymchwil gan Clinks yn dangos bod gan y rhan fwyaf o garchardai eisoes fforymau megis cyngor carchar: lle bydd y rhain ar gael, dylid eu defnyddio i fynd i'r afael â chwynion am y cynllun cymhellion ac ennill breintiau - os nad ydynt ar gael, dylid eu sefydlu.²⁵²

Argymhelliad 24: Er mwyn gwneud y system Cymhellion ac Ennill Breintiau yn fwy teg ac effeithiol, dylai pob llywodraethwr carchar sicrhau bod fforwm yn ei sefydliad ar gyfer swyddogion a charcharorion ill dau allu adolygu tegwch ac effeithiolrwydd eu cyfundrefn. Dylai carcharorion BAME a charcharorion Gwyn gael eu cynrychioli yn y fforwm hwn. Llywodraethwyr ddylai wneud y penderfyniad terfynol yn y maes hwn.

Mae defnyddio grym gan swyddogion y carchar yn perthyn i'r ddau gategori - mae'n ddadleuol a hefyd yn ddifrifol. Bydd amgylchiadau'n codi o hyd pan na fydd gan swyddogion ddewis ond defnyddio grym, naill ai i'w gwarchod eu hunain, i gadw trefn, neu i orfodi rheolau'r carchar. Serch hynny, roedd Prif Arolygydd y Carchardai hefyd yn glir ynghylch hyn, gan ddweud bod y llywodraethu'n annigonol ynn hanner y carchardai a arolygwyd, ac roedd ei brif argymhellion yn cynnwys rhai am ddefnyddio grym... Mewn bron dau o bob tri o'r carchardai a arolygwyd, roedd defnyddio grym ar gynnydd a/neu'n digwydd ar raddfa uchel. Mewn llawer o garchardai, nid oedd yn dawel ei feddwl bod pob un o'r achosion hyn yn rhai lle yr oedd modd cyfiawnhau'r grym, bod y grym a ddefnyddiwyd yn gymesur na bod y sefyllfa'n cael ei lliniaru'n ddigon cyflym.²⁵³

Yn enwedig pan nad oes data ar gael, rhaid i'r llywodraethu fod yn esiampl o'r arferion gorau. Rhaid i bob carchar gael Pwyllgor Defnyddio Grym i fonitro a gwarchod rhag unrhyw faterion neu broblemau sy'n codi yn y maes hwn.²⁵⁴ Dylai fod gan lywodraethwyr carchardai ddisgresiwn ynghylch union aelodaeth y pwyllgorau hyn, ond dylent sicrhau nad yw'r pwyllgorau'n unffurf o ran eu hethnigrwydd a dylent gynnwys o leiaf un unigolyn, megis aelod o Fwrdd Monitro Annibynnol y carchar, sydd â chylch gwaith penodol i ystyried buddiannau carcharorion. Os gwelir bod swyddogion yn camddefnyddio grym ar fwy nag un achlysur, dylent wynebu canlyniadau sy'n gynyddol lym. Gallai'r 'Panel Seiliau Rhesymol' a grëwyd gan Heddlu Swydd Northampton, a ddisgrifiwyd ym Mhennod 2, fod yn fodel llywodraethu i ddelio â hyn. Yn Swydd Northampton, bydd gofyn i swyddogion yr heddlu gael hyfforddiant yn y lle cyntaf os gwelir eu bod wedi camddefnyddio pwerau Stopio a Chwilio ond mae perygl iddynt gollu eu pwerau i chwilio os gwelir iddynt gael eu defnyddio'n amhriodol.

Argymhelliad 25: Dylai llywodraethwyr carchardai sicrhau nad yw Pwyllgorau Defnyddio Grym yn unffurf o ran eu hethnigrwydd a dylent gynnwys o leiaf un unigolyn, megis aelod o'r Bwrdd Monitro Annibynnol, sydd â chylch gwaith penodol i ystyried buddiannau carcharorion. Os gwelir bod swyddogion yn camddefnyddio grym ar fwy nag un achlysur, dylai wynebu canlyniadau sy'n gynyddol lym. Dylai hyn fod yn wir hefyd mewn lleoliadau lle y cedwir pobl ifanc dan glo.

Pen draw'r camau i fynd i'r afael â gwahaniaethu annheg mewn carchardai yw'r system gwynion. Eto i gyd, mae gwaith ymchwil diweddar, a gyhoeddwyd ar y cyd gan Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai ac Ymddiriedolaeth Zahid Mubarek yn awgrymu nad oes modd dibynnu ar systemau cwyno'r carchardai. Gwahoddwyd ymchwilwyr gan wyth o garchardai i graffu'n allanol ar y broses gwyno gyda golwg ar gyhuddiadau o wahaniaethu annheg (p.v). Archwiliwyd 610 o ymchwiliadau o wyth carchar yn 2014. Cyflwynwyd 70% o'r adroddiadau am wahaniaethu gan garcharorion a 30% gan staff. Roedd a wnelo'r rhan fwyaf â hil (62%), ond adlewyrchwyd crefydd (15%) ac anabledd (10%) hefyd yn y cwynion. Mae canlyniadau'r astudiaeth yn dangos mai dim ond achosion 1% o'r carcharorion a honnodd iddynt ddiodeff gwahaniaethu o du staff a gadarnhawyd. Casgliad yr ymchwilwyr oedd nad yw'r system i drin cwynion am wahaniaethu mewn carchardai nac yn deg nac yn ddiuedd, nad yw'n ennyn ymddiriedaeth y carcharorion a'i fod yn methu â rhoi cyfle i garchardai ddysgu a thrin pobl yn decach.²⁵⁵

Sut y bydd carchardai'n ymdrin â chwynion

Bydd y system ar gyfer trin cyhuddiadau o gamwahaniaethu mewn carchardai'n dechrau drwy gyflwyno ffurflen adrodd am gamwahaniaethu. Caiff unrhyw un - swyddogion y carchar, carcharorion, ymwelwyr â charchardai, neu bobl eraill – gyflwyno ffurflen o'r fath.²⁵⁶

Bydd carcharorion sy'n tystio i gamwahaniaethu neu sy'n dioddef camwahaniaethu'n cyflwyno ffurflen gwyno. Dylid cyfeirio Ffurflen Gwyno sy'n ymwneud â digwyddiadau difrifol a/neu honiadau o gamymddwyn gan staff er mwyn ymchwilio iddynt. Dylid rhoi gwybod i'r carcharor bod hyn wedi digwydd a'i hysbysu am ganlyniad yr ymchwiliad sy'n berthnasol iddo. Dylai Ffurflen Gwyno sy'n ymwneud â materion eraill gael eu trin gan reolwr (t 19).

Cofnodi/llofnodi a rheoli ansawdd

Dylid cofnodi Ffurflen Gwyno wrth ei derbyn a phan geir ymateb, a dylid nodi'r canlyniad wrth gwblhau'r ymchwiliad. Er mwyn sicrhau ymatebion effeithiol, dylid dilyn proses llofnodi neu reoli ansawdd sy'n cynnwys uwch reolwr.

Gwybodaeth reoli

Dylid dadansoddi cofnod y Ffurflen Gwyno a defnyddio gwybodaeth berthnasol i lywio camau gweithredu. Dylai hyn gynnwys dadansoddi tueddiadau o ran natur a lleoliad digwyddiadau yn ogystal â phatrymau sy'n berthnasol i unigolion penodol.²⁵⁷

Yn yr astudiaeth hon gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai/Ymddiriedolaeth Zahid Mubarek, gwelwyd nifer o broblemau, gan gynnwys y safon anghywir o dystiolaeth yn cael ei defnyddio ar brydiau. Roedd ffeiliau achos mewn un cofnod yn dweud nad oedd modd casglu y tu hwnt i amheuaeth resymol bod camwahaniaethu wedi digwydd. Y safon brawf briodol yw 'cydbwysedd tebygolrwydd' - a yw'n fwy tebygol neu beidio bod y digwyddiad honedig wedi digwydd. Nid dyma'r tro cyntaf i astudiaeth nodi'r broblem hon ynghylch sut y bydd carchardai'n delio â chwynion.²⁵⁸ Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi egluro mai dyma'r safon brawf sy'n berthnasol i honiadau ynghylch camwahaniaethu.

Canfu astudiaeth Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai/Ymddiriedolaeth Zahid Mubarek hefyd yr her o fynd i'r afael â chamwahaniaethu sy'n gallu bod yn anodd ei brofi. Gall dystiolaeth wrthrychol o gamwahaniaethu fod yn brin, ac mae'n bosibl dehongli gweithredoedd mewn gwahanol ffyrdd. Mae gwasanaethau cyhoeddus eraill yn wynebu'r her hon hefyd ac mae gofyn ymateb iddi mewn ffordd soffistigedig. Er enghraifft, argymhelliad adroddiad diweddar gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu oedd y dylai gweithdrefnau ymchwilio ystyried sut mae swyddogion wedi delio â digwyddiadau tebyg yn y gorffennol.²⁵⁹ Dylid dilyn yr un drefn hefyd mewn carchardai er mwyn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn drylwyr ac yn deg.

Argymhelliad 26: Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi egluro'n gyhoeddus mai'r safon brawf briodol wrth asesu cwynion yw 'cydbwysedd tebygolrwydd'. Dylai carchardai ystyried ffactorau megis sut mae swyddogion wedi delio â digwyddiadau tebyg yn y gorffennol.

Mae adroddiad Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai/Ymddiriedolaeth Zahid Mubarek yn cynnig un argymhelliad arall, sef y gallai 'dull datrys problemau' gyfrannu at fwy o ymddiriedaeth yn y system gwynion.²⁶⁰ O safbwynt ymarferol, mae hyn yn golygu defnyddio'r broses gwyno'n gyfle i ddatrys problemau, yn hytrach na dim ond i benderfynu a yw rhywun wedi gwneud rhywbeth o'i le. Er enghraifft, efallai mai casgliad ymchwiliad fydd bod carcharor wedi'i amddifadu o'i eiddo a hynny'n amhriodol, ond nid oherwydd bod rhywun yn camwahaniaethu yn ei erbyn. Drwy ddilyn y dull datrys problemau, yn hytrach na dim ond cyhoeddi penderfyniad, byddai'r awdurdodau'n sicrhau bod yr eiddo'n cael ei ddychwelyd yn ddi-oed ac yn argymhell sut y gellid osgoi ailadrodd y broblem yn y dyfodol. Ffordd syml o annog dilyn dull o'r fath fyddai i bob achwynydd egluro'r hyn yr hoffai ei weld yn digwydd yn sgil yr ymchwiliad. Byddai camau syml fel hyn yn cyfrannu at newid diwylliant y carchardai, gan helpu i chwalu'r feddylfryd 'ni a nhw' ymhlith llawer o garcharorion sy'n gallu arwain at ymddygiad gwael a hyd yn oed at anhrefn.

Argymhelliad 27: Dylai carchardai fabwysiadu dull 'datrys problemau' wrth ymdrin â chwynion. Fel rhan o hyn, dylai pob achwynydd egluro'r hyn y mae'n dymuno'i weld yn digwydd yn sgil ymchwilio i'r gŵyn.

Newid diwylliant

Adolygiad Young/Grŵp Hyfforddiant a Menter Pobl Dduon - Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Mae gennym bellach nifer o garchardai mewn ardaloedd gwledig lle mae mwyafrif y boblogaeth yn BAME ond lle nad oes dim staff BAME.

Clinks – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Mae'n hanfodol darparu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion penodol carcharorion BAME ac sy'n deall profiadau a diwylliannau BAME'n iawn.

Transition to Adulthood (T2A) Alliance – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Roedd yr adolygiad o gydraddoldeb rhwng yr hiliau a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd yn 2008 yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu amrywiaeth y staff mewn carchardai ac fe wnaeth argymhellion i wireddu hyn, gan gynnwys gwella'r prosesau dethol, monitro, arweinyddiaeth, hyfforddiant a chymorth i staff.

Un o'r prif bethau sy'n sbarduno diwylliant ac ethos carchardai yw cyfansoddiad y staff. Ar hyn o bryd, dim ond 6% o swyddogion carchardai sy'n dod o gefndiroedd BAME.²⁶¹ O'i gymharu â phoblogaeth a oedd yn cynnwys 14% o bobl BAME yng Nghyfrifiad 2011 a phoblogaeth yn y carchardai sy'n cynnwys 26% o bobl BAME drwyddi draw, mae hyn yn dwysáu'r rhaniad rhwng y rheini sy'n gorfodi'r rheolau a'r rheini sy'n gorfod cydymffurfio â hwy.^{262 263}

Mae cyfle gwych i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi fynd i'r afael â hyn, wrth recriwtio 2,500 o swyddogion carchar. Wrth holi'r boblogaeth oedran gweithio, gwelir bod aelodau BAME o'r cyhoedd, mewn gwirionedd, yn cael eu denu i'r un graddau i weithio yn system y carchardai â'u cymheiriaid Gwyn. Yr her yw i'r Gwasanaeth daflu'r rhwyd yn ddigon eang i ddenu ymgeiswyr BAME dawnus - ac i sicrhau nad yw'r broses recriwtio nac yn eu rhoi dan anfantais nac yn eu digaloni os a phan fyddant yn ymgeisio.

Mae gan wasanaethau cyhoeddus allweddol dargedau clir ar gyfer recriwtio pobl BAME, ac mae'r Gweinidogion wedi cytuno â'r rhain a'r llywodraeth yn eu cefnogi. Er enghraifft, mae'r lluoedd arfog wedi ymrwymo i sicrhau y bydd 10% o'r holl recriwtiaid newydd erbyn 2020 yn dod o gefndir BAME.²⁶⁴ Yn yr un modd, mae'r heddlu wedi ymrwymo i sicrhau bod 20% o recriwtiaid newydd i'r heddlu'n dod o grwpiau BAME erbyn 2020.²⁶⁵ Ac ystyried y dystiolaeth bod system y carchardai'n gyflogwr deniadol i gymunedau BAME, dylid disgwyl i'r carchardai recriwtio mewn cyfrannau tebyg i'r wlad drwyddi draw o hyn ymlaen. Dylai arweinyddion carchardai sydd â phoblogaethau amrywiol o garcharorion gael eu dal yn arbennig o gyfrifol am sicrhau hyn pan fydd eu perfformiad yn cael ei werthuso. Yn y papur gwyn ar Ddiogelwch a Diwygio Carchardai, dywedir mai'r Byrddau Monitro Annibynnol yw llygaid a chlustiau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn carchardai, ond dim ond 5% o gadeiryddion y byrddau hyn sy'n BAME.²⁶⁶ Dylai'r Byrddau Monitro Annibynnol wella'u recriwtio yn yr un ffordd â'r carchardai y byddant yn eu monitro.

Mae'r hyn sy'n iawn i wasanaeth y carchardai drwyddo draw'n iawn i'w arweinyddiaeth hefyd. Mae angen i weithlu'r carchardai fod yn fwy amrywiol, er mwyn meithrin ymddiriedaeth yn y system ymhlith carcharorion, ond rhaid i hyn fynd i ben uchaf un ysgol y drefniadaeth. Yn y pen draw, yr arweinyddion sy'n gosod naws sefydliad, ac mae'n sefyllfa afiach iawn bod cyn lleied o unigolion BAME wedi cyrraedd swyddi grymus yn system ein carchardai. Dylai gwasanaeth y carchardai bennu targedau cyhoeddus ar gyfer symud corff o staff BAME drwodd i swyddi arwain dros y pum mlynedd nesaf. Dylai hyn ddigwydd ochr yn ochr â dangosyddion perfformiad ar gyfer carchardai sy'n anelu at sicrhau canlyniadau cydradd i garcharorion BAME a charcharorion Gwyn.

Argymhelliad 28: Dylid disgwyl i system y carchardai recriwtio cyfrannau tebyg i'r hyn a welir yn y wlad drwyddi draw. Dylai arweinyddion carchardai sydd â phoblogaethau amrywiol o garcharorion gael eu dal yn arbennig o gyfrifol am sicrhau hyn pan fydd eu perfformiad yn cael ei werthuso. Dylai'r Byrddau Monitro Annibynnol hefyd recriwtio ar sail yr un targed.

Argymhelliad 29: Dylai gwasanaeth y carchardai bennu targedau cyhoeddus ar gyfer symud corff o staff BAME drwodd i swyddi arwain dros y pum mlynedd nesaf.

Argymhelliad 30: Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ddatblygu dangosyddion perfformiad ar gyfer carchardai sy'n anelu at sicrhau triniaeth a chanlyniadau cydradd i garcharorion BAME a charcharorion Gwyn.

Casgliad

Mae gwahaniaethau yn system y carchardai a'r ystâd ieuencid sy'n destun pryder. Mae angen diwygio rhai agweddau pwysig ar frys, er enghraifft sut y bydd carcharorion yn cael eu hasesu wrth eu derbyn. Dylid sicrhau bod mwy o dryloywder a goruchwyliaeth dros feysydd ym mywyd y carchar sydd naill ai'n ddadleuol neu'n bwysig, gan gynnwys y system cymhellion ac ennill breintiau a defnyddio grym. Yn y pen draw, rhaid sicrhau systemau gwneud iawn mwy effeithiol pan fydd pethau'n mynd o'u lle.

Mae llawer o swyddogion carchar ymroddedig yn gweithio mewn gwasanaeth sy'n brin o staff ac yn gorfod delio ag unigolion heriol a all fod yn beryglus. O dan amgylchiadau heriol o'r fath, serch hynny, mae'n fwy pwysig yn hytrach nag yn llai pwysig, bod systemau ar waith i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd drwyadl a thryloyw, heb i duedd - boed honno'n duedd ymwybodol ynteu'n duedd anymwybodol – sleifio i mewn.

Serch hynny, yn fwy nag unrhyw un o'r diwygiadau unigol hyn, rhaid newid diwylliant carchardai, gan sicrhau llawer llai o raniad 'nhw a ni' rhwng swyddogion y carchar a charcharorion BAME. Y cyfraniad mwyaf y gellir ei wneud yw sicrhau gweithlu mwy amrywiol yn y carchar, gan gynnwys ymhlith y timau sy'n arwain.

Yn y bennod nesaf, byddwn yn archwilio sut y bydd y broses hon yn mynd rhagddi pan gaiff charcharorion eu rhyddhau o'r carchar.

Pennod 6: Adsefydlu

Rhagarweiniad

Amcangyfrifir bod adsefydlu'n costio rhwng £9.5 ac £13 biliwn y flwyddyn i'r trethdalwr, a bod hanner yr holl droseddu'n cael ei gyflawni gan y rheini sydd eisoes wedi bod drwy'r system cyfiawnder troseddol (SCT).²⁶⁷ Mae'r wobwr am sicrhau nad yw troseddwr sydd wedi bod drwy'r system yn llithro yn ôl i'w hen arferion, yn un sylweddol.

Bydd cyfraddau aildroseddu gan bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn amrywio. Er enghraifft, bydd dynion menywod, bechgyn a merched Asiaidd i gyd yn aildroseddu ar gyfraddau is na'u cymheiriaid gwyn.²⁶⁸ Bydd menywod a merched duon hefyd yn aildroseddu ar gyfraddau is na menywod a merched Gwyn.²⁶⁹ Serch hynny, cyfraddau aildroseddu dynion a bechgyn Duon yw'r uchaf, a 45% yn aildroseddu o fewn blwyddyn ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa, ar ôl cael cerydd, rhybudd neu euogfarn yn y llys nad arweiniodd at gyfnod yn y carchar.²⁷⁰

Mae aildroseddu'n arbennig o uchel ymhlith bechgyn Duon ifanc, a dros hanner (51%) y grŵp oedran 10-14 yn aildroseddu o fewn blwyddyn, o'u cymharu â 40% o fechgyn Gwyn.²⁷¹ Mae'r ffigurau hyn ar gyfer dynion a bechgyn Duon yn her fawr i'r gwasanaethau prawf, y Timau Troseddau Ieuenctid (TTI)

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar adsefydlu yn y gymuned. Mae'n dadlau:

- Mai bwriad y diwygiadau i'r gwasanaethau prawf a gyflwynwyd yn 2014 oedd sicrhau gwasanaethau prawf mwy ymatebol, a ddarperid gan ddarparwyr arbenigol a oedd yn deall anghenion grwpiau penodol. Serch hynny, nid ydynt wedi gwireddu'r addewid. Mae darparwyr bach wedi wynebu cael eu gwasgu o'r system, ac mae barn wrthrychol arolygiaethau²⁷², y Swyddfa Archwilio Gwladol²⁷³ a phwyllgorau dethol y senedd²⁷⁴ i gyd yn awgrymu nad yw adsefydlu wedi'i drawsnewid, o leiaf nid er gwell.
- Mae diffyg atebolrwydd o ran diwallu anghenion y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys troseddwr BAME - yn oedolion ac yn blant. Yn rhy aml o lawer, nid yw'r ddyletswydd cydraddoldeb yn sicrhau dim mwy na thicio blychau'n arwynebol. Yn y dyfodol, dylai pob Cwmni Adsefydlu Cymunedol gyhoeddi gwybodaeth fanwl am y canlyniadau i wahanol grwpiau ethnig a chrefyddol.
- Y system ieuenctid sy'n wynebu'r heriau mwyaf o ran aildroseddu gan bobl BAME, ond mae wedi bod yn araf yn gweithredu. Er 2011, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi bod yn treialu dull o fesur canlyniadau anghyfartal i bobl BAME er mwyn helpu TTI i sylwi ar broblemau yn eu hardaloedd - o gynnydd sydyn mewn troseddau penodol, i'r gyfradd torri amodau trwydded gan droseddwr o wahanol grwpiau ethnig.²⁷⁵ Serch hynny, nid oes digon wedi'i wneud i adeiladu ar sail y treialon hyn. Yn y cyfamser, mae'r gyfran o bobl BAME sy'n aildroseddu wedi bod yn tyfu.
- Rhaid i'r system cyfiawnder ieuenctid wneud rhagor i roi gwybod i gymunedau lleol am y problemau yn eu hardaloedd, er mwyn iddynt daflu goleuni arnynt a chynnig cymorth ymarferol. Nid dim ond ar y gwasanaethau statudol y mae angen y data hyn. Y wers gan awdurdodaethau eraill megis Canada a Seland Newydd, yw bod cymunedau lleol yn gallu taflu goleuni ar broblemau a chynnig cymorth hanfodol i leihau aildroseddu, pan gânt eu cynnwys yn y sgwrs.

- Rhaid i'r llywodraeth sylweddoli bod ymdrechion y gwasanaethau prawf, TTI a chyn-droseddwy'r hunain yn cael eu llyffetheirio gan drefn cofnodion troseddol sy'n rhwystr gwirioneddol i bobl rhag cael gwaith. Mae hon yn broblem benodol i ddynion a menywod ifanc ar ddechrau eu gyrfa. Dros y pum mlynedd diwethaf mae enwau 22,000 o bobl BAME o dan 18 oed wedi cael eu hychwanegu at gronfa ddata gyfrifiadurol genedlaethol yr heddlu.²⁷⁶ Dylai'r drefn cofnodion troseddol nid yn unig wahaniaethu'n llymach rhwng oedolion, ond dylai fod cyfle hefyd i gyn-droseddwy'r gyflwyno'r achos gerbron barnwr, y dylid selio'u cofnod troseddol.

Prawf

Sefydliad Rhyngwladol IARS - Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Mae potensial enfawr i asiantaethau cyfiawnder troseddol ddefnyddio dull cyfiawnder adferol i wella'r berthynas â chymunedau BAME. Yn gyntaf, byddai hyn yn golygu y byddai gan gymunedau fwy o ymddiriedaeth a hyder yn y system gan hwyluso mwy o ymgysylltu a gwell canlyniadau. Yn ail, byddai hefyd yn arwain at ddeall anghenion cymunedau a'u hanghenion yn well gan asiantaethau cyfiawnder troseddol a byddai hynny'n golygu bod modd llywio'n well y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a gwella'r ddarpariaeth.

Adolygiad Young/ Grŵp Hyfforddiant a Menter Pobl Dduon - Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Mae angen sicrhau bod anghenion troseddwy'r BAME/Mwslim yn cael eu dadansoddi a chamau i fynd i'r afael â hwy'n cael eu cynnwys yn rhaglenni diwygio'r llywodraeth er mwyn sicrhau canlyniadau teg. Rhaid i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r sicrhau'r cyfle hwn i arloesi a dilyn dulliau newydd er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau negyddol hyn sy'n llesteirio adsefydlu ac yn creu cyndynrwydd ymhlith troseddwy'r BAME.

Arolygiaeth Prawf EM: An Inspection of Through the Gate Resettlement Services for Short-Term Prisoners

Ar y gorau, gwelsom mai llafurus oedd ymdrechion y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Ar ben hynny, yn aml iawn maent yn cael eu llesteirio a'u rhwystro oherwydd aneffeithiolrwydd y gwaith sgrinio cychwynnol ar garcharorion. Bydd y gwaith sgrinio'n cael ei wneud gan staff prysur yn y carchar ac nid yw'r drefn yn addas at y diben o gwbl. Yn ein barn ni, rhaid newid y system hon o'i chw'r er mwyn i'r rheini sy'n gyfrifol am adsefydlu (Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol) roi cychwyn da ar bethau ym mhob achos.

Yn 2014, diwygiwyd gwasanaeth prawf i oedolion yn llwyr. Yn lle 35 o ymddiriedolaeth prawf drwy Gymru a Lloegr, sefydlwyd un Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC), i fod yn gyfrifol am oruchwylio'r troseddwr a berai'r risg fwyaf, a 21 o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol, i ymdrin â throseddwr risg isel i ganolig²⁷⁷. Cynhaliwyd cystadleuaeth i benodi perchnogion y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, ac fe gafodd darpar gyflenwyr fidio am contractau.

Talu'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ôl Canlyniadau²⁷⁸

Bydd y Cwmnïau'n cael tri phrif daliad o dan eu contractau:

1. 'ffi am wasanaeth', am gwblhau gweithgareddau mandadol gyda throseddwr yn foddhaol o dan y contract ;
2. 'ffi am ddefnyddio' ar gyfer gwaith a wneir i bartïon eraill, yn enwedig os bydd y GPC yn comisiynu'r Cwmnïau i ddarparu gwasanaethau penodol ar gyfer ei droseddwr risg-uwch ei hun. Rhagweiler y bydd taliadau'r ffi am ddefnyddio i'r Cwmnïau yn 2015-16 oddeutu £20.6 miliwn yn Lloegr ac yn £1.8 miliwn yng Nghymru²⁷⁹; a
3. bydd taliadau ar sail canlyniadau'n cael eu cyfrifo drwy asesu'r gostyngiad yn y lefelau aildroseddu dros gyfnod monitro o 12 mis, ar sail graddfa daliadau o hyd at £4,000 y troseddwr sy'n ymatal a £1,000 am bob trosedd a osgoir.²⁸⁰

Mae'r taliadau ar sail canlyniadau'n rhyw 10% o gyfanswm y taliadau a ragwelir i'r holl Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Y bwriad oedd y byddai'r model newydd yn fwy ymatebol i anghenion gwahanol grwpiau o droseddwr. Roedd cyflenwyr i fod i gael cymhellion i ddod o hyd i atebion arloesol i leihau aildroseddu drwy fecanwaith 'talu ar sail canlyniadau' (gweler y blwch isod), ond byddai'r opsiwn iddynt hefyd is-gontractio i sefydliadau eraill a allai gynnig arbenigedd arbenigol. Mewn theori, dylai hyn fod wedi helpu i ddiwallu anghenion penodol gwahanol grwpiau BAME sydd ag angen gwasanaethau o bosibl sy'n sensitif i gyd-destunau diwylliannol neu'n deall eu hanghenion penodol Er enghraifft:

- Mae'r prosiect Menywod Mwslimaidd yn y Carchar wedi gweld bod llawer o stigma a thabw ynghylch menywod Mwslimaidd yn y carchar a bod agweddau at droseddwr Mwslimaidd gwryw a benyw, am ba reswm bynnag, yn wahanol iawn.²⁸¹ Nid oes wnelo'r broblem, yn ôl yr hyn a ddadleuir yn yr adroddiad, ag agweddau mewn rhai rhannau o'r gymuned Fwslimaidd ei hun, ond bod rhai sefydliadau wedi bod yn betrus rhag gweithio gyda menywod Mwslimaidd oherwydd amrywiaeth o stigma ag anwybodaeth am y cyd-destun diwylliannol. Dim ond sefydliadau sy'n deall y materion hyn yn iawn sy'n gallu darparu gwasanaethau llwyddiannus.
- Mae llawer o Sipsiwn, Roma a Theithwyr heb gyfeiriad sefydlog ac maent wedi byw eu bywydau rywfaint ar wahân i'r gwasanaethau cyhoeddus. Ychydig o ymchwil sydd wedi'i wneud i anghenion oedolion o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd wedi troseddu, ond mewn gwaith diweddar a oedd yn edrych ar anghenion pob o dan 18 dan glo, gwelwyd bod bechgyn o'r cefndiroedd hyn yn llai tebygol na phobl eraill yn y ddalfa o wybod â phwy y dylent gysylltu i gael help i agor cyfrif banc, i ddod o hyd i lety neu i gael gafael ar wasanaethau gofial iechyd yn y gymuned. Bydd gwasanaethau prawf sy'n ansensitif i'r materion hyn bob tro'n debygol o fethu - fel y mae mudiad y Teithwyr ac eraill wedi'i

ddadlau, mae'n debygol y bydd angen cymorth wedi'i deilwra'n arbennig ar garcharorion o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y carchar ac ar ôl eu rhyddhau.²⁸²

- Mae rhai materion nad ydynt yn benodol berthnasol i grŵp arbennig, ond efallai y byddant yn fwy tebygol o fod yn bresennol ymhlith rhai grwpiau. Ymhlith dynion ifanc duon y gwelir y cyfraddau aildroseddu uchaf, er enghraifft (gweler y blwch isod).²⁸³ Mae dros hanner bechgyn Duon wedi'u magu ar aelwydydd un rhiant, a byddent yn elwa o gael mentoriaid gwryw yn eu bywyd. Yng ngolwg llawer o'r rhain, dim ond os byddant yn deall y cymunedau lle maent yn byw y bydd gan yr mentoriaid hyn unrhyw hygrededd.

Prif Arolygwyr y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf

Petai gwasanaethau Drwy'r Gât yn diflannu yfory, yn ein barn ni, ni chât hynny fawr o effaith ar ailsefydlu carcharorion.

Hyd yn hyn, nid yw theori'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi'i gwireddu. Mewn cyd-arolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a gyhoeddwyd yn 2017, canfuwyd bod troseddwr sy'n cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn fwy tebygol o gael y mathau o gymorth sydd eu hangen arnynt na'r rheini sy'n cael eu rheoli gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Roedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn fwy tebygol o fod wedi helpu troseddwr i ddod o hyd i lety, i gael gafael ar hyfforddiant neu waith, neu i fynd i'r afael â phroblemau ariannol, dyledion neu fudd-daliadau.²⁸⁴

Yn y cyfamser, nid yw'r addewid y byddai darparwyr mwy o faint yn is-gontractio'n effeithiol i'r rheini sydd ag arbenigedd arbenigol wedi'i chyflawni fel yr oedd llawer wedi'i obeithio. Mae cyrff gwirfoddol BAME, sydd â gwybodaeth arbenigol ac yn perthyn i rwydweithiau, ymhlith y rheini y byddai rhywun wedi disgwyl iddynt fod yn rhan o'r cadwyni cyflenwi hyn. Canfu adroddiad gan Sefydliad Baring am fudiadau BAME yn y sector gwirfoddol fod y cyllid i sefydliadau BAME ryw hanner y cyfartaledd, ac wrth holi grwpiau BAME, gwelwyd bod eu cyllid yn gostwng yn gyflymach nag y mae cyllid elusennau'r brif ffrwd.²⁸⁵

Os bwriedir parhau â model y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod lle i ddarparwyr elusennol llai o faint yn y system. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n comisiynu Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, gynnull gweithgor i drafod y rhwystrau rhag is-gontractio mwy effeithiol. Dylai'r gweithgor gynnwys y Cwmnïau eu hunain a thrawstoriad o gyrff llai, gan gynnwys rhai sy'n canolbwyntio'n benodol ar faterion BAME, yn ogystal â chyrff ambarél megis Clinks. Dylai'r grŵp gyfarfod yn rheolaidd a gweithio drwy'r hyn sydd ei angen er mwyn gwneud i'r system weithio yn y ffordd y bwriedid iddi weithio.

Argymhelliad 31: Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gynnull gweithgor i drafod y rhwystrau rhag is-gontractio mwy effeithiol gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Dylai'r gweithgor gynnwys y Cwmnïau eu hunain a thrawstoriad o gyrff llai, gan gynnwys rhai sy'n canolbwyntio'n benodol ar faterion BAME.

Mae problem benodol hefyd o ran atebolrwydd am ganlyniadau BAME. Gan eu bod yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, mae'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gorfod cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus²⁸⁶. Bydd llawer ohonynt yn cyhoeddi adroddiadau cydraddoldeb blynyddol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Ffurf wan ar atebolrwydd yw hyn. Mae adroddiadau'r Cwmnïau'n amrywio o ran eu hansawdd, rhai ohonynt yn drwyadl ac yn gyfuriog o ddata, ond eraill yn amwys ac yn cynnig fawr fwy nag argraffiadau. Dim ond cyfrif cryno a

geir gan rai: cyn lleied â dwy frawddeg am ethnigrwydd troseddwr, a dim data o gwbl am ganlyniadau. Nid yw ticio blychau fel hyn yn ddigon da.

Mae rhai o'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn rhoi manylion y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig a chrefyddol²⁸⁷ - dylai hyn fod yn ofyniad iddynt i gyd. Dim ond os bydd y llywodraeth yn dweud yn benodol ac yn fanwl pa ddata y dylai'r Cwmnïau eu cyhoeddi y bydd hyn yn digwydd yn gyson. Dylid cynnwys hyn yn y contractau a'i orfodi drwy gosbi am fethu â chydymffurfio. Dylid cyhoeddi'r data ar fformat sy'n caniatáu i reolwyr contractau a phobl ar y tu allan - o ymgrychwr cymdeithas sifil i bwyllgorau dethol y senedd, neu'r Swyddfa Archwilio Gwladol - graffu ar berfformiad y Cwmnïau. Fel y mae'r adroddiad hwn wedi'i ddadlau drwyddo, dim ond pan fydd camau gweithredu'n agored i graffu y llwyddir y sicrhau'r canlyniadau gorau.

Argymhelliad 32: Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder fanylu ynghylch y data sy'n berthnasol i nodweddion gwarchoddedig y dylai'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol eu casglu a'u cyhoeddi. Dylid cynnwys hyn yn y contractau a'i orfodi drwy gosbi am fethu â chydymffurfio.

Aildroseddu gan bobl ifanc

Transition to Adulthood (T2A) Alliance – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Bydd oedolion ifanc BAME yn wynebu lefelau uwch o amddifadedd ac anfantais a all olygu eu bod yn fwy tebygol o droseddu ac aildroseddu. Er enghraifft, ymhlith dynion ifanc duon y gwelir y gyfradd ddiweithdra uchaf ymhlith oedolion ifanc yn y Deyrnas Unedig, gydag ychydig o dan 50% ohonynt yn ddi-waith.

Cynghrair Dysgu Carcharorion - Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Un elfen allweddol o'r theori ynglŷn ag ymatal rhag troseddu yw cysylltiadau a meithrin 'cyfalaf cymdeithasol'. Yn yr adolygiad thematig diweddar gan yr Arolygiaeth Prawf a oedd yn ystyried ymatal rhag troseddu ymhlith pobl ifanc, gwelwyd mai'r thema fwyaf cyson a gododd wrth ddadansoddi eu hymatebion oedd pwysigrwydd perthynas weithio gadarnhaol ag o leiaf un aelod o'r staff, a gallu ymddiried yn yr aelod hwnnw.

Yn wahanol i'r gwasanaethau i oedolion, mae'r system cyfiawnder ieuenctid wedi sylweddoli a chydabod yn gynt o lawer y gwahaniaethau cynyddol yn y canlyniadau i droseddwr BAME. Mae'r gwahaniaethau hyn yn y canlyniadau'n arbennig o amlwg ar gyfer troseddwr ifanc Duon (gweler y blwch isod).

Cyfraddau aildroseddu pobl ifanc²⁸⁸

Ym mis Mawrth 2015, dyma gyfran y troseddwr 10 - 17 oed a aildroseddodd yn ôl eu grwpiau ethnig:

- 46% o'r rheini a gofnodwyd yn bobl Dduon;
- 36% o'r rheini a gofnodwyd yn bobl Wyn;
- 38% o'r rheini a gofnodwyd yn rhai a oedd yn perthyn i grŵp ethnig Arall; a
- 33% o'r rheini a gofnodwyd yn bobl Asiaidd;

Serch hynny, er nad oes modd gwadu llwyddiant y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a'r TTI lleol yn lleihau'r cyfanswm a ddaeth i mewn i'r SCT am y tro cyntaf a nifer y plant mewn sefydliadau i bobl ifanc, mae'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r canlyniadau gwahanol i bobl ifanc BAME wedi bod yn ddychrynlyd o araf.

Yn 2010, cyhoeddodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid 'Exploring the needs of young Black and Minority Ethnic offenders and the provision of targeted interventions'.²⁸⁹ Canfu'r adroddiad hwn fod angen gwella arferion cofnodi ethnigrwydd mewn TTI ac yn yr ystâd ddiogel, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc o gefndir ethnig Cymysg. Os yw'r system cyfiawnder ieuencid am ymateb yn briodol i anghenion pob person ifanc, maen hanfodol bod ganddi'r data cywir ar gyfer gwneud hyn. Aeth yn ei flaen i ddweud ei bod yn rhaid cofnodi ethnigrwydd person ifanc yn gywir ar lefel genedlaethol a lleol, er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau'n effeithiol.

Yn 2011, ychwanegodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid agwedd ethnigrwydd at ei dulliau monitro olrhain-byw a'i hybu ymhlith ymarferwyr yn y sector.²⁹⁰ Fel yr eglurodd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar y pryd, fe'i datblygwyd yn sgil ceisiadau gan y TTI, ac i gydnabod bod mynd i'r afael â sefyllfaoedd anghyfartal yn hollbwysig i berfformiad y timau.²⁹¹

Ond adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw Canolfan Adnoddau Cyfiawnder Ieuencid, adnodd arlein y Bwrdd ar gyfer y gymuned cyfiawnder ieuencid a 'siop-un-stop' i ymarferwyr ond yn cynnwys pedair enghraifft o'r arferion gorau sy'n ymwneud yn benodol â gweithio gyda phlant BAME, a chanllaw ar gyfer ymarferwyr cyfiawnder adferol ar gyfer gweithio gyda phlant BAME.

Yn 2014, dechreuodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid weithio ar becyn diffyg tegwch a'i brofi i ddechrau gyda 2 TTI. Yn 2015, lanswyd cam arall, ac fe gymerodd 14 o TTI ran yn hyn. Nod y pecyn oedd tynnu sylw at wahaniaethau mwy sylweddol yn y canlyniadau i leiafrifoedd ethnig yn ystod gwahanol gamau o'u taith drwy'r SCT.

Gan ddefnyddio data o 2014-2015, gwnaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ddadansoddiad cychwynnol, lefel-uchel o ganfyddiadau pob TTI a gymerodd ran. Y sgil hyn, gwelwyd nifer o bethau a oedd yn destun pryder i'r timau unigol. Er enghraifft, roedd achosion lle'r oedd:

- plant BAME, ac yn benodol blant Duon, yn fwy tebygol o gael eu rhoi ar remand i'w cadw dan glo na'u cymheiriaid gwyn;
- roedd tystiolaeth o blant BAME yn cyflawni troseddau llai difrifol, ac eto'n dal i gael eu dedfrydu i'w cadw dan glo;
- roedd tystiolaeth bod plant BAME yn mynd i mewn i'r SCT yn iau na'u cymheiriaid gwyn; ac
- Roedd plant BAME yn fwy tebygol o ailroeddu na'u cymheiriaid gwyn.

Er bod y pethau hyn yn destun pryder, ni ddadansoddwyd y canfyddiadau mewn ffordd gynhwysfawr erioed, ac felly collwyd cyfle i ddysgu gwersi ar draws y system cyfiawnder ieuencid. A chofio bod y gyfran gyffredinol o blant BAME sy'n ailroeddu wedi parhau i gynyddu er 2011, a'r potensial sylweddol i lawer o'r garfan hon ddiweddu yn y system oedolion drwy ailroeddu'n fynych, mae angen rhoi sylw i'r gwersi hyn a gweithredu arnynt ar frys.

Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ddweud nid dim ond yr hyn y mae wedi'i ddysgu yn sgil y data am y sefyllfa anghyfartal a wynebwr gan BAME, ond hefyd y camau mwyaf effeithiol y mae TTI wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hyn. Dylai'r adroddiad fod yn ddi-flewyn ar dafod am yr heriau sydd wedi codi yn ystod y cyfnod treialu, gan gynnwys yr adegau hynny lle mae TTI unigol wedi bod yn araf i weithredu ar sail y wybodaeth a gawsant.

Argymhelliad 33: Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder leuencid gomisiynu a chyhoeddi gwerthusiad llawn o'r hyn sydd wedi'i ddysgu yn sgil treialu ei becyn diffyg tegwch, gan nodi camau neu ymyriadau posibl y dylid eu cymryd.

Nid dim ond ar TTI y mae angen darlun llawnach o'r problemau yn eu hardaloedd sy'n arwain at droseddu ac aildroseddu. Mae angen gwell gwybodaeth a gwybodaeth haws cael gafael arni ar gymunedau hefyd er mwyn iddynt ddod yn rhan o'r ateb i broblemau dyfnion megis troseddau'n ymwneud â chyllyll neu droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru a Lloegr. Ni fydd modd byth i'r gwasanaethau statudol ddatrys y problemau hyn ar eu pen eu hunain - ni allant wneud hynny heb gefnogaeth rhieni, athrawon, meddygon, arweinyddion y gymuned, sefydliadau ffydd ac eraill sy'n rhannu'r cyfrifoldeb beunyddiol am bobl ifanc.

Mae un model ar gyfer cynnwys y gymuned i'w gweld yn New South Wales, Awstralia. Mewn prosiect arloesol, llwyddwyd i feithrin partneriaeth yn nhref Bourke, nid dim ond rhwng gwahanol wasanaethau, na hyd yn oed rhwng gwahanol sectorau, ond â'r gymuned ei hun. Mae hyn wedi golygu llawer mwy na'r model ymgynghori safonol, lle bydd llunwyr polisi'n creu eu cynlluniau ac yn gwahodd pobl eraill i gynnig eu sylwadau. Yn hytrach, mae prosiect Bourke, dan arweiniad mudiad o'r enw 'Just Invest', wedi golygu sgwrs ddyfnach o lawer am y problemau yn yr ardal a sut y gellid rhannu'r cyfrifoldeb am eu datrys (gweler y blwch). Dim ond pan gaiff cymunedau eu hunain gyfle i gael gafael ar ddata am fywyd yn eu hardal y gall hyn weithio. Mae hyn yn creu cysylltiad rhwng eu profiad a'u dirnadaeth hwy a'r darlun ehangach.

New South Wales – cynnwys y gymuned²⁹²

Mae Bourke, tref fach yn New South Wales, Awstralia, wedi bod yn arloesi gyda dull newydd o gynnwys y gymuned leol i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o leihau troseddu ac aildroseddu. Dechreuodd y prosiect drwy sylweddoli bod dros \$4 miliwn bob blwyddyn cael ei wario'n rhoi plant a phobl ifanc dan glo yn Bourke (poblogaeth 2,047).

Casglwyd data i adrodd stori person ifanc drwy'r SCT gan gyfeirio at bethau megis troseddu, dargyfeirio, mechnïaeth, dedfrydu a chosbi a'r cyfraddau aildroseddu. Ond nid yw'r prosiect wedi'i gyfyngu i'r SCT ei hun. Casglwyd data hefyd am ganlyniadau bore oes, addysg, cyflogaeth, tai, gofal iechyd, diogelwch plant, a chanlyniadau iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a chyffuriau ac alcohol. Rhannwyd y data a'u trafod ag aelodau'r gymuned mewn fforymau dan arweiniad hwyluswyr lleol. Yna, defnyddio adborth y gymuned i lywio datblygu cynllun yn dangos sut beth fyddai llwyddo a sut y dylid ei fesur.

Mae'r rhaglen hefyd yn rhoi sylw difrifol i gyllido. Yn ystod y cam cynllunio, lluniwyd map gwasanaethau i ddangos i ble y bydd yr arian yn llifo, gan ddechrau yn y 'blynyddoedd cynnar', a chan ddilyn drwodd i'r SCT. Yn ystod y cam gweithredu, rhwng 2015 a 2019, bydd gwaith modelu economaidd yn cael ei wneud i ddangos yr arbedion sy'n gysylltiedig â'r strategaethau a luniwyd i leihau troseddu. Yn ystod cam nesaf y prosiect, cytunir ar gronfa o gyllid ac ar gyfer hyn, bydd angen achos busnes cryf a chefnogaeth gan y Trysorlys.

Gwaith, Addysg a Hyfforddiant

Unlock – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Bydd pobl o bob cefndir yn straffaglu ar ôl ymadael â'r SCT - mae hyn yn aml, yn rhannol o leiaf, o ganlyniad i'r cofnod troseddol sy'n aros gyda nhw. Oherwydd y stigma a'r gwahaniaethu o du'r gymdeithas yn gyffredinol tuag at bobl â chofnod troseddol, ac agweddau cyflogwyr, darparwyr tai ac yswirwyr yn benodol, mae'n anodd i bobl sydd â chofnod troseddol fyw bywydau cadarnhaol yn y dyfodol.

Cymdeithas yr Ynadon – Cyflwyniad ysgrifenedig i'r Cais am Dystiolaeth: Mehefin 2016

Ac ystyried effaith cofnodion troseddol blaenorol ar adroddiadau cyn-dedfrydu, gallai unrhyw annhegwch blaenorol yn y SCT yn ei dro arwain at argymhellion diweddarach.

Mae angen gwasanaethau effeithiol a chymunedau cefnogol ar gyn-droseddwyr, ond yn anad dim arall, mae angen gwaith arnynt. Mae swydd yn golygu nad yw rhywun yn dibynnu ar droseddu am incwm, ac mae cyfle i gael addysg neu hyfforddiant yn hybu hunan-barch ac yn rhoi buddiant i gyn-droseddwyr yn y gymdeithas ac yn eu dyfodol hwy eu hunain.

Bydd carcharorion sy'n dod o hyd i waith pan gânt eu rhyddhau'n llai tebygol o aildroseddu na'r rhai sy'n methu â gwneud hynny.²⁹³ Mae cyfraddau aildroseddu hefyd yn uwch ymhlith grwpiau ethnig sydd â chyfraddau diweithdra uwch.²⁹⁴ Er enghraifft, dwy flynedd ar ôl cael rhybuddiad, euogfarn neu gael eu rhyddhau o'r carchar, roedd 28% o Asiaid yn ddi-waith, o'u cymharu â 40% o gyn-droseddwyr Duon a oedd yn ddi-waith.²⁹⁵ Ymhlith troseddwyr duon y gwelir y cyfraddau aildroseddu uchaf ac ymhlith Asiaid y cyfraddau isaf.²⁹⁶

Mae'r gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf yn gwario miliynau o bunnoedd bob blwyddyn ar gynlluniau i wella siawns troseddwyr o gael gwaith, boed hynny drwy addysg a hyfforddiant, help i baratoi CV, profiad gwaith neu baratoi ar gyfer cyfweiliadau. Yn yr un modd, rhoddir y dasg i TTI a'u partneriaid cyflawni lleol wneud yr un gwaith ar gyfer plant. Ond un o'r pethau pwysicaf sy'n rhwystro rhagolygon unrhyw gyn-droseddwr o gael gwaith yw rhywbeth sy'n cael ei greu drwy bolisi cyhoeddus: y drefn cofnodion troseddol.

Y brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag euogfarnau yw Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a'r ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.²⁹⁷ Mae'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr yn dweud am faint y bydd yn rhaid i droseddwyr ddisgwyl ar ôl cael euogfarn neu ddedfryd o garchar cyn i'r cofnod troseddol ddarfod ac na fydd angen ei ddatgelu rhagor ar gais am swydd.²⁹⁸ Er enghraifft, rhaid i unrhyw oedolyn sy'n bwrw dedfryd hwy na 30 mis ond llai na phedair blynedd yn y carchar aros saith mlynedd ar ôl cwblhau eu dedfryd er mwyn i'w cofnod troseddol ddarfod.²⁹⁹ Bydd cofnod dedfrydau hwy na phedair blynedd byth yn ddarfod nac i oedolion na phlant (gweler Tabl 10). Yn ogystal â hynny, bydd rhai swyddi lle yr ystyrir bod y cofnod y trosedd wedi ddarfod ond y bydd y cofnod hwnnw'n dal i ymddangos yn ystod archwiliad safonol neu fanylach o'r cofnod troseddol - a elwir yn archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio yn y sector gofal neu ddod yn yrrwr tacsis trwyddedig.

Tabl 8: Cyfnodau 'darfod' cofnod o ddedfrydau³⁰⁰

Math o ddedfryd		Oedolyn	Plentyn
Dedfryd o garchar (gan gynnwys dedfryd ohiriedig)	Dros 4 blynedd neu ddedfryd amddiffyn y cyhoedd	Byth yn darfod	Byth yn darfod
	Mwy na 30 mis a llai na (neu'r hyn sy'n cyfateb i) 4 blynedd	Dedfryd lawn + 7 mlynedd	Dedfryd lawn + 3.5 mlynedd
	Mwy na 6 mis a llai na (neu'r hyn sy'n cyfateb i) 30 mis	Dedfryd lawn + 4 blynedd	Dedfryd lawn + 2 flynedd
Gorchymyn cymunedol / Gorchymyn adsefydlu ieuenctid	Llai na 6 mis neu'r hyn sy'n cyfateb iddo	Dedfryd lawn + 2 flynedd	Dedfryd lawn + 18 mis
		Hyd lawn y gorchymyn + blwyddyn	Hyd lawn y gorchymyn + 6 mis

Caiff cyflogwyr ofyn am archwiliad sylfaenol, safonol neu uwch, a dibynnu ar y swydd y bydd unigolyn yn gwneud cais amdani (gweler Tabl 9) - ni fydd rhai cyflogwyr yn gofyn am wiriad o gwbl. Er 2013, mae proses 'hidlo' newydd wedi'i chyflwyno, sy'n golygu hyd yn oed ar gyfer archwiliadau safonol ac uwch na fydd rhai hen fân euogfarnau a rhybuddiadau cael eu datgelu. Er enghraifft, mae troseddau lladrad, a meddw ac afreolus, yn droseddau a fydd, ar ôl nifer o flynyddoedd, yn cael eu hidlo (ar yr amod na fydd gan y ceisydd lawer o euogfarnau). Serch hynny, mae rhai troseddau, megis ffrwgwd neu gyflenwi cyffuriau, nad oes byth modd eu hidlo.³⁰¹

Tabl 9: Mathau o Archwiliadau Cofnodion Troseddol³⁰²

Math	Datgelir drwy:		
	Archwiliad sylfaenol	Archwiliad safonol	Archwiliad manylach
Euogfarnau heb ddarfod	✓	✓	✓
Euogfarnau heb ddarfod		✓ (oni fydd wedi'i hidlo)	✓ (oni fydd wedi'i hidlo)
Rhybuddiadau		✓ (oni fydd wedi'i hidlo)	✓ (oni fydd wedi'i hidlo)
Cofnodion perthnasol yr heddlu lleol			✓
Gwybodaeth am restrau gwahardd sy'n berthnasol i blant/oedolion			✓
Swyddi y caiff cyflogwyr fynnu archwiliad ar eu cyfer	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddi yn y Llywodraeth/gwasanaeth sifil • Swyddi mewn meysydd awyr • Gwaith swyddfa • Y diwydiant croeso • Manwerthu, archfarchnadoedd • Trwydded bersonol i werthu alcohol 	<ul style="list-style-type: none"> • Trwydded ar gyfer y diwydiant diogelwch • Cyfreithiwr neu Fargyfreithiwr • Cyfrifydd • Milfeddyg • Rolau a Gymeradwyir gan yr FCA • Stiwardiaid Pêl-droed • Warden traffig • Triniwr cleon 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed • Athro/Athrawes • Gweithiwr Cymdeithasol • Gweithiwr proffesiynol yn y GIG • Gofalwr • Trwyddedau gyrru tacsis


Dros y pum mlynedd diwethaf mae enwau 127,000 o blant wedi cael eu hychwanegu at gronfa ddata cyfrifiadurol cenedlaethol yr heddlu.³⁰³ O blith y rhain roedd 22,000 yn BAME. Bydd y rhain yn cynnwys ystod eang o droseddau, gan gynnwys mân droseddau megis rhybuddiad neu gerydd gan yr heddlu. Gallai eu henwau ymddangos yn y dyfodol wrth archwilio cofnodion ar gyfer gyrfaedd sy'n amrywio o fod yn gyfrifydd neu'n gyfreithiwr i weithio fel warden traffig neu stiward pêl-droed.³⁰⁴

Crëwyd ein trefn cofnodion troseddol er mwyn amddiffyn y cyhoedd, ond mae ei heffaith yn groes i hynny. Drwy godi rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gwaith, mae'r system yn dal troseddwr ym magl eu gorffennol, gan wadu incwm i'w dibynyddion, a chostio arian i'r trethdalwr. Mewn arolwg gan YouGov yn 2016, gwelwyd na fyddai hanner yr ymatebwyr yn ystyried cyflogi troseddwr neu gyn-droseddwr.³⁰⁵ Yn y cyfamser, mae troseddwr eu hunain yn teimlo'n gyndyn o wneud cais am swyddi. Mewn un arolwg ymhlith carcharorion yn Ngharchar Ei Mawrhydi Nottingham, gwelwyd bod 92% yn awyddus i weithio ar ôl eu rhyddhau, ond mai dim ond traean a ddywedodd y byddent yn gwneud cais am swydd os oedd y ffurflen gais yn cynnwys blwch yn gofyn am hanes euogfarnau.³⁰⁶

Mae effaith ein trefn cofnodion troseddol ar blant ac oedolion ifanc yn destun pryder penodol. Fel yr oedd Arolwg Taylor o Gyfiawnder Ieuencid yn ei gydnabod, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y rhan

fwyaf o bobl ifanc rhoi'r gorau i droseddu wrth aeddfedu. Mae pobl ifanc yn aeddfedu ar wahanol oedran, mae unigolyn yng nghanol ei ugeiniau yn sylweddol lai tebygol o aildroseddu nag y byddai ychydig flynyddoedd ynghynt (gweler Ffigur 7). I bobl ifanc BAME, mae'r gosb yn ddeublyg, gan fod astudiaethau'n dangos bod dim ond cael enw sy'n gysylltiedig â chefnidir Pacistani, Bangladeshi, Indiaidd, Tseinaidd neu Garibeaid Du yn gallu lleihau'r siawns y caiff ymgeisydd gyfweiliad am swydd.³⁰⁷

Ffigur 7: Troseddwr fel cyfran o'r boblogaeth: yn ôl rhyw ac oedran 2007³⁰⁸



1 Pobl a gafwyd yn euog neu a gafodd rybuddi am droseddau ddiadwy yn 2007.
2 Mae 26 oed yn cynnwys y troseddwr hynny nad yw eu hoedran yn hysbys.

Gall pobl newid yn gyflym, ond nid yw eu cofnod troseddol yn newid. Er enghraifft, gall rhywun 18 oed sy'n bwrw dedfryd saith mis orfod aros tan ganol ei ugeiniau cyn i'r cofnod o'r euogfarn honno ddarfod - a hyd yn oed wedyn, bydd y cofnod yn dal yn berthnasol i rai swyddi. Gall gwerthu cyffuriau yn eich ardegau eich rhwystro rhag dod yn blymiwr neu'n yrrwr tacsis trwyddedig yn eich tridegau. Yn rhy aml, bydd oedolion ifanc yn gweld eu cofnod troseddol yn eu dal yn ôl mewn cyfnod allweddol yn eu bywyd gwaith.³⁰⁹

Mae angen diwygio'r system cofnodion troseddol ac mae nifer gynyddol o leisiau'n cydnabod hyn. Mae ymgyrch drwy'r wlad ar y gweill i 'wahardd y blwch', sy'n ceisio dileu'r blwch ticio 'datgelu cofnod troseddol' oddi ar ffurflenni cais am swydd. Y syniad yw bod cofnodion troseddol yn cael eu hystyried yn ddiweddarach yn ystod y broses ymgeisio am swydd, gan roi cyfle i gyn-droseddwr ddangos eu sgiliau a'u galluoedd yn gyntaf, yn hytrach na chael ei diystyru ar y cychwyn un. Cynllun gwirfoddol yw hwn, ond mae'n dechrau magu cefnogaeth yng Nghymru a Lloegr, a'r gwasanaeth sifil wedi cytuno i'w roi ar waith yn ddiweddar.³¹⁰

Serch hynny, mae'r ymgyrch 'gwahardd y blwch' yn delio â *pha bryd* y bydd archwiliadau o'r cofnod troseddol yn cael eu gwneud yn ystod y broses recriwtio, yn hytrach nag â'r cwestiwn pwysicach sef a yw cofnodion troseddol yn berthnasol ac a oes angen eu datgelu mor aml ag y bydd y system bresennol yn ei fynnu. Dyma'r cwestiwn y mae angen mynd i'r afael ag ef - yn enwedig i bobl ifanc sydd â chyfnod mor bwysig o'u blaen yn eu bywyd gwaith - fel y mae Adolygiad Taylor hefyd wedi'i gydnabod.³¹¹

Mae cynigion diwygio blaenorol wedi canolbwyntio ar sicrhau bod system cofnodion troseddol 'unfath i bawb' yn fwy hael, gan amlaf i bobl ifanc. Mae'r cynigion yn tueddu i gwtogi'r amser a gymerir cyn ystyried ei bod yn bryd i gofnod troseddol 'ddarfod'. Rwy'n gryf o blaid argymhellion Adolygiad Taylor, a restrir yn y blwch isod. Serch hynny, rwy'n meddwl nad yw'r system 'unfath i bawb' ei hun yn addas at y diben. Mae angen mynd ati mewn ffordd newydd.

Adolygiad Taylor o gofnodion troseddol³¹²

Mewn egwyddor, credaf y dylai'r cyfnodau adsefydlu ar gyfer troseddu yn ystod plentyndod fod yn fyrrach o lawer nag ar gyfer oedolion sy'n troseddu. Bydd fy nghynigion i ddisodli dedfrydau presennol y llysoedd â Chynlluniau wedi'u teilwra'n arbennig a ddatblygir gan Baneli Plant (gweler Pennod 4) yn golygu bod angen newid y ddeddfwriaeth berthnasol. Credaf y dylai'r llywodraeth fanteisio ar y cyfle i hwn i ostwng eto'r cyfnodau cyn y bydd euogfarnau plant yn darfod.

Credaf hefyd, ar ôl i rybuddiadau ac euogfarnau plant ddarfod, y dylent ddod yn fuan iawn yn rhai y gwaherddir eu datgelu, hyd yn oed ar wiriadau safonol a manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Yn fy marn i, dylai'r system sicrhau y gwaherddir datgelu'r holl droseddau a gyflawnir yn ystod plentyndod (ac eithrio'r troseddau mwyaf difrifol) ar ôl cyfnod. Ni fyddai hyn yn atal yr heddlu a'r llysoedd rhag cael gafael ar y wybodaeth yn y dyfodol, ond byddai'n gwarchod rhag datgelu gwybodaeth amherthnasol am droseddu am yn ystod plentyndod, hyd yn oed os cyflawnir trosedd arall ar ôl i'r cyfnod cymhwyso ddod i ben.

Mewn gwledydd eraill, mae mwy o hyblygrwydd o lawer wedi'i adeiladu i'r system. Yn Nhalaithe Massachusetts yn yr Unol Daleithiau, er enghraifft, mae troseddwr sy'n credu y gallant ddangos eu bod wedi ymddiwygio ac nad ydynt yn fygythiad i bobl eraill rhagor, ddeisebu i gael dileu eu cofnodion troseddol (gweler y blwch isod)

Massachusetts – selio cofnodion troseddol³¹³

Mae proses dileu cofnodion ym Massachusetts yn dechrau wrth i'r ceisydd wneud cais ysgrifenedig ffurfiol i'r comisiynydd prawf. Ar ôl deisebu a chyflwyno unrhyw ddogfennau ategol i glerc y swyddfa, bydd ffeil yr achos yn cael ei roi i un o farnwyr y Llys Rhanbarth ei adolygu. Yna, cynhelir gwrandawriad llys os bydd y barnwr yn penderfynu bod y cais yn cyrraedd y safon gyfreithiol gychwynnol ar gyfer selio.

Pan bennir dyddiad ar gyfer y gwrandawriad, bydd swyddfa'r clerch yn rhoi rhybudd i swyddfa atwrnai'r rhanbarth a'r adran prawf. Yn y gwrandawriad, rhoddir cyfle i'r ceisydd ddweud wrth y llys pam mae yna 'reswm da' dros selio'r cofnod a sut mae hynny'n gwrthbwysu hawl gyffredinol y cyhoedd i fod yn ymwybodol ohono. Bydd y llys yn pwysu a mesur sawl gwahanol ffactor gan gynnwys:

- Y problemau i'r ceisydd sy'n codi yn sgil ei gofnod troseddol;
- tystiolaeth o adsefydlu, sy'n dangos y byddai'r ceisydd yn manteisio'n iawn petai ei gofnod yn cael ei selio;
- amgylchiadau perthnasol adeg y trosedd sy'n awgrymu na wnaiff y ceisydd aildroseddu; a
- faint o amser sydd wedi mynd heibio ers y trosedd.

Ar ddiwedd y gwrandawriad, bydd y barnwr yn penderfynu. Yna, bydd swyddfa'r clerch yn rhoi copi o'r gorchymyn llofnodedig i'r unigolyn ac i'r prif swyddog prawf. Os bydd y penderfyniad yn mynd o blaid y ceisydd, bydd y cofnod yn cael ei selio. Mae hyn yn golygu, er bod y cofnod yn bodoli o hyd, ac y gellir ei ddangos i farnwyr os bydd unigolyn yn torri'r gyfraith eto yn y dyfodol, na fydd yn rhaid i unigolion ei ddatgelu wrth wneud cais am swyddi.

Mae tystiolaeth o'r UDA yn 2014 yn dangos bod diwygio'r drefn cofnodion troseddol yn gallu hybu cyfraddau cyflogaeth, gan gynyddu swm y trethi a gesglir a lleihau cost gwasanaethau lles.³¹⁴ Mae'n bryd inni weld y don nesaf o ddiwygio yn y wlad hon. Dylai'r SCT ddysgu yn sgil y dull a ddilynir ym Massachusetts, gan gydnabod bod y dull mwy hyblyg hwn yn rhoi cyfle i gyn-droseddwyr, sydd wedi newid, ddechrau o'r newydd. Dylid barnu pob achos ar ei haeddiant ei hun, naill ai gan farnwr neu gan gorff megis y Bwrdd Parôl, ond dylai'r system ragdybio edrych yn ffafriol ar y rheini sydd wedi cyflawni troseddau'n blant neu yn oedolion ifanc, ond sydd ers hynny wedi gwneud pob ymdrech i ymddiwygio. Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn deall yr achos o blaid diwygio'r gyfundrefn cofnodion troseddol, dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gomisiynu a chyhoeddi astudiaeth sy'n dangos costau diweithdra ymhlith cyn-droseddwyr.

Argymhelliad 34: Dylai ein System Cyfiawnder Ieuenctid ddysgu yn sgil y system selio cofnodion troseddol a ddefnyddir mewn llawer o'r taleithiau yn UDA. Dylai unigolion allu cael gwrandu'u hachos, naill ai gan farnwr neu gorff tebyg i'r Bwrdd Parôl, a fyddai wedyn yn penderfynu a ddylid selio'u cofnod. Dylid rhagdybio y dylid ystyried yn ffafriol y rheini sydd wedi cyflawni troseddau naill ai yn ystod eu plentyndod neu fel oedolion ifanc ond sy'n gallu dangos eu bod wedi newid ers eu heuogfarn.

Argymhelliad 35: Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn deall y ddadl o blaid diwygio'r drefn cofnodion troseddol, dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Adran Gwaith a Phensiynau gomisiynu a chyhoeddi astudiaeth sy'n dangos costau diweithdra ymhlith cyn-droseddwyr.

Casgliad

Mae'r hyn sy'n achosi i rywun aildroseddu'n gymhleth ac mae atal aildroseddu'n dasg heriol. Serch hynny, mae angen i sefydliadau yn y sector preifat sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am redeg gwasanaethau prawf ddangos eu bod yn gwneud popeth yn eu gallu i wneud gwahaniaeth. Mae hyn yn cynnwys ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, megis troseddwyr BAME. Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder afael yn yr awenau er mwyn sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd yn y maes hwn.

Mae'r system cyfiawnder ieuenctid wedi dangos bod diffyg tegwch i bobl BAME yn broblem ers tro, ond nid oes digon wedi'i wneud i dynnu ynghyd y gwersi a ddysgwyd mewn gwaith cychwynnol addawol. Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid fynd i'r afael a hyn ar frys. Yn y cyfamser, mae angen i gymunedau lleol gael eu cynnwys i daflu goleuni ar sefyllfaoedd a chynnig cymorth ymarferol i leihau aildroseddu.

Yn olaf, rhaid sylweddoli mai swydd yw'r sylfaen ar gyfer bywyd heb droseddu i gyn-droseddwyr, ond bod ein trefn cofnodion troseddol yn ei gwneud yn anos i'r rheini sydd ag angen gwaith fwyaf gael gafael arno. Pwrpas y system yw amddiffyn y cyhoedd, ond mae'n gwneud y gwrthwyneb os bydd cyn-droseddwyr yn segur heb swyddi ac yn cael eu denu yn ôl i droseddu. Mae gofyn cael system fwy hyblyg, sy'n gallu cydnabod pan fydd pobl wedi newid ac nad fyddant yn peri risg sylweddol i eraill ragor.

Casgliad

Ac ystyried faint o bobl o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) sydd yn ein system cyfiawnder troseddol (SCT) roedd yn hen bryd cynnal adolygiad fel hyn. Mae llawer o'r rheini sy'n cadw llygad barcud ar y SCT, gan gynnwys rhai o'r rheini sy'n gweithio ynddi, yn dweud bod hil wedi llithro i lawr y rhestr o flaenoriaethau. Adlewyrchir hyn mewn dogfennau polisi nad ydynt ond yn cyfeirio wrth fynd heibio at hil, ethnigrwydd neu grefydd.³¹⁵

Mae'n wir bod rhagfarn agored ar sail hil yn llai amlwg yn y gymdeithas ehangach. Er enghraifft, mae cyfran y bobl sy'n dweud na fyddai ots ganddynt petai perthynas yn priodi â rhywun o gefndir India'r Gorllewin neu rywun Asiaidd wedi gostwng yn sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae'n wir hefyd bod cenedlaethau iau, sydd wedi tyfu mewn gwlad fwy amrywiol, yn sôn am lefelau is o ragfarn na chenedlaeth eu rhieni a'u neiniau a'u teidiau.³¹⁶ Mae normau cymdeithasol yn newid.

Serch hynny, mae rhywfaint o'r rhagfarn a oedd gynt yn agored bellach o dan y wyneb. Mewn astudiaeth ddiweddar yn yr Unol Daleithiau, canfuwyd bod un ffordd benodol o sarhau Americanwyr Affricanaidd ar sail eu hil yn destun saith miliwn chwiliad y flwyddyn ar Google.³¹⁷ Weithiau, gall rhagfarn fod yn fwy cynnil. Ystyriwch, er enghraifft, pan ddefnyddir y gair 'gang' yn hytrach na 'grŵp' mewn disgwrs gyhoeddus am drosedd. Gellir ei ddefnyddio i grybwyll ethnigrwydd yn hytrach nag i ddisgrifio'r cysylltiadau rhwng grŵp o bobl sy'n destun amheuaeth.

Mae'r maes astudio newydd hefyd am duedd 'anymwybodol' neu 'ymhlyg', sy'n archwilio'r risg y bydd unigolion yn gweithredu ar sail rhagfarnau nad ydynt o reidrwydd hyd yn oed yn ymwybodol ohonynt.³¹⁸ Mae'r math hwn o duedd yn cael ei ddefnyddio i esbonio popeth o sefydliadau'n diystyru ymgeiswyr dawnus o gefndir lleiafrifol,³¹⁹ i heddlu arfog yn saethu mwy o bobl dduon sydd heb eu harfogi nag o bobl wyn.³²⁰ Mae'r dulliau a ddefnyddir i sylwi ar duedd anymwybodol yn destun dadleuon ysgolheigaidd croch³²¹, ond mae'r cysyniad ei hun yn dod yn fwyfwy'n rhan o'r brif ffrwd.

Rhaid cydnabod bod gwahanol randdeiliaid yn arddel gwahanol farn am rôl y tair ffurf hon ar ragfarn - agored, cudd ac anymwybodol - yn y SCT heddiw. Roedd cyhuddiadau o hiliaeth yn nodwedd gref yn y dystiolaeth i'r adolygiad ac mewn ymchwil ansoddol a gomisiynwyd ar ei gyfer.³²² Mae hiliaeth gudd yn destun pryder mawr i'r prif arbenigwyr yn y maes.³²³ Yn y cyfamser, mae uwch arweinyddion yn y system cyfiawnder wedi galw am ganolbwyntio mwy ar fynd i'r afael â thuedd anymwybodol.³²⁴

Fy nghasgliad i yw bod unigolion BAME yn dal i wynebu tuedd, gan gynnwys camwahaniaethu agored, mewn rhannau o'r system cyfiawnder. Mae llai o ragfarn ond mae'n dal i fodoli yn y gymdeithas ehangach - byddai'n syndod petai'n gwbl absennol o sefyllfaoedd cyfiawnder troseddol. Serch hynny, yr hyn yr wyf fi'n canolbwyntio arno yw'r ffordd y mae unigolion BAME yn cael eu *trin* a'u *canlyniadau*, yn hytrach na dehongli'r bwriadau sy'n gefn i benderfyniadau di-ri mewn amrywiaeth o wahanol sefydliadau.

Triniaeth a chanlyniadau yw'r ddau beth yr wyf fi'n ymboeni mwyaf yn eu cylch oherwydd bod y presgripsiwn er mwyn sicrhau triniaeth deg yn rhyfeddol o debyg, ni waeth beth yw'r diagnosis o'r broblem. Fel y mae'r adroddiad hwn wedi'i ddadlau, y ffordd orau o sicrhau triniaeth deg yw gwneud yn siŵr bod penderfyniadau'n destun craffu. Mae agor y drws ar benderfyniadau'n sicrhau dau beth ar unwaith. Yn gyntaf, mae'n annog unigolion i ystyried eu tuedd hwy eu hunain. Yn ail, mae'n help i sylwi ar broblemau a'u cywiro. O safbwynt ymarferol, gall hyn olygu pethau gwahanol mewn

gwahanol leoliadau, o gyhoeddi mwy o ddata, i ganiatáu i bobl o'r tu allan graffu ar y drefn, i drefniadau llywodraethu sy'n dal unigolion yn atebol o fewn sefydliadau.

Wrth i dechnoleg ddatblygu, bydd angen i natur y craffu esblygu hefyd. Mae dulliau newydd, megis algorithmau yn debygol o gael eu defnyddio fwyfwy yn y blynyddoedd nesaf wrth wneud penderfyniadau- er enghraifft, i asesu'r risg y bydd unigolion yn eu peri i bobl eraill. Os a phan fydd hyn yn digwydd, bydd angen i'r SCT ddod o hyd i ffyrdd newydd o sicrhau penderfyniadau tryloyw. Yn yr Unol Daleithiau, ceir enghreifftiau o unigolion yn cael eu dedfrydu'n rhannol ar sail meddalwedd sy'n eiddo i'r drefn ac felly nad yw'n agored i herio a chraffu.³²⁵ Rhaid inni osgoi hyn ar bob cyfrif. Mae hyn yn eithriadol o bwysig os bydd modelau mathemategol yn rhoi grwpiau penodol o dan anfantais yn anfwriadol - fel y mae rhai i bob golwg yn ei wneud eisoes.³²⁶ Er mwyn rhagweld problemau o'r fath, dylai'r gwaith ddechrau yn awr i ddiffinio atebolrwydd mewn byd lle bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud fwyfwy drwy uwch-dechnoleg.

Mae tegwch yn hanfodol er mwyn sicrhau triniaeth gymesur, ond nid yw hynny'n ddigon. Rhaid i'r SCT hefyd ennyn *ymdiriedaeth* y sawl sy'n ymgysylltu â hi, er mwyn i ganlyniadau wella. Y gwahaniaeth mewn penderfyniadau pledio rhwng diffynyddion BAME a diffynyddion Gwyn yw'r enghraifft amlycaf o hyn. Bydd diffynyddion BAME yn pledio'n ddieuog i 40% o'r cyhuddiadau, o'u cymharu â diffynyddion Gwyn sy'n pledio'n ddieuog i 31% o gyhuddiadau.³²⁷ Fel y mae'r adroddiad hwn wedi'i ddadlau, mae pledio'n ddieuog wrth gwrs yn briodol pan na fydd diffynyddion yn euog. Ond, pan fydd trosedd wedi'i gyflawni, mae pledio'n 'ddieuog' yn ddrwg i bawb, gan arwain at drallod i ddiodefwyr, achosion drud a dedfrydau llymach i'r rheini a geir yn euog. Mae penderfyniadau pledio ar hyn o bryd yn gwaethygu'r sefyllfa anghyfartal.

Mae diffyg ymdiriedaeth yn broblem, nid dim ond yn y llysoedd, ond hefyd yn system ein carchardai. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng hyn â gwell ymddygiad ac, yn ôl y dystiolaeth ryngwladol, â llai o aildroseddu.³²⁸ Mewn carchardai i oedolion yng Nghymru a Lloegr, mae carcharorion BAME yn llai tebygol na carcharorion Gwyn o gytuno eu bod wedi cael eu trin yn deg o dan y cynllun Cymhellion ac Ennill Breintiau - y prif ddull y bydd staff y carchardai'n ei ddefnyddio i reoli a chymell ymddygiad yn y carchar. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad eu bod hefyd yn llai tebygol o gytuno bod y cynllun Cymhellion ac Ennill Breintiau yn eu hannog i newid eu hymddygiad.³²⁹ Mae diffyg ymdiriedaeth yn arwain at ganlyniadau gwael.

I feithrin ymdiriedaeth, yr her yw chwalu dirgelwch prosesau penderfynu a'u gwneud yn agored i bawb eu gweld, er mwyn i bobl eu deall yn well. Dylai pob carcharor, er enghraifft, allu gweld y sylwadau dedfrydu sy'n esbonio hyd eu dedfryd. Yn y carchardai eu hunain, dylai fod fforymau i garcharorion drafod eu cwynion â'r staff a'r tîm arwain, fel sydd eisoes yn digwydd mewn llawer o sefydliadau. Ochr yn ochr â hyn, rhaid i'r sefydliadau ar draws y SCT wneud mwy o lawer i sicrhau amrywiaeth ymhlith y staff ar bob lefel. Dylai hyn gynnwys targedau clir, targedau cenedlaethol i fesur cynnydd yn y blynyddoedd nesaf. Heb wneud rhagor o gynnydd yn y maes hwn, bydd y diwylliant 'nhw' a 'ni' yn para.

Serch hynny, bydd angen amser i feithrin ymdiriedaeth. Dylai'r SCT gydnabod hyn a dod o hyd i ffyrdd o sicrhau nad yw'n chwyddo'r gwahaniaethau rhwng yr hiliau. Er enghraifft, ni ddylai cynlluniau sy'n cyfeirio troseddwy'r sydd heb gyflawni trosedd treisgar oddi wrth y carchar ddibynnu ar y gofyniad traddodiadol sef eu bod yn cyfaddef eu bod yn euog – byddai hynny'n golygu y byddai mwy o unigolion BAME yn elwa o'r cyfle i ddilyn trywydd newydd. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gall cynlluniau o'r fath hefyd wella bodlonrwydd i ddiodefwyr, sicrhau llai o niwed yn sgil yr aildroseddu a chostio llai yn y broses.³³⁰ Y pwynt hollbwysig yw bod modd gwneud hyn ac y byddai llai o blant ac oedolion ifanc yn cael cofnodion troseddol a fydd yn eu llesteirio yn y dyfodol.

Gall y system cyfiawnder wneud rhagor hefyd i rannu'r cyfrifoldeb y tu hwnt i'w ffiniau ei hun. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae gwasanaethau cyhoeddus eraill wedi datblygu strategaethau mwy soffistigedig i wneud hyn. Bydd y gwasanaeth iechyd yn canolbwyntio nid dim ond ar drin afiechyd, ond hefyd ar hybu byw'n iach;³³¹ bydd ysgolion yn canolbwyntio nid dim ond ar eu haddysgu eu hunain ond hefyd ar gydweithio â rhieni;³³² mae gwasanaethau'r heddlu wedi ceisio amddiffyn traddodiad sy'n gweld cymunedau lleol yn bartneriaid y dylid cydweithio â hwy - hyd yn oed pan fydd hyn yn amherffaith, ac nid yw'n mynd cyn belled nac mor gyflym ag yr hoffai rhai aelodau o'r gymuned ei weld.³³³

Gall y system cyfiawnder ieuencid, yn benodol, wneud rhagor i sicrhau bod rhieni - a gofawyr plant sy'n derbyn gofal - yn barod i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros blant sy'n eu cael eu hunain mewn trwb, ac mae modd dysgu gwersi am gynnwys cymunedau lleol er mwyn lleihau cyfraddau aildroseddu. Rhaid rhoi rhagor o bwyslais hefyd ar yr oedolion sy'n camfanteisio ar lawer o blant ac oedolion ifanc BAME a dosbarth gweithiol Gwyn, gan eu hudo i fywyd gangiau. Dylid defnyddio deddfwriaeth megis y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, sydd wedi'i chynllunio i fynd i'r afael a chamfanteisio, i'r eithaf.

Mae'r egwyddorion craidd hyn - sicrhau tegwch, meithrin ymddiriedaeth, a rhannu cyfrifoldeb - yn sail i argymhellion yr adolygiad hwn. Gyda'i gilydd, maent yn cynnig dull cynhwysfawr o fynd i'r afael â'r ffaith bod gormod o bobl BAME yn y SCT sy'n gwastraffu bywydau ac arian - cost economaidd yn ôl yr amcangyfrif o £309 miliwn y flwyddyn³³⁴

Mae un rhagamod olaf i sicrhau cynnydd: arweiniad. Noddwyd yr adolygiad hwn gan ddau Brif Weinidog ac mae wedi ennyn cefnogaeth drawsbleidiol. Mae'r adroddiad o reidrwydd wedi canolbwyntio'n bennaf ar y rôl y gall polisi cyhoeddus ei chwarae yn gwella'r driniaeth a gaiff unigolion BAME a'u canlyniadau. Serch hynny, nid yw presgripsiynau polisi ar eu pen eu hunain yn 'cyflawni' dim. Rhaid i bob cangen i'r SCT benderfynu ei hun ynglŷn â'i harchwaeth ei hun at newid. Rhaid i'r diwygio gael ei ysgwyddo gan arweinyddion dewr a phenderfynol. Mae hyn yn berthnasol i wleidyddion sy'n gyfrifol am adrannau, i brif weithredwyr sy'n gyfrifol am asiantaethau, yn ogystal ag i holl sefydliadau'r SCT -Timau Troseddau Ieuencid, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r farnwriaeth.

